

Cynnwys

Cynnwys	
Rhaglen	2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf	5
5 - Safonau Iaith - Diweddariad	12
Atodiad A	14
Atodiad B	18
7 - Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 Drafft	47
Atodiad A	50
8 - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17	108
Atodiad A	110
9 - Cwynion Iaith	155



Gwasanaeth Democraidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR IAITH
LANGUAGE COMMITTEE

10.30AM, DYDD MERCHER, 15 IONAWR, 2014

10.30AM, WEDNESDAY, 15 JANUARY, 2014

Lleoliad / Location

***YSTAFELL GLYDER FAWR, SWYDDFA PENRALLT,
CAERNARFON**

*Nodwch y lleoliad ogydd / *Please note venue

Pwynt Cyswllt / Contact Point

EIRIAN ROBERTS

(01286) 679018

maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 8/01/14)

PWYLLGOR IAITH LANGUAGE COMMITTEE

AELODAETH/MEMBERSHIP (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr/Councillors

Craig ab Iago

Elwyn Edwards

Alan Jones Evans

Dyfrig Jones

Liz Saville Roberts

Mair Rowlands

Gareth Thomas

Mandy Williams-Davies

Annibynnol/Independent (4)

Y Cynghorwyr/Councillors

Tom Ellis

Eric M. Jones

Eirwyn Williams

Elfed Williams

Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr/Councillors

Gweno Glyn

Alwyn Gruffydd

Gruffydd Williams

Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor / Council Chairman and Vice-chairman

Aelod Arall a Wahoddir / Other Invited Member

Y Cynghorydd / Councillor Ioan Thomas – Aelod Cabinet – Y Gymraeg / Cabinet Member – The Welsh Language

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2013 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

5. SAFONAU IAITH: DIWEDDARIAD

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (copi ynghlwm).

6. CYFLWYNIAD ADRANNOL – ADNODDAU DYNOL

Derbyn cyflwyniad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol ar ystadegau recriwtio'r Cyngor yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg (papur i'w rannu yn y cyfarfod).

7. STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 2014-2017 DRAFFT

Ystyried adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm).

8. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2014-2017

Ystyried adroddiad y Pennaeth Addysg (copi ynghlwm).

9. CWYNIION IAITH

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (copi ynghlwm).

PWYLLGOR IAITH, 10.10.13

Yn bresennol: Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (Cadeirydd).

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Dyfrig Jones, Eric Merfyn Jones, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams a Mandy Williams-Davies.

Swyddogion: Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio), Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Nia Davies (Rheolwr Cynllunio – Polisi), Ruth Richards (Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Sylwedydd: Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Gweno Glyn.

1. IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Gweno Glyn yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2013/14.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATER BRYD – YMCHWILIAD CRAFFU CAFFAEL CYNALIADWY – MEWNBWN Y PWYLLGOR IAITH

Nid oedd yr eitem hon wedi'i chynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd i'w thrafod fel mater bryd o dan Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan y bydd yr Ymchwiliad Craffu Caffael Cynaliadwy yn argymhell i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol a'r Aelod Cabinet ym mis Ionawr fod y Pwyllgor Iaith yn edrych ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y prif adrannau sy'n paratoi tendrau.

Yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Cadeirydd y Grŵp, eglurodd y Cynghorydd Mair Rowlands fod y grŵp wedi bod yn edrych ar addasrwydd y polisiâu a'r canllawiau caffael cynaliadwy a'u bod o'r farn nad oedd y sefyllfa bresennol yn adlewyrchu pwysigrwydd y canllawiau ieithyddol.

PENDERFYNWYD gosod y mater hwn ar raglen cyfarfod Ionawr o'r Pwyllgor Iaith.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2013 fel rhai cywir.

5. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn gofyn i'r pwyllgor gymeradwyo'r rhaglen waith, gan ychwanegu ati yn ôl yr angen.

Yn ystod y drafodaeth ar yr eitem, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- (i) Nodwyd nad oedd pethau'n gwella a bod rhywbeth mawr o'i le'n gorfforaethol gyda'r agwedd bresennol tuag at yr iaith Gymraeg. 'Roedd yr ystadegau diweddaraf wedi dangos yn glir bod gofal y Cyngor o dreftadaeth ieithyddol a diwylliannol y sir wedi dirywio a bod yna don o ddifaterwch tuag at yr iaith o fewn y Cyngor. Fel enghreifftiau o hyn, nodwyd bod ffurflen gais i gau sgwâr Tremadog ar gyfer Ffair Nadolig wedi ei derbyn yn uniaith Saesneg a bod y ffurflenni cofrestru etholwyr a anfonwyd allan yn ddiweddar wedi eu plygu gyda'r fersiwn Saesneg yn wynebu at i fyny. 'Roedd y neges mae hyn yn ei roi i'r cyhoedd yn ddamniol i'r Gymraeg a dylai'r Cyngor roi'r Gymraeg yn flaenaf bob amser.
- (ii) Awgrymwyd gyrru neges i'r Cabinet yn eu hannog i benodi Pencampwr y Gymraeg o fewn y Cyngor.
- (iii) Awgrymwyd y dylai'r polisi gosod tai yng Ngwynedd roi blaenoriaeth i siaradwyr Cymraeg gan fod dylanwad plant di-gymraeg yn chwarae ar ystadau yn llawer mwy andwyol i ddyfodol yr iaith nag ambell lythyr di-gymraeg yn cyrraedd drwy'r post. Cytunodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith i edrych ar y sefyllfa gyfreithiol ochr yn ochr â rheoli gosod tai a dod â gwybodaeth yn ôl i'r pwyllgor.
- (iv) Nodwyd bod pobl o'r tu allan yn cael blaenoriaeth dros Gymry am dai a hefyd bod adeiladu tai'n ddiangen yn mynd i ladd y Gymraeg.
- (v) Nodwyd bod y Cyngor yn parhau i ddefnyddio fersiynau Saesneg diystyr o enwau strydoedd, e.e. West End am Faes Abereistedd yng Nghricieth.
- (vi) Croesawyd y bwriad i'r pwyllgor dderbyn cyflwyniadau gan yr adrannau.
- (vii) Pwysleisiwyd y dylai grantiau a thrwyddedau a roddir i fusnesau / cwmnïau, ayb, fod yn destun amodau ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg. Fel enghraifft o hyn, nodwyd bod pob arwydd am Farchnad Caernarfon yr holl ffordd o Fangor i Bwllheli yn Saesneg yn unig. 'Roedd yn rhaid gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy a'r pethau bach sy'n bwysig. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r eitem '*3ydd parti sy'n defnyddio asedau'r Cyngor*' a raglennwyd ar gyfer cyfarfod Mehefin nesaf edrych ar y defnydd o amodau yn ehangach. Mewn ymateb i awgrym nad oedd pobl yn cael eu dwyn i gyfri' am beidio cydymffurfio ag amodau grant, eglurodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith na ellid gosod amodau ond yng nghyswllt yr hyn y rhoddir arian ar ei gyfer. Fodd bynnag, ceisid annog pob cwmni / sefydliad sy'n derbyn unrhyw fath o grant i weld gwerth dwyieithrwydd ac i weld gwerth yr iaith Gymraeg fel teclyn marchnata. Nododd hefyd y ceisid gwthio'r ffiniau cyn belled â phosib', ond na roddid arian yn uniongyrchol i unrhyw beth na fyddai'n cydymffurfio â gofynion ieithyddol y Cyngor.

PENDERFYNWYD derbyn y rhaglen waith gyda'r ychwanegiadau.

6. YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2012-2013

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn cyflwyno sylwadau'r Comisiynydd ar Adroddiad Monitro Iaith Blynyddol Cyngor Gwynedd 2012-13 ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r cais am ragor o wybodaeth ar agweddau o'r adroddiad.

Rhodddwyd sylw penodol i'r materion a ganlyn:-

- (i) Mewn ymateb i gwestiwn, nododd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith nad oedd yna drefn ffurfiol o fonitro llwyddiant y sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff, ond na dderbyniwyd unrhyw gŵyn am wasanaeth y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid ers i'w staff dderbyn yr hyfforddiant ym Mehefin 2012. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid sefydlu trefn o ofyn, ymhen, dyweder, 6 mis, i staff sydd wedi derbyn yr hyfforddiant ddweud sut mae'r hyfforddiant hwnnw wedi dylanwadu ar eu hymddygiad / yr hyn maent yn ei wneud.
- (ii) Nodwyd nad oedd y drefn o fonitro contractau Gofal Cymdeithasol yn gweithio gan fod yna ofalwyr di-gymraeg yn ymweld â phobl sydd ag anghenion ieithyddol gwahanol. Holwyd sut y gellid goresgyn hynny a gofynnwyd hefyd a oedd yna ffordd i ddarparu'r teclyn pennu sgiliau ieithyddol i fusnesau sy'n cynnig gwasanaethau i'r Cyngor. Atebodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith fod y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi adnabod hyn fel maes blaenoriaeth a'u bod, ar hyn o bryd, yn gweithredu ar argymhellion yr arolwg a gomisiynwyd gan y Ganolfan Cynllunio Iaith o ofynion ac ymarfer y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal a gofal cartref. Ychwanegodd ei bod braidd yn gynnar i fedru dweud faint o wahaniaeth y byddai hyn yn ei wneud, ond 'roedd yn rhywbeth i ail ymweld ag o. O ran y teclyn, nododd nad oedd mewn sefyllfa i roi sylw ar hynny gan mai ond yn ddiweddar iawn y cynhaliwyd y peilot. Fodd bynnag, 'roedd o'r farn bod gwerth iddo ac awgrymodd y byddai hyn yn rhywbeth i'w godi gyda'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn y cyfarfod nesaf.

Awgrymwyd, os oedd y teclyn wedi ei ddatblygu ar gyfer peilot, a'i fod yn gweithio, yna dylid symud ymlaen ar fyrder i'w ddefnyddio o fewn y Cyngor gan ei bod yn hanfodol bod pobl yn derbyn gofal yn eu hiaith eu hunain. Atebodd y Cadeirydd fod y teclyn yn eiddo i CBAC ac mai hwy oedd yn ei beilota, ond bod yna le i'r Cyngor hwn godi'r angen iddo gael ei ehangu.

Awgrymwyd, os yw'r Cyngor wedi peilota'r teclyn i CBAC, y dylai ofyn am ei ddefnyddio wedyn.

PENDERFYNWYD derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg ac ymateb y Cyngor i'r cais am wybodaeth.

7. CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG

Croesawyd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a'r Rheolwr Cynllunio – Polisi i'r cyfarfod.

Cyn rhoi trosolwg o gynnwys adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio, hysbysodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio'r aelodau fod y Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 newydd wedi ei gyhoeddi'r diwrnod cynt. Eglurodd fod y TAN 20 newydd yn rhoi mwy o gig ar yr asgwrn nag yr oedd y TAN 20 gwreiddiol. Nododd nad oedd y TAN 20 newydd yn mynd mor bell ag y byddai'r swyddogion wedi gobeithio, ond 'roedd paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn rhoi'r cyfle, os oes tystiolaeth gadarn, i herio ambell beth a cheisio gwthio'r ffiniau o safbwynt cynllunio. 'Roedd y pwyslais yn y TAN 20 newydd ar sicrhau bod yr ystyriaethau ieithyddol yn cael eu cyfarch yn y broses o ddarparu'r CDLI ar y Cyd yng nghyd-destun Gwynedd. O ran ceisiadau cynllunio unigol, 'roedd y TAN 20 newydd yn datgan, gan fod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth i'r iaith wrth baratoi'r cynllun, nad oedd angen rhoi ystyriaeth i hynny eto pan fo ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno. 'Roedd gan y swyddogion cynllunio bryderon ynglŷn â hynny a byddai'n rhaid edrych ar y sefyllfa yng nghyd-destun y CDLI ar y Cyd, a hefyd Canllaw Cynllunio Atodol a fyddai, yn y

y pen draw, yn gig ar asgwrn beth bynnag fydd y polisi hwnnw. Fodd bynnag, 'roedd yr amseriad yn ddelfrydol o safbwynt y broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd gan fod yna gyfle i gyfarch y materion hyn yn y cynllun.

Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ymhellach iddo geisio barn Uned Gyfreithiol y Cyngor ynglŷn â sut y byddid yn ymdrin â cheisiadau cynllunio yng nghyd-destun y TAN 20 newydd, ac iddo gael barn ar lafar yn nodi, er y byddai'r TAN 20 newydd yn ystyriaeth gynllunio faterol, nad yw'r CDLI ar y Cyd wedi'i fabwysiadu eto ac mai Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yw'r cynllun sydd wedi'i fabwysiadu. Gan hynny, byddai'r dull o ymdrin â cheisiadau cynllunio yn aros yr un fath ac 'roedd yr wybodaeth yn Rhan 1 o adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio yn parhau'n berthnasol hyd oni fyddai'r CDLI ar y Cyd wedi'i fabwysiadu yn 2016 gobeithio. Yng nghyd-destun y TAN 20 newydd, Rhan 2 o'r adroddiad oedd y pwysicaf, oherwydd dyma'r cyfle i ddylanwadu ar bolisi Gwynedd am y 15 mlynedd nesaf hyd 2026.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

- (i) Mewn ymateb i ymholiad, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio fod y datganiad yn y TAN 20 gwreiddiol na ddylid rhoi meddiannaeth tai am resymau ieithyddol yn dal yn berthnasol yn y TAN 20 newydd ac yn cael ei gynnwys ym mharagraff 3.7.4. Eglurodd fod yna faterion deddfwriaethol yng nghyd-destun y datganiad hwn ac na ellid gorfodi neb na dylanwadu'n uniongyrchol ar sail iaith, hil ayb. Ychwanegodd fod y TAN 20 newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar y ffaith bod y Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol ac yn egluro'r hyn y disgwylir i awdurdodau cynllunio ei wneud er mwyn cyfarch materion ieithyddol. Nid oedd yn egluro sut i wneud hynny, ond deallid bod yna ganllawiau eraill ar y gweill fyddai'n rhoi mwy o fanylder ynglŷn â hynny fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd. Ychwanegodd fod y ffordd y paratowyd y CDLI ar y Cyd hyd yma yng nghyd-destun asesiadau ieithyddol a chymunedol yn cydymffurfio â gofynion y TAN 20 newydd.
- (ii) Mynegwyd pryder na fyddai yna newid yn y dull o ymdrin â cheisiadau cynllunio am o leiaf 2-3 blynedd ac y byddai'r effaith andwyol ar yr iaith wedi'i wneud yn y cyfamser. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio fod gan y Cyngor gynllun wedi'i fabwysiadu, ac yn ystod y 2 flynedd nesaf, hyd at fabwysiadu'r CDLI ar y Cyd, byddai'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol yng nghyd-destun pob cais cynllunio, yn ddarostyngedig i'r trothwyon o fewn y Canllaw Cynllunio Atodol. Yn wyneb hynny, yng nghyd-destun yr hyn mae TAN 20 yn ei ddweud, efallai nad oedd brys i ddod â TAN 20 i mewn i weithred o ran delio gyda cheisiadau cynllunio oherwydd ei fod yn datgan na ddylid ail-asesu materion ieithyddol yng nghyd-destun ceisiadau cynllunio ar ôl i'r CDLI ar y Cyd gael ei fabwysiadu. Gan hynny, dros y 2 flynedd nesaf, byddai'r drefn bresennol o weithredu'n parhau gyda materion ieithyddol yn cael eu hasesu ochr yn ochr â'r holl ystyriaethau cynllunio eraill yng nghyd-destun pob un cais unigol lle mae hynny'n berthnasol.
- (iii) Mynegwyd pryder bod y TAN 20 newydd yn dweud yn glir na ddylid cyflawni asesiadau ardrawiad iaith ar geisiadau unigol oherwydd bod hynny'n dyblygu gwaith. Fodd bynnag, y cyngor a roddid oedd bod yr asesiadau ardrawiad iaith sy'n cael eu gwneud ar geisiadau unigol yn iawn hyd oni fo'r CDLI ar y Cyd wedi'i fabwysiadu. Gan hynny, nid oedd yr asesiadau iaith yn cael eu taflu o'r neilltu, ond 'roedd yn hynod bwysig bod cynnwys y CDLI ar y Cyd yn ei le yn gywir i Wynedd.

- (iv) Mynegwyd pryder nad oedd yr asesiadau ieithyddol yn asesiadau annibynnol a phwysleisiwyd y dylent gael eu comisiynu gan y Cyngor fel eu bod yn ddiuedd. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio nad oedd yna gyd-destun polisi i fod yn gofyn am asesiad annibynnol, a hyd yn oed petai hynny ar gael, pwy fyddai'n gwneud yr asesiad annibynnol? Ychwanegodd fod yna nifer o ystyriaethau cynllunio ynghlwm â phob un cais a bod yna nifer o asesiadau yn rhan o'r ceisiadau hynny. Eglurodd fod y Gwasanaeth, drwy'r Uned Bolisi Cynllunio ar y Cyd, sy'n arbenigo yn y maes iaith a chymunedol, yn asesu a herio datganiadau ieithyddol a chymunedol, ac yn yr un modd, 'roedd y Gwasanaeth yn asesu ac yn herio, os yn angenrheidiol, yr holl wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno gan bob ymgeisydd yng nghyd-destun yr holl ystyriaethau cynllunio eraill perthnasol. Eglurodd fod delio gyda chais cynllunio yn golygu pwysu a mesur nifer o ystyriaethau cynllunio perthnasol yng nghyd-destun y CDU wrth ddod i argymhelliad.

Holwyd a oedd gan y Cyngor hawl cyfreithiol i ofyn am asesiad annibynnol. Nodwyd hefyd nad oedd yr aelodau byth yn gweld yr asesiadau nac yn cael cyfle i'w herio. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio nad oedd y polisiâu cyfredol yn dweud bod disgwyl i'r ymgeisydd dalu am asesiad annibynnol. Nododd hefyd bod yr holl asesiadau ar gyfer pob cais cynllunio ar gael ar gyfer pob aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a phob aelod o'r Cyngor ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn cais. Nid oedd yn ymarferol cynnwys yr asesiadau yn eu cyfanrwydd ar raglenni'r Pwyllgor Cynllunio ac 'roedd yr adroddiadau cynllunio yn fanwl ac yn cwmpasu'r holl faterion cynllunio perthnasol, gan gynnwys materion ieithyddol a chymunedol. O safbwynt yr hawl cyfreithiol i ofyn am asesiad annibynnol, cytunodd y Rheolwr Cydraddoldeb ac Iaith i edrych i mewn i'r mater a dod ag ateb yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

- (v) Nodwyd, er y croesawid y TAN 20 newydd yn gyffredinol, bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dweud nad oedd y Cyngor yn craffu digon ar y polisiâu cynllunio.
- (vi) Mynegwyd anniddigrwydd na fyddai'r iaith yn berthnasol i geisiadau unigol yn ôl y TAN 20 diweddaraf. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio fod yr amseriad yn dda o safbwynt paratoi'r CDLI ar y Cyd a bod rhaid edrych ar ddulliau o sicrhau bod y TAN 20 newydd yn gweithio i gyfarfod â dyheadau pobl Gwynedd. Ychwanegodd fod angen tystiolaeth er mwyn ceisio cael sail ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio unigol ar ôl mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd, gyda gwybodaeth atodol i'w chynnwys mewn Canllaw Cynllunio Atodol newydd. Cyfeiriodd at y gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer y CDLI ar y Cyd y cyfeiriwyd ato yn rhan 3.13 o'r adroddiad, megis y prosiect tai a iaith a'r prosiect tai marchnad lleol, fel enghreifftiau o'r gwaith oedd yn mynd yn ei flaen i gyfarch materion ieithyddol a dhymunedol.
- (vii) Gan gyfeirio at y Prosiect Tai ac Iaith (ail bwynt bwled o dan baragraff 3.13 o'r adroddiad), nododd yr aelod lleol na chafodd wybod ymlaen llaw fod Ward Diffwys a Maenofferen wedi ei dewis i dderbyn holiadur a mynegodd ei phryder fod cyfle wedi'i golli yma i godi ymwybyddiaeth yn lleol o bwysigrwydd dychwelyd yr holiaduron. Ymddiheurodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio am yr amryfusedd hwn.
- (viii) Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau polisiâu cynllunio sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y cadarnleoedd.

- (ix) Nodwyd, er y gellid ceisio gwthio'r ffiniau drwy'r drefn gyfreithiol, bod rhaid bod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud.
- (x) Awgrymwyd gofyn i'r Aelod Cabinet sefydlu gweithgor i ddatblygu polisi cynllunio i ddiogelu'r iaith Gymraeg yn y gymuned o fewn y CDLI ar y Cyd yng ngoleuni'r TAN 20 newydd a chanlyniadau Cyfrifiad 2011.
- (xi) Nodwyd bod dyletswydd ar y Cyngor i osod gwaelodlin a bod cyfle i'r gweithgor dan arweiniad yr Aelod Cabinet ddefnyddio profiadau i gyfrannu at hyn.

Nododd y Rheolwr Cynllunio – Polisi fod methodoleg i asesu effaith y CDLI ar y Cyd ar yr iaith Gymraeg a diwylliant yr ardal eisoes yn ei le a'i fod yn cael ei gymhwyso. 'Roedd yr amserlen yn heriol o safbwynt cael y cynllun llawn yn ei le, ac os oedd yna fwiad i sefydlu gweithgor, 'roedd angen gwneud hynny ar fyrder gan sicrhau bod trefn mewn lle i'r swyddogion cynllunio allu cyfrannu at yr wybodaeth i'r gweithgor hwnnw.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Rheolwr Cynllunio – Polisi fod y TAN 20 newydd yn gofyn i awdurdodau wneud asesiad cynladwyedd o'u cynllun a bod yr asesiad ieithyddol yn cael ei fwydo i mewn i'r asesiad cynladwyedd. Nododd fod Gwynedd yn gwneud hynny'n barod gan fod yna fframwaith ac amcanion cynladwyedd wedi'u sefydlu. Un o'r amcanion hynny oedd cynnal, gwarchod a gwella'r cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn yr ardal, ac fel 'roedd y CDLI ar y Cyd yn cael ei ddatblygu'n barod, 'roedd y cwestiwn yma'n cael ei ofyn ar bob cam.

Nododd y Cadeirydd mai dyma fan cychwyn i waith y gweithgor ac awgrymodd y dylai aelodau'r gweithgor fod yn aelodau o'r pwyllgor hwn sydd â chefnidir yn y maes cynllunio.

PENDERFYNWYD yn sgil y TAN 20 newydd a chanlyniadau Cyfrifiad 2011, gofyn i'r Aelod Cabinet sefydlu gweithgor i gyfrannu at gwrdd ag amcanion strategol Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg, drwy roi mewnbwn i'r broses o ddatblygu polisiau cynllunio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

8. CWYNIION IAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn manylu ar y cwynion iaith diweddaraf i law yn ymwneud â'r Cyngor, partneriaid neu sefydliadau trydydd parti.

Nododd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith y derbyniwyd cŵyn ychwanegol ers paratoi'r adroddiad fod amlenni parod a anfonwyd allan gan Uned Etholiadau'r Cyngor yn cyfeirio at '*Registration Officer*' a '*Shirehall Street*'. Wedi trafod gyda'r swyddogion, deallid bod hen gyflenwad o amlenni wedi'u hanfon allan ar ddamwain. Er mwyn osgoi sefyllfa o'r fath yn y dyfodol, byddai'r amlenni wedi'u cyfeirio o hyn allan i sylw'r Swyddog Etholiadau, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH, heb unrhyw gyfeiriad at enw'r stryd.

Rhodddwyd sylw penodol i'r materion a ganlyn:-

- (i) Mynegwyd anfodlonrwydd ynglŷn â'r ymateb i'r gŵyn bod swyddogion cynllunio wedi cyflwyno eu hachos mewn apêl cynllunio drwy gyfrwng y Saesneg a bod y ddogfennaeth a ddarparwyd ganddynt hefyd yn uniaith Saesneg. Nodwyd bod y penderfyniad i gynnal yr apêl dan sylw wedi'i wneud bum mis ymlaen llaw ac nad oedd yna unrhyw esgus dros beidio darparu'r ddogfennaeth yn Gymraeg.

Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio nad oedd ganddo ddim i'w ychwanegu i'r hyn oedd yn yr ymateb.

Awgrymodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y gellid gofyn i'r gwahanol adrannau ddatgan, wrth wneud eu cyflwyniadau i'r pwyllgor hwn, a oes ganddynt bolisiau ynglŷn ag, er enghraifft, dwyieithrwydd gerbron llysoedd.

Nodwyd bod angen edrych ar holl fater y Gymraeg yn gorfforaethol o fewn y Cyngor a bod angen mynd ati ar fyrder i newid y polisi o anfon dogfennaeth yn Saesneg os yw'r apelydd yn uniaith Saesneg. Ni ddylai fod gan bobl y dewis o gael popeth yn Saesneg a dylai pob dogfen fod yn Gymraeg, yn hytrach nag yn newis iaith y person.

Nododd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith fod hyn yn fater y gallai'r pwyllgor hwn edrych arno, naill ai pan mae adran benodol yn dod gerbron, neu fel mater ar wahân.

Mynegwyd pryder hefyd bod y swyddogion cynllunio wedi cyflwyno eu hachos yn yr apêl drwy gyfrwng y Saesneg, er bod yna gyfieithydd yn bresennol. Awgrymwyd y dylid atgoffa'r staff bod angen iddynt fanteisio ar y gwasanaeth cyfieithu. Nodwyd bod hon yn neges gyson i'w rhoi i bobl wrth iddynt ddod gerbron.

- (ii) Nodwyd bod y Gofrestr Etholwyr yn parhau i restru'r fersiynau Saesneg o enwau strydoedd yng Nghricieth, Porthmadog a Phwllheli.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.10pm.

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	IONAWR 15 2014
TEITL:	SAFONAU IAITH: DIWEDDARIAD
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD:	ER GWYBODAETH

1. Cefndir

- 1.1. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi datgan y bydd yn hysbysu Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol Cymru o Ymchwiliad Safonau ar Ionawr 6, 2014. Yn y pen draw, bwriad y Safonau iaith yw safoni darpariaeth parthed yr iaith Gymraeg ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Yn wahanol i Gynlluniau iaith, bydd y Safonau'n cael eu gosod ar sefydliad, yn hytrach na'u cytuno.
- 1.2. Oherwydd amserlen y Pwyllgor iaith, bu rhaid cynhyrchu'r Adroddiad cyn derbyn copi o ohebiaeth y Comisiynydd, ond atodir copi i sylw'r Aelodau.
- 1.3. Atodir yn ogystal Safonau Arfaethedig mewn Perthynas a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yr un pryd a daeth gohebiaeth y Comisiynydd i law. Selir yr Ymchwiliad Safonau ar y draft yma.

2. Camau Nesaf ac Amserlen

- 2.1. O Ionawr 27, 2014, bydd disgwyl i holl Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol Cymru ymgymryd ag Ymchwiliad Safonau. Pwrpas yr Ymchwiliad fydd dyfarnu a dylai sefydliad gydymffurfio a Safonau, ac os felly, pa rai fyddo'n benodol gymwys iddynt. Bydd yr Ymchwiliad yn cymryd ffurf Holiadur, i amlinellu'r sefyllfa parthed ein gweithredu ym maes yr iaith Gymraeg a bydd y broses yn cymryd 12 wythnos.
- 2.2. Fel yr amlinellir uchod, targedir Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol yn lle cyntaf, gyda sefydliadau eraill yn mynd drwy'r broses maes o law. Mae'r Comisiynydd yn rhagweld y bydd pob corff perthnasol yn gweithredu'r Safonau ymhen dwy flynedd a hanner.
- 2.3. Yn dilyn yr Ymchwiliad i waith yr Awdurdodau Lleol a'r Parciau, bydd y Comisiynydd yn rhannu a thrafod Adroddiad Ymchwiliad gyda Gweinidogion Cymru, cyn i Reoliadau Drafft gael eu gosod at ddiwedd 2014. O dderbyn y Safonau, bydd gan bob corff 6 mis i gydymffurfio.

3. Gofynnir I'r Pwyllgor

3.1 Nodi cynnwys yr Adroddiad a'r Atodiadau.



Harry Thomas
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
LL55 1SH

06/01/2014

Annwyl Brif Weithredwr

**RHAN 4, PENNOD 8 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011
YMCHWILIADAU AC ADRODDIADAU SAFONAU**

HYSBYSIAD RHAGYMCHWILIO

(1) Cyflwyno hysbysiad rhagymchwilio

Yn unol ag adran 62 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynir yr hysbysiad rhagymchwilio yma, dyddiedig 6 Ionawr 2014 at sylw Cyngor Gwynedd.

(2) Ystyr a phwrpas hysbysiad rhagymchwilio

Hysbysiad ysgrifenedig sy'n datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, a sy'n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau, yw hysbysiad rhagymchwilio.

Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddi roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

(3) Person(au) perthnasol

Mae Adran 61(2) y Mesur yn caniatáu cynnal ymchwiliad safonau mewn perthynas â pherson penodol neu â grŵp o bersonau.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Bydd yr ymchwiliad safonau yma mewn perthynas â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru.

(4) Pwnc yr ymchwiliad safonau:

Mae safon a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) yn gymwysadwy i Gyngor Gwynedd os yw'n perthyn i ddsbarth o safonau a bennir yng ngholofn (2) o gofnod Cyngor Gwynedd yn Atodlen 6.

At y diben hwnnw, mae pob un o'r canlynol yn ddsbarth o safonau –

- safonau cyflenwi gwasanaethau
- safonau llunio polisi
- safonau gweithredu
- safonau hybu
- safonau cadw cofnodion


Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn yw dyfarnu ar ba safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i Gyngor Gwynedd (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio.

(5) Dyddiad cychwyn ymchwiliad safonau:

Cychwynnir yr ymchwiliad safonau ar **27 Ionawr 2014** a bydd dogfennaeth bellach yn cael ei ddarparu ar y dyddiad hwnnw. Bydd y ddogfennaeth yn egluro trefn yr ymchwiliad a'r dystiolaeth y dymunwn ei dderbyn fel rhan o'r ymchwiliad.

Nid yw methiant person i gymryd rhan yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn atal y Comisiynydd rhag cynnal yr ymchwiliad safonau.

Yr eiddoch yn gywir,


Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

cc. Dyfed Edwards – Arweinydd Gweithredol Cyngor Gwynedd



Harry Thomas
Chief Executive
Gwynedd Council
Council Offices
Shirehall Street
Caernarfon
LL55 1SH

06/01/2014

Dear Chief Executive

**PART 4, CHAPTER 8 WELSH LANGUAGE MEASURE (WALES)
STANDARDS INVESTIGATIONS AND REPORTS**

EXPLORATION NOTICE

(1) Attention:

In accordance with section 62 Welsh Language Measure (Wales) 2011, the Welsh Language Commissioner presents an exploration notice to Gwynedd Council dated 6 January 2014.

(2) Meaning and purpose of exploration notice:

An exploration notice is a notice in writing which states the Commissioner's intention to carry out a standards investigation, and specifies the subject matter of the standards investigation.

The Commissioner may not carry out a standards investigation unless she has presented an exploration notice to each relevant person, at least 14 days before commencing the investigation.

(3) Relevant person(s):

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Section 61(2) of the Measure allows a standards investigation to be carried out in relation to a particular person, or a group of persons.

This standards investigation will be carried out in relation to county borough councils and county councils in Wales.

(4) Subject matter of the standards investigation:

A standard specified by the Welsh Ministers under section 26(1) is potentially applicable to Gwynedd Council if it belongs to a class of standard that is specified in column (2) of Gwynedd Council's entry in the Schedule 6 table.

For that purpose, each of the following is a class of standard—

- service delivery standards
- policy making standards
- operational standards
- promotion standards
- record keeping standards

The subject matter of the standards investigation will be to determine which standards (if any) should be specifically applicable to Gwynedd Council (whether or not the standards are already specified by the Welsh Ministers under section 26(1)).

(5) Standards Investigation start date:

The Standards Investigation will commence on **27 January 2014** and further documentation will be provided on this date. The documentation will explain the investigation procedure and the evidence which will be requested as part of the investigation.

The failure of a person to participate in the Commissioner's consultation does not prevent the Commissioner from carrying out a standards investigation.

Yours sincerely,

Meri Huws
Welsh Language Commissioner

cc. Dyfed Edwards – Executive Leader of Gwynedd Council

Rhif: WG18848



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg

Dyddiad cyhoeddi: 6 Ionawr 2014

Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg

- Cynulleidfa** Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Mae'r ddogfen hefyd o ddiddordeb i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sefydliadau yma.
- Trosolwg** Mae'r safonau arfaethedig wedi cael eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.
- Camau i'w cymryd** Bydd y ddogfen hon yn sail ar gyfer ymchwiliad safonau Comisiynydd y Gymraeg, ac ymarferiad Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth er mwyn llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Uned y Gymraeg
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 0604400
e-bost: unediaithgymraegwelshlanguageunit@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ygymraeg

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Safonau cyflenwi gwasanaethau	4
Safonau llunio polisi	19
Safonau gweithredu	21
Safonau hybu	25
Safonau cadw cofnodion	26

Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Bydd y set gyntaf o safonau, sy'n cael eu cynnig yn y ddogfen hon, yn canolbwyntio ar gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd safonau yn graddol gymryd lle'r system bresennol o gynlluniau iaith, y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, bennu pum math penodol o safonau.

- Bydd **safon cyflenwi gwasanaethau** yn fath o ddyletswydd a osodir er mwyn hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg neu er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn yr amgylchiadau canlynol: pan fydd personau sy'n ddarostyngedig i'r safon yn cyflenwi gwasanaethau i eraill, neu pan fyddant yn delio ag eraill mewn cysylltiad â chyflenwi'r gwasanaethau hynny.
- Bydd **safon llunio polisi** yn fath o ddyletswydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Bydd **safon gweithredu** yn fath o ddyletswydd a osodir er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg mewn perthynas â pherson wrth iddo arfer ei swyddogaethau, neu wrth iddo gynnal busnes neu ymgymriad arall.
- Bydd **safon hybu** yn fath o ddyletswydd a osodir mewn perthynas â chymryd camau i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.
- Bydd **safon cadw cofnodion** yn fath o ddyletswydd a osodir er mwyn cadw a chynnal manylion ynghylch cydymffurfio â'r pedair safon arall, yn ogystal ag unrhyw gwynion eraill yn ymwneud â'r iaith.

Wrth baratoi'r safonau, cadwyd mewn cof yr egwyddorion a lywiodd y broses o ddatblygu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ymhlith y rhain roedd:

- sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â gwasanaethau Cymraeg. I'r perwyl hwnnw rydym wedi datblygu safonau sy'n rhai clir a manwl
- sicrhau bod y safonau mor glir â phosibl o ran yr hyn y mae angen i sefydliadau ei wneud yn ymarferol i gydymffurfio â nhw, fel bod personau mor sicr â phosibl ynghylch beth i'w ddisgwyl o ran gwasanaethau Cymraeg
- sicrhau gwell cysondeb rhwng sefydliadau, yn enwedig rhwng sefydliadau yn yr un sector, o ran darparu gwasanaethau Cymraeg
- sicrhau bod unrhyw ddyletswyddau a osodir ar sefydliadau yn unol â safonau'r Gymraeg yn rhai rhesymol a chymesur
- sicrhau bod y safonau'n cael eu gorfodi'n effeithiol.

Mae'r safonau wedi'u drafftio gan gadw mewn cof yr egwyddorion o fod yn rhesymol ac yn gymesur. Yn achos rhai gwasanaethau, rydym wedi datblygu detholiad o safonau sy'n gofyn am wahanol lefelau o ddarpariaeth.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymchwiliad safonau mewn perthynas â chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi hysbysiad rhagymchwilio i'r sefydliadau perthnasol o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn dechrau ar yr ymchwiliad. Bydd yr hysbysiad hwn yn datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, ynghyd â phennu pwnc yr ymchwiliad safonau.

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Cyflwyniad

1. Yn unol ag Adran 28 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ystyr 'safon cyflenwi gwasanaethau' yw safon:
 - sy'n ymwneud â gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau, ac
 - y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, pan gyflawnir y gweithgaredd hwnnw.
2. Yn ôl Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ystyr 'gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau' yw bod person yn:
 - cyflenwi gwasanaethau i berson arall, neu
 - delio ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau:
 - i'r person arall hwnnw, neu
 - i drydydd person.
3. Bwriad safonau cyflenwi gwasanaethau yw hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
4. Pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud safon cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson, rhaid iddynt ddarparu bod yr holl safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a gyflawnir gan y person (ac i'r graddau y mae'n eu cyflawni) yn benodol gymwys i'r person hwnnw. Dyma'r gweithgareddau a restrir yn Atodlen 9:
 - gohebiaeth
 - galwadau ffôn
 - llinellau cymorth a chanolfannau galwadau
 - cyfarfodydd personol
 - cyfarfodydd cyhoeddus
 - cyhoeddusrwydd a hysbysebu
 - arddangosfeydd cyhoeddus
 - cyhoeddiadau
 - ffurflenni
 - gwefannau a gwasanaethau ar-lein
 - arwyddion
 - derbyn ymwelwyr
 - hysbysiadau swyddogol
 - dyfarnu grantiau
 - dyfarnu contractau
 - codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.
5. Rydym wedi cymryd, wrth baratoi'r ddogfen hon, fod yr holl weithgareddau a restrir yn Atodlen 9 yn rhai y bydd awdurdodau lleol Cymru, parciau cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru yn eu cyflawni. Rydym, felly, wedi cyflwyno

safonau arfaethedig ar gyfer pob un o'r gweithgareddau hyn. Rydym hefyd wedi cynnwys safonau ar gyfer gwasanaethau yn ychwanegol i'r rhai a restrir yn Atodlen 9, sef:

- digwyddiadau cyhoeddus
- hunaniaeth gorfforaethol a brandio
- cyrsiau
- systemau sain cyhoeddus
- cronfa ddata.

6. Dim ond mewn perthynas â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau sefydliad y bydd y safonau cyflenwi gwasanaethau a gynigir yn y ddogfen hon yn gymwys. At bwrpas safonau arfaethedig yn y ddogfen ymchwiliad safonau hon, defnyddir y gair 'sefydliad' i olygu'r 'person' sy'n darparu gwasanaethau. Gelwir y rheini sy'n derbyn gwasanaethau yn 'berson' neu'n 'bersonau'.

Safonau arfaethedig ar gyfer gohebiaeth

Sylwadau: At ddibenion y safonau hyn, mae 'gohebiaeth' yn cynnwys gohebu drwy lythyr, drwy neges destun, drwy e-bost, neu drwy destun gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Pan fo deunyddiau a grëwyd gan y sefydliad y mae'r safonau hyn yn gymwys iddo yn cael eu hamgáu gyda'r ohebiaeth, dylid eu hanfon yn unol ag unrhyw safonau sy'n ymwneud â 'chyhoeddiadau' sy'n gymwys i'r sefydliad dan sylw. Ni fydd y safonau ar gyfer 'gohebiaeth', nac unrhyw safonau sy'n gymwys i'r sefydliad ar gyfer 'cyhoeddiadau', yn berthnasol i ddeunyddiau o'r fath nad ydynt wedi cael eu creu gan y sefydliad.

a) Ateb gohebiaeth

Safon arfaethedig:

[1] Rhaid i sefydliad sy'n derbyn unrhyw ohebiaeth Gymraeg ei hateb yn Gymraeg, os oes angen ateb, oni bai fod y person wedi dweud ei bod yn well ganddo beidio â derbyn ateb yn Gymraeg.

b) Cychwyn gohebu

(i) Gohebu ag un person:

Y senario gyntaf: i ymdrin ag amgylchiadau pan fu'n ofynnol i'r sefydliad gydymffurfio â safonau [84] ac [85] [safon sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad gadw cofnod o bersonau sydd wedi nodi eu bod yn dymuno cael gwasanaethau yn Gymraeg] a bod y cofnodion a gedwir i gydymffurfio â'r safon honno yn dangos bod y person yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg neu sy'n cynnwys fersiwn Gymraeg.

Safonau arfaethedig:

[2] Rhaid i'r ohebiaeth gael ei hanfon yn Gymraeg pan fo person wedi nodi ei fod yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg.

[3] Rhaid i'r ohebiaeth gael ei hanfon ar ffurf sy'n cynnwys fersiwn Gymraeg pan fo person wedi dweud ei fod yn dymuno cael gohebiaeth sy'n cynnwys fersiwn Gymraeg.

Yr ail senario: i ymdrin ag amgylchiadau pan na fu'n ofynnol i'r sefydliad gydymffurfio â safonau [84] ac [85] [safon sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad gadw cofnod o bersonau sydd wedi nodi eu bod yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg] ac felly efallai na fydd y sefydliad yn gwybod a yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg neu sy'n cynnwys fersiwn Gymraeg ai peidio.

Safon arfaethedig:

[4] Pan nad yw'r person wedi nodi ei fod yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg, rhaid i'r sefydliad sicrhau fod gohebiaeth, pan fo'n cael ei hanfon yn Saesneg, yn cael ei hanfon yn Gymraeg ar yr un pryd.

(ii) Gohebu â sawl person (e.e. anfon cylchlythyr):

Safon arfaethedig:

[5] Pan fo gohebiaeth yn cael ei hanfon yn Saesneg, rhaid iddo gael ei hanfon yn Gymraeg ar yr un pryd.

c) Safonau cyffredinol sy'n ymwneud â gohebiaeth

Safonau arfaethedig:

[6] Rhaid llofnodi'r fersiwn Gymraeg o lythyr.

[7] Pan fo neges e-bost yn cael ei hanfon, a'i bod yn cynnwys llofnod electronig, rhaid i'r llofnod hwnnw fod yn Gymraeg.

[8] Rhaid i'r sefydliad ddatgan ei fod yn croesawu gohebiaeth Gymraeg ac y bydd yn gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid iddo ddatgan na fydd ysgrifennu ato yn Gymraeg, ohono'i hun, yn arwain at oedi wrth ddelio â'r ohebiaeth. Rhaid i'r geiriad hwn fod ar:

- hafan y wefan
- gohebiaeth a ffurflenni
- arwyddion mewn derbynfeydd
- hysbysiadau swyddogol a chyhoeddiadau sy'n gwahodd personau i ymateb.

Safonau arfaethedig ar gyfer galwadau ffôn

Sylwadau: Mae'r safonau canlynol yn ymwneud â galwadau i switsfwrdd neu dderbynfa sefydliad, a/neu alwadau uniongyrchol i gyflogeion neu weithwyr eraill nad ydynt yn gweithio ar switsfwrdd neu dderbynfa.

a) Galwadau i brif switsfwrdd sefydliad

Safonau arfaethedig:

[9] Rhaid i'r switsfwrdd ddelio yn Gymraeg â galwadau pan fo'r gwasanaeth ar agor.

[10] Rhaid i'r sefydliad ddarparu switsfwrdd a fydd yn delio yn Gymraeg â galwadau.

[11] Rhaid i bob gwasanaeth ateb ei gwneud yn bosibl i bersonau adael neges yn Gymraeg.

b) Galwadau uniongyrchol i aelodau o'r staff

Safonau arfaethedig:

[12] Rhaid i'r sefydliad lunio a gweithredu cynllun sy'n amlinellu sut y bydd cyflogeion a gweithwyr yn delio yn Gymraeg â galwadau.

[13] Rhaid i'r sefydliad ddarparu gwasanaeth switsfwrdd a fydd yn delio yn Gymraeg â galwadau.

c) Cyfeirio galwadau at aelodau o'r staff

Safonau arfaethedig:

[14] Rhaid i sefydliadau lunio a gweithredu cynllun sy'n amlinellu sut y bydd y switsfwrdd a chyflogeion a gweithwyr eraill yn cyfeirio galwyr sy'n dymuno derbyn gwasanaeth Cymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[15] Rhaid i'r sefydliad ddarparu switsfwrdd a fydd yn delio yn Gymraeg â galwadau.

ch) Safonau cyffredinol sy'n ymwneud â galwadau

Safonau arfaethedig:

[16] Rhaid i'r sefydliad ddatgan bod personau yn gallu defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r sefydliad ar y ffôn. Rhaid i'r geiriad hwn fod ar:

- hafan y wefan
- gohebiaeth a ffurflenni
- arwyddion mewn derbynfeydd
- hysbysiadau swyddogol a chyhoeddiadau sy'n gwahodd personau i gysylltu â'r sefydliad ar y ffôn.

d) Galwadau gan y sefydliad

Safon arfaethedig:

[17] Rhaid cynnal galwadau ffôn i berson yn Gymraeg pan fo dewis iaith y person hwnnw wedi ei gofnodi i ddangos ei fod yn dymuno defnyddio gwasanaethau yn Gymraeg.

dd) Ateb galwadau ffôn yn awtomatig

Sylwadau: Mae'r safon hon yn ymwneud â systemau awtomatig a sefydlir gan y sefydliad i ateb galwadau ffôn drwy arwain y person drwy drefn benodedig gyda neges wedi'i recordio yn gofyn, er enghraifft, i'r person bwyso gwahanol rifau ar y ffôn er mwyn dewis gwahanol opsiynau.

Safon arfaethedig:

[18] Rhaid i system awtomatig y sefydliad i ateb y ffôn ddarparu'r gwasanaeth cyflawn yn Gymraeg.

Safonau arfaethedig ar gyfer llinellau cymorth a chanolfannau galwadau

a) Oriau agor

Safonau arfaethedig:

[19] Rhaid delio yn Gymraeg â galwadau i linellau cymorth a chanolfannau galwadau pan fo'r gwasanaeth ar agor.

[20] Rhaid i'r sefydliad lunio a gweithredu cynllun sy'n amlinellu sut y bydd llinellau cymorth a chanolfannau galwadau yn darparu gwasanaeth Cymraeg.

[21] Rhaid i linellau cymorth a chanolfannau galwadau sicrhau mai'r neges gyntaf y bydd personau yn ei chlywed pan fyddant yn cysylltu â'r llinell gymorth neu'r ganolfan alwadau yw neges Gymraeg yn esbonio beth yw oriau'r gwasanaeth Cymraeg.

b) Safonau cyffredinol ar gyfer llinellau cymorth a chanolfannau galwadau

Safonau arfaethedig:

[22] Rhaid cynnwys cyfeiriadau at linellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau Cymraeg pan fo'r sefydliad yn hysbysebu ei linellau cymorth neu ei wasanaethau canolfannau galwadau.

[23] Rhaid i'r gwasanaeth Cymraeg fod â'r un rhif ffôn â'r gwasanaeth Saesneg.

[24] Rhaid i'r gwasanaeth Cymraeg fod â'r un dangosyddion perfformiad â'r gwasanaeth Saesneg cyfatebol.

c) Ateb galwadau ffôn yn awtomatig

Sylwadau: Mae'r safon hon yn trafod systemau awtomatig a sefydlir i ateb galwadau ffôn drwy arwain personau drwy drefn benodedig gyda neges wedi'i recordio yn gofyn, er enghraifft, i'r person bwyso gwahanol rifau ar y ffôn er mwyn dewis gwahanol opsiynau.

Safon arfaethedig:

[25] Rhaid i system awtomatig y sefydliad i ateb y ffôn ddarparu'r gwasanaeth cyflawn yn Gymraeg.

Safonau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd personol

At ddibenion y safonau hyn, diffinnir 'cyfarfodydd personol' fel rhai sy'n digwydd rhwng y sefydliad a pherson.

a) Safonau sy'n berthnasol i gyfarfodydd

Safonau arfaethedig:

[26] Rhaid i'r sefydliad ei gwneud yn glir ei fod yn croesawu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyfarfod. Rhaid i'r geiriad hwn fod ar:

- hafan y wefan
- gohebiaeth a ffurflenni
- arwyddion mewn derbynfydd
- gwahoddiadau a chyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd.

[27] Pan fo person wedi nodi ei fod yn dymuno cael cyfarfod personol yn Gymraeg, rhaid i'r sefydliad gynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg.

[28] Pan fo person wedi nodi ei fod yn dymuno cael cyfarfod personol yn Gymraeg, rhaid i'r sefydliad drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg.

[29] Pan fo person wedi nodi ei fod yn dymuno cael cyfarfod personol yn Gymraeg, rhaid i'r sefydliad drefnu gwasanaeth cyfieithu olynol o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Safonau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus

a) Cyfarfodydd y caiff personau penodol eu gwahodd iddynt

Sylwadau: At ddibenion y safonau hyn, cyfarfodydd yw'r rhain y caiff personau eu gwahodd iddynt a gofynnir i'r personau hynny nodi a fyddant yn dod ai peidio.

Safonau arfaethedig:

[30] Rhaid i wahoddiadau i gyfarfodydd cyhoeddus, lle caiff personau gyfle i gyfrannu i'r cyfarfod, ofyn a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg.

[31] Rhaid gofyn i bersonau a fydd yn cyfrannu i'r cyfarfod a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg.

[32] Rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd lle bydd y personau sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn bresennol.

[33] Rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd os bydd unrhyw un neu ragor o'r amodau canlynol yn berthnasol:

- mae mwy na phum person wedi nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg
- mae mwy na phump y cant o'r personau sy'n bwriadu bod yn bresennol wedi nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg
- bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan unrhyw berson a fydd yn rhoi cyflwyniad neu'n traddodi araith yn y cyfarfod, neu'n cadeirio neu'n llywyddu'r cyfarfod.

b) Cyfarfodydd sy'n agored i bersonau

Sylwadau: At ddibenion y safonau hyn, cyfarfodydd yw'r rhain y rhoddwyd cyhoedduswydd lleol iddynt. Nid yw'n ofynnol i bersonau roi gwybod i'r trefnwyr ymlaen llaw eu bod yn bwriadu bod yn bresennol.

Safonau arfaethedig:

[34] Rhaid i bob cyhoedduswydd a gyhoeddir gan y sefydliad am y cyfarfod ei gwneud yn glir y croesewir ac yr hwylusir y defnydd o'r Gymraeg.

[35] Rhaid gofyn i unrhyw berson y gofynnir ymlaen llaw iddo gyfrannu i'r cyfarfod, nodi a yw'n dymuno annerch y cyfarfod yn Gymraeg.

[36] Rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod.

c) Materion cyffredinol sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd cyhoeddus

Safonau arfaethedig:

[37] Rhaid i unrhyw wahoddiadau i gyfarfodydd cyhoeddus gael eu hanfon yn Gymraeg.

[38] Rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos gan y sefydliad yn y cyfarfod gael ei arddangos yn Gymraeg.

Safonau arfaethedig ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus

Sylwadau: Mae'r safonau hyn yn berthnasol i ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu a'u hariannu'n gyfan gwbl gan y sefydliad y mae'r safonau hyn yn gymwys iddo. Nid yw'r

safonau yn berthnasol i ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan barti arall neu sy'n cael eu noddi'n rhannol gan y sefydliad.

Safonau arfaethedig:

[39] Rhaid i'r sefydliad beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â chyhoedduswydd, arwyddion na chyhoeddiadau sain mewn digwyddiadau cyhoeddus a fydd yn cael eu trefnu gan y sefydliad dan sylw.

[40] Rhaid i'r sefydliad sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fydd yn darparu gwasanaeth a chymorth i bersonau yn y digwyddiad hwnnw.

Safon arfaethedig ar gyfer cyhoedduswydd a hysbysebu

Sylwadau: At ddibenion y safon hon, dyma ddiffiniad o'r gweithgareddau.

- Ystyr 'cyhoedduswydd' yw gweithgareddau (ar wahân i weithgareddau yr ymdrinnir â hwy yn y safonau ar gyfer cyhoeddiadau) a gynhelir i rannu gwybodaeth er mwyn ennyn diddordeb a/neu ddarparu gwybodaeth drwy'r cyfryngau darlledu, y cyfryngau print a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Ystyr 'hysbysebu' yw gweithgareddau a gynhelir i dynnu sylw at, er enghraifft, gynnyrch, gwasanaeth neu ymgyrch, a hynny fel arfer drwy hysbysebion neu gyhoeddiadau y talwyd amdanynt mewn papurau newydd neu gylchgronau, ar y radio neu'r teledu, ac ar hysbysfyrddau neu gyfryngau hysbysebu eraill.

Safon arfaethedig:

[41] Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoedduswydd neu hysbysebu fod yn Gymraeg. Rhaid peidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Safon arfaethedig ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus

Sylwadau: At ddibenion y safon hon, ystyr 'arddangosfa gyhoeddus' yw cyflwyniad a/neu arddangosfa wedi'u trefnu, gyda'r bwriad o hysbysu personau am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith y sefydliad.

Safon arfaethedig:

[42] Rhaid i unrhyw ddeunydd arddangos gael ei ddangos yn Gymraeg. Rhaid i'r fersiwn Gymraeg beidio â bod yn llai amlwg na hygyrch na'r fersiwn Saesneg, a rhaid peidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Safonau arfaethedig ar gyfer cyhoeddiadau

Sylwadau: At ddibenion y safonau hyn, ystyr 'cyhoeddiadau' yw dogfennau y mae'r sefydliad yn eu cynhyrchu ac yn eu rhoi ar gael i eraill. Maent yn cynnwys dogfennau ymgynghori, dogfennau canllaw, llyfrynnau, taflenni a phosteri. Gallant fod wedi'u cyhoeddi fel dogfennau copi caled neu fel dogfennau electronig. Nid ydynt yn cynnwys gohebiaeth, ffurflenni, arwyddion na deunyddiau yr ymdrinnir â hwy yn y safonau ar gyfer cyhoedduswydd a hysbysebu.

Nid yw'r safonau hyn yn berthnasol i hysbysiadau a thrwyddedau pan fo ffurf ragnodedig o'r hysbysiad Cymraeg a Saesneg. Byddai hyn yn mynd y tu hwnt i'r pwerau sydd gan Weinidogion Cymru trwy rinwedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac a nodir gan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Safonau arfaethedig:

[43] Rhaid i bob cyhoeddiad sydd yn perthyn i'r categorïau isod gael eu cynhyrchu yn Gymraeg gan y sefydliad:

- papurau cabinet
- agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i bersonau
- trwyddedau
- tystysgrifau
- biliau (e.e. y dreth gyngor)
- taflenni gwybodaeth
- taflenni
- pamffledi
- dogfennau i'w dosbarthu i ysgolion neu mewn ysgolion
- polisïau
- strategaethau
- cynlluniau
- datganiadau i'r wasg.

[44] Os nad yw'r cyhoeddiad yn y rhestr uchod, rhaid i'r sefydliad ddilyn y meini prawf canlynol wrth asesu'r angen am fersiwn Gymraeg o'r cyhoeddiad.

- A yw'r pwnc yn golygu bod cyhoeddiad Cymraeg yn angenrheidiol?
- A yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn golygu bod cyhoeddiad Cymraeg yn angenrheidiol?

[45] Rhaid peidio â thrin y cyhoeddiad Cymraeg yn llai ffafriol na'r un Saesneg, o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder ac amlygrwydd.

Safonau arfaethedig ar gyfer ffurflenni

Sylwadau: At ddibenion y safonau hyn, ystyr 'ffurflen' yw dogfen (boed ar ffurf copi caled neu electronig) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau gyflwyno gwybodaeth mewn perthynas â defnyddio gwasanaethau. Defnyddir ffurflenni i wneud y canlynol yn bennaf:

- gwneud taliad
- cyflwyno cais neu archeb
- rhoi gwybodaeth i'r sefydliad
- cwyno neu ddatgan barn i'r sefydliad
- cofrestru i dderbyn gwasanaeth.

Mae ffurflen yn cynnwys unrhyw ddeunydd esboniadol a argraffwyd ar y ffurflen i helpu personau sy'n llenwi'r ffurflen i ddeall sut i wneud hynny. Fodd bynnag, rhaid dilyn y safonau ar gyfer cyhoeddiadau wrth ymdrin ag unrhyw ddeunydd esboniadol a gyhoeddir ar wahân ac sy'n cyd-fynd â'r ffurflen.

Nid yw'r safonau hyn yn berthnasol i ffurflenni pan fo ffurf ragnodedig o'r ffurflen Gymraeg a Saesneg. Byddai hyn yn mynd y tu hwnt i'r pwerau sydd gan Weinidogion Cymru trwy rinwedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac a nodir gan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Oherwydd yr ymdrinnir â hwy o dan safonau eraill, nid yw'r safonau hyn yn berthnasol i'r canlynol:

- ffurflenni ar gyfer recriwtio (yr ymdrinnir â hwy o dan y safonau gweithredol)
- ffurflenni a ddefnyddir gan bersonau sy'n gwneud cais am gontract (yr ymdrinnir â hwy o dan safonau [70] a [71])
- ffurflenni a ddefnyddir gan bersonau i wneud cais am gymorth grant (yr ymdrinnir â hwy o dan safonau [66] a [67]).

Safonau arfaethedig:

[46] Rhaid i unrhyw ffurflen a gyhoeddir fod ar gael yn Gymraeg os ydynt yn berthnasol i'r categorïau canlynol:

- gwneud taliad
- cyflwyno cais neu archeb
- rhoi gwybodaeth i'r sefydliad
- cwyno neu ddatgan barn i'r sefydliad
- cofrestru i dderbyn gwasanaeth.

[47] Os nad yw'r cyhoeddiad yn y rhestr uchod, rhaid i'r sefydliad ddilyn y meini prawf canlynol wrth asesu'r angen am fersiwn Gymraeg o'r cyhoeddiad.

- A yw'r pwnc yn golygu bod cyhoeddiad Cymraeg yn angenrheidiol?
- A yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn golygu bod cyhoeddiad Cymraeg yn angenrheidiol?

[48] Rhaid peidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran amseriad ei chyhoeddi, y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen, unrhyw amser a ganiateir ar gyfer ymateb, ffont, fformat, lliw, maint ac eglurder.

[49] Pan fo'r sefydliad yn rhoi gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen cyn ei hanfon at berson drwy'r post neu'r e-bost, rhaid rhoi'r wybodaeth honno yn Gymraeg.

Safonau arfaethedig ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein

Sylwadau: Nid yw'r safonau hyn yn berthnasol i ddeunydd sy'n cael ei ddarparu, ei bostio neu ei gyflwyno gan unrhyw drydydd parti i wefan neu wasanaeth ar-lein sefydliad.

At ddibenion y safonau hyn, ystyr 'gwefan' yw cyfres o dudalennau gwe rhyng-gysylltiedig sydd wedi'u paratoi ac sy'n cael eu cynnal gan sefydliad fel casgliad o wybodaeth i'w defnyddio gan bersonau. Mae 'gwefan' yn cynnwys 'tudalennau rhyngweithiol' fel y'u diffinnir isod.

Nid yw 'gwefan' yn cynnwys y dogfennau neu'r deunydd arall a gyhoeddir ar y wefan (gan gynnwys clipiau fideo a sain). Rhaid i benderfyniadau am yr iaith y dylid cyhoeddi dogfennau a deunydd arall ynddi gael eu gwneud yn unol â'r safonau ar gyfer cyhoeddiadau, ffurflenni, a deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu.

Ystyr 'tudalen ryngweithiol' yw cyfleuster sy'n caniatáu i bersonau gyflwyno gwybodaeth yn electronig i'r sefydliad dan sylw.

Nid yw 'gwefan' yn cynnwys gwybodaeth a gyflwynir gan bersonau drwy gyfrwng 'tudalen ryngweithiol' a gyhoeddir ar y wefan, fel adran ar gyfer sylwadau neu fforwm drafod.

a) Gwefannau

Safonau arfaethedig:

[50] Rhaid i bob tudalen we fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder ac amlygrwydd.

[51] Rhaid i bob tudalen we newydd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder ac amlygrwydd.

b) Safon sy'n ymwneud ag apiau

Sylwadau: At ddibenion y safon hon, ystyr 'ap' yw cymhwysiad meddalwedd sydd wedi'i gynllunio i gyflawni tasg benodol. Fe'i cynlluniwyd i redeg ar ddyfeisiadau electronig.

Safon arfaethedig:

[52] Rhaid i bob ap a gyhoeddir gan y sefydliad weithredu'n llawn yn Gymraeg.

Safonau arfaethedig ar gyfer arwyddion

Sylwadau: Mae'r safonau hyn yn berthnasol i arwyddion electronig yn ogystal ag arwyddion eraill.

Safonau arfaethedig:

[53] Rhaid i bob arwydd newydd, arwydd sy'n cael ei adnewyddu ac arwydd dros dro gynnwys, yn Gymraeg, yr wybodaeth y mae angen i'r arwydd ei chyfleu.

[54] Rhaid peidio â thrin testun Cymraeg ar arwyddion yn llai ffafriol na'r testun Saesneg o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder ac amlygrwydd.

[55] Pan godir arwydd Cymraeg mewn amgylchiadau pan fo arwydd Saesneg yn cyfleu'r un wybodaeth, rhaid i'r arwydd Cymraeg fod yr un maint â'r arwydd Saesneg, a rhaid cyflwyno'r wybodaeth Gymraeg yn yr un ffont a maint ffont â'r arwydd Saesneg.

[56] Pan fo arwydd yn cynnwys y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, rhaid gosod y testun Cymraeg fel mai hwnnw sy'n cael ei ddarllen gyntaf.

[57] Rhaid i'r sefydliad gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw testun Cymraeg ar arwyddion yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg o ran cywirdeb yr wybodaeth, cywirdeb ieithyddol a chysondeb terminolegol.

Safonau arfaethedig ar gyfer derbyn ymwelwyr

Sylwadau: At ddibenion y safonau hyn, ystyr 'derbynfa' yw man yn y sefydliad lle mae personau yn cael eu derbyn.

Safonau arfaethedig:

[58] Rhaid i dderbynfa'r sefydliad allu cynnig gwasanaeth Cymraeg bob amser.

[59] Rhaid i'r sefydliad ganfod beth yw dewis iaith personau wrth drefnu ymweliad neu apwyntiad sy'n golygu dod i dderbynfa.

[60] Rhaid i dderbynfa'r sefydliad ddelio yn Gymraeg ag unigolyn os yw wedi gwneud trefniant ymlaen llaw i alw ac wedi nodi y byddai'n dymuno gwasanaeth Cymraeg.

[61] Rhaid i dderbynfa'r sefydliad ddarparu llinell ffôn sy'n caniatáu i bersonau gael gwasanaeth Cymraeg.

[62] Rhaid i'r sefydliad ddarparu cyflogai neu weithiwr i fynd i'r dderbynfa pan fo person yn galw ac yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg.

Safonau arfaethedig ar gyfer hysbysiadau swyddogol

Sylwadau: Ystyr 'hysbysiadau swyddogol' yw unrhyw hysbysiadau y mae sefydliad yn eu cyhoeddi fel rhan o'i waith er mwyn rhoi gwybod i bersonau am weithgarwch cyflenwi gwasanaethau neu newidiadau i weithgarwch cyflenwi gwasanaethau.

Nid yw'r safonau hyn yn berthnasol i hysbysiadau swyddogol pan fo ffurf ragnodedig o'r hysbysiad Cymraeg a Saesneg. Byddai hyn yn mynd y tu hwnt i'r pwerau sydd gan Weinidogion Cymru trwy rinwedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac a nodir gan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Safonau arfaethedig:

[63] Rhaid i hysbysiad swyddogol gael ei gyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid iddo beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na'r un Saesneg o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder ac amlygrwydd.

[64] Pan fo hysbysiad swyddogol yn cynnwys y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, rhaid gosod y testun Cymraeg fel mai hwnnw sy'n cael ei ddarllen gyntaf.

[65] Pan fo hysbysiad swyddogol Cymraeg yn cael ei gyhoeddi neu ei arddangos mewn amgylchiadau pan fo hysbysiad swyddogol Saesneg yn cyfleu'r un wybodaeth, rhaid i'r fersiwn Gymraeg beidio â chael ei thrin yn llai ffafriol na'r un Saesneg o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder ac amlygrwydd.

Safonau arfaethedig ar gyfer dyfarnu grantiau

Safonau arfaethedig:

[66] Rhaid i ffurflenni cais a'r deunydd esboniadol cysylltiedig gael eu cyhoeddi yn Gymraeg.

[67] Rhaid i bersonau allu gwneud cais am gymorth grant yn Gymraeg.

[68] Rhaid i geisiadau am grantiau yn Gymraeg beidio â chael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a wneir yn Saesneg o ran y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau, ac o ran derbyn penderfyniad ynglŷn â'r cais grant.

[69] Rhaid i geisiadau am grantiau yn Gymraeg dderbyn penderfyniad ynglŷn â'r cais grant yn Gymraeg.

Safonau arfaethedig ar gyfer dyfarnu contractau

Sylwadau: Dim ond os nad yw'r gyfraith yn rhagnodi pa ieithoedd y gellir eu defnyddio ar gyfer contractau penodol y gellir cymhwyso'r safonau hyn.

Safonau arfaethedig:

[70] Rhaid cyhoeddi gwahoddiadau i dendro yn Gymraeg.

[71] Rhaid i dendrwy'r allu cyflwyno tendrau yn Gymraeg.

[72] Rhaid i dendrwy'r sy'n cyflwyno tendrau yn Gymraeg beidio â chael eu trin yn llai ffafriol na thendrwy'r sy'n cyflwyno ceisiadau yn Saesneg o ran y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, nac o ran derbyn penderfyniad ynglŷn â'r tendr.

[73] Rhaid i dendrwy'r a gyflwynodd dendrau yn Gymraeg dderbyn penderfyniad yn Gymraeg.

Safonau arfaethedig ar gyfer codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael

Safonau arfaethedig:

[74] Rhaid i'r sefydliad ddatgan pa wasanaethau Cymraeg sydd ar gael:

- ar hafan y wefan
- drwy ddolen o hafan y wefan
- ar daflen bwrpasol sydd ar gael yn adeiladau'r sefydliad lle mae mynediad i'r cyhoedd
- ar boster i'w arddangos yn adeiladau'r sefydliad lle mae mynediad i bersonau
- mewn hysbysiad i'w gyhoeddi mewn papurau newydd neu gylchlythyrau a gyhoeddir gan y sefydliad ar gyfer y cyhoedd.

[75] Rhaid i'r safonau y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy gael eu cyhoeddi ar wefan y sefydliad, a rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio yn unrhyw un o swyddfeydd y sefydliad sydd ar agor i bersonau.

[76] Rhaid i sefydliadau ei gwneud yn glir i bersonau:

- mewn derbynfeydd
- mewn gohebiaeth
- ar ffurflenni
- ac wrth gysylltu â defnyddiwr gwasanaethau dros y ffôn

bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

[77] Rhaid i sefydliadau ofyn i bersonau a ydynt yn dymuno:

- cael eu cyfarch mewn derbynfeydd
- derbyn gohebiaeth
- derbyn ffurflenni
- derbyn galwadau ffôn

yn Gymraeg.

Safonau arfaethedig ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol a brandio

Sylwadau: At ddibenion y safon hon, ystyr 'hunaniaeth gorfforaethol' yw'r ffordd y mae sefydliad yn ei gyflwyno ei hun i bersonau drwy ddatganiadau gweledol. Mae'n cael ei chyfleu drwy elfennau megis yr enw a ddefnyddir gan y sefydliad (nid ei enw cyfreithiol efallai), logos, brandio, sloganau a phapur ysgrifennu.

Mae 'brand' yn cynnwys enw, logo, slogan, dyluniad, symbol neu unrhyw elfen arall sy'n golygu bod modd adnabod sefydliad neu weithgaredd, ac sy'n gymorth i wahaniaethu rhyngddo a sefydliadau neu weithgareddau eraill.

Nid yw'r safon hon yn berthnasol i amgylchiadau pan fo'r gyfraith yn gwneud darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio enw cyfreithiol sefydliad.

Safon arfaethedig:

[78] Rhaid i hunaniaeth gorfforaethol sefydliad a/neu ei frand beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safonau arfaethedig ar gyfer cyrsiau

Sylwadau: At ddibenion y safonau hyn, ystyr 'cwrs' yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu ar gyfer personau. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau addysg (e.e. cyrsiau i ddysgu ieithoedd ychwanegol, sgiliau TG), a chysiau hyfforddi ar gyfer plant a phobl ifanc (e.e. gwersi nofio a gweithdai theatr). Nid yw 'cwrs' yn cynnwys gweithgareddau sy'n cael eu darparu fel rhan o gwricwlwm ysgol fel sy'n ofynnol yn ôl statudau perthnasol.

Safonau arfaethedig:

[79] Rhaid cynnig pob cwrs addysg neu hyfforddiant yn Gymraeg.

[80] Rhaid cynnig cyrsiau addysg neu hyfforddiant yn Gymraeg os ydynt wedi'u hanelu'n benodol at bersonau 18 oed neu iau.

[81] Pan fydd sefydliad yn trefnu cwrs addysg neu hyfforddiant, rhaid iddo asesu'r angen i'w ddarparu yn Gymraeg.

Safonau arfaethedig ar gyfer systemau annerch y cyhoedd

Safonau arfaethedig:

[82] Rhaid gwneud unrhyw negeseuon clywadwy yn Gymraeg.

[83] Rhaid gwneud unrhyw negeseuon clywadwy yn Gymraeg gyntaf.

Safonau arfaethedig sy'n ymwneud â chronfa ddata

Safonau arfaethedig:

[84] Rhaid i sefydliadau ganfod dewis iaith personau sy'n dymuno defnyddio gweithgareddau darparu gwasanaethau.

[85] Rhaid i sefydliadau greu a chynnal cronfa ddata o bersonau y gŵyr y sefydliad eu bod am ddefnyddio gweithgareddau darparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Safonau llunio polisi

Cyflwyniad

Mae adran 29 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datgan mai ystyr 'safon llunio polisi' yw safon sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ac y bwriedir iddi sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, un neu ragor o'r canlyniadau canlynol:

- bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl, (a ph'un ai yw'r effeithiau'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael:
 - (a) ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu
 - (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif:
 - (a) ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu
 - (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol:
 - (a) ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu
 - (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae adran 29 hefyd yn datgan bod cyfeiriad at effeithiau positif neu effeithiau andwyol yn gyfeiriad at yr effeithiau hynny, boed hwy'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Ystyr 'penderfyniad polisi' y mae'n rhaid i'r safon ymwneud ag ef yw penderfyniad gan berson ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau, neu ynglŷn a chynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall.

Safon arfaethedig sy'n ymwneud ag ystyried effeithiau penderfyniad polisi ar y Gymraeg

Safonau arfaethedig:

[86] Rhaid i sefydliad sy'n gwneud penderfyniad polisi asesu pa effaith, os o gwbl, boed hynny'n bositif neu'n andwyol, y byddai'r penderfyniad yn ei cael ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[87] Rhaid i sefydliad sy'n gwneud penderfyniad polisi asesu sut gellid sicrhau bod y penderfyniad yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar y cyfleoedd i

bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[88] Rhaid i sefydliad sy'n gwneud penderfyniad polisi asesu sut gellid sicrhau nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu ei fod yn cael effeithiau llai andwyol, ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[89] Rhaid i ddogfennau ymgynghori am benderfyniad polisi drafod, a holi barn am, yr effeithiau y byddai'r polisi sy'n cael ei ystyried yn eu cael ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[90] Rhaid i ddogfennau ymgynghori am benderfyniad polisi drafod, a holi barn ynghylch, sut y gellid gwneud y polisi dan ystyriaeth fel y caiff effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[91] Rhaid i ddogfennau ymgynghori am benderfyniad polisi drafod, a holi barn ynghylch, sut y gellid gwneud y polisi dan ystyriaeth fel na chaiff effeithiau andwyol, neu fod yr effeithiau yn llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[92] Rhaid i sefydliadau asesu pa effeithiau y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[93] Rhaid i sefydliadau asesu sut byddai dyfarnu grant yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[94] Rhaid i sefydliadau asesu sut byddai dyfarnu grant yn cael effeithiau andwyol, neu effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safonau gweithredu

Cyflwyniad

Mae adran 30 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datgan mai ystyr 'safon gweithredu' yw safon:

- (1a) sy'n ymwneud â gweithgareddau perthnasol person (A), a
- (b) y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg:
- (i) gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,
 - (ii) gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu
 - (iii) gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.
- (2a) ystyr 'gweithgareddau perthnasol' yw:
- (i) swyddogaethau, neu
 - (ii) busnes neu ymgymeriad arall
- (b) mae cyfeiriad at gyflawni gweithgareddau perthnasol yn gyfeiriad at:
- (i) arfer swyddogaethau, neu
 - (ii) cynnal busnes neu ymgymeriad arall.

Safonau arfaethedig ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth fewnol

Safonau arfaethedig:

[95] Rhaid darparu'r dogfennau canlynol yn Gymraeg os yw'r cyflogai neu'r gweithiwr yn dymuno, a rhaid i'r sefydliad beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dogfennau yn cynnwys contractau, ffurflenni a gohebiaeth ynghylch yr isod, ond heb gynnwys tystiolaeth ategol i'w hystyried yn ystod gweithdrefnau disgyblu neu gwyno:

- contract cyflogaeth
- contract gweithiwr am wasanaethau
- dogfennau a lunnir gan y sefydliad yn amlinellu swydd-ddisgrifiad a/neu amcanion swydd cyflogai neu weithiwr
- dogfennau yn amlinellu gofynion hyfforddiant cyflogai
- dogfennau yn amlinellu amcanion perfformiad cyflogai ar gyfer cyfnod penodol
- dogfennau yn amlinellu neu'n cofnodi cynllun gyrfa cyflogai
- dogfennau yn ymwneud â pholisïau absenoldebau a ffurflenni cais am absenoldebau
- dogfennau'n ymwneud â chwyn a gyflwynir gan gyflogai, neu mewn perthynas â hi
- dogfennau'n ymwneud ag achos disgyblu a gyflwynir yn erbyn cyflogai neu y mae'r cyflogai yn cyflwyno tystiolaeth mewn perthynas ag ef.

[96] Rhaid i sefydliadau gyhoeddi polisïau mewn perthynas â'r canlynol yn Gymraeg:

- ymddygiad cyflogeion a/neu weithwyr yn y gweithle
- iechyd a lles
- cyflogau a buddion
- rheoli perfformiad
- absenoldeb o'r gwaith
- amodau gwaith
- patrymau gwaith.

[97] Pan fo cyflogai neu weithiwr wedi nodi ei fod am i gyfarfod ynghylch cwyn a wnaed ganddo, neu mewn perthynas ag ef, gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid i'r sefydliad gynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg.

[98] Pan fo cyflogai neu weithiwr wedi nodi ei fod am i gyfarfod ynghylch achos disgyblu a gyflwynwyd yn ei erbyn neu mewn perthynas ag achos disgyblu y mae'n cyflwyno tystiolaeth ynddo, gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid i'r sefydliad gynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg.

[99] Pan fo cyflogai neu weithiwr wedi nodi ei fod am i gyfarfod ynghylch cwyn a wnaed ganddo, neu mewn perthynas ag ef, gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid i'r sefydliad gynnig darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg.

[100] Lle bydd cyflogai neu weithiwr wedi nodi ei fod am i gyfarfod ynghylch achos disgyblu a gyflwynwyd yn ei erbyn neu mewn perthynas ag achos disgyblu y mae'n cyflwyno tystiolaeth ynddo, gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid i'r sefydliad gynnig darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Safonau arfaethedig ar gyfer TGCh a deunyddiau cymorth

Safonau arfaethedig:

[101] Rhaid i'r sefydliad baratoi cynllun yn amlinellu sut y bydd yn darparu adnoddau ar gyfer cyflogeion a gweithwyr i hwyluso a chefnogi defnyddio'r Gymraeg o ran systemau TGCh. Bydd y cynllun yn cynnwys:

- sut y bydd yn darparu adnoddau gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg
- sut y bydd yn darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd lle bo rhyngwyneb yn bodoli eisoes.

[102] Rhaid i'r sefydliad ddarparu ei dudalennau mewnruyd yn Gymraeg.

[103] Rhaid i'r sefydliad ddarparu fersiwn Gymraeg o bob tudalen newydd ar y fewnruyd.

[104] Rhaid i'r sefydliad ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar ei dudalennau mewnruyd yn Gymraeg.

Safonau arfaethedig ar gyfer sgiliau'r Gymraeg – cynllunio a hyfforddi'r gweithlu

Safonau arfaethedig:

[105] Rhaid i'r sefydliad lunio strategaeth yn amlinellu sut bydd y sefydliad yn:

- asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion a'i weithwyr er mwyn cydymffurfio â safonau
- asesu'r angen am sgiliau iaith Gymraeg cyn hysbysebu swydd wag neu swydd newydd
- trefnu ei gyflogeion a'i weithwyr er mwyn cydymffurfio â safonau sy'n berthnasol i'r sefydliad
- galluogi ei gyflogeion a'i weithwyr i gaffael sgiliau iaith Gymraeg er mwyn i'r sefydliad gydymffurfio â safonau
- darparu hyfforddiant drwy'r Gymraeg yn y meysydd canlynol:
 - recriwtio a chyfweld
 - rheoli perfformiad
 - gweithdrefnau cwyno a disgyblu
 - hyfforddiant sefydlu
 - delio wyneb yn wyneb â'r cyhoedd
 - iechyd a diogelwch
- darparu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ar faterion yn ymwneud a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn:
 - cyfarfodydd
 - cyfweiliadau
 - gweithdrefnau cwyno a disgyblu.

[106] Rhaid i'r sefydliad ddarparu cyfleoedd i'w gyflogeion a'i weithwyr gael hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith.

[107] Rhaid i'r sefydliad ddarparu cyfleoedd i'w gyflogeion a'i weithwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith fynychu hyfforddiant ychwanegol i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.

[108] Rhaid i'r sefydliad ddarparu cyrsiau hyfforddiant er mwyn i'w gyflogeion a/neu ei weithwyr feithrin:

- ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- dealltwriaeth o'r gofynion sydd ar y sefydliad i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg
- dealltwriaeth o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

[109] Rhaid i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth ei gyflogeion a/neu ei weithwyr o'r Gymraeg ym mhob cwrs sefydlu i gyflogeion a/neu weithwyr newydd.

[110] Rhaid i'r sefydliad ddarparu geiriad i'w gynnwys yn llofnodion negeseuon e-bost ei gyflogeion a/neu ei weithwyr sy'n siarad Cymraeg, fel y bydd eraill yn gwybod eu bod yn siarad neu'n dysgu Cymraeg.

Safonau arfaethedig ar gyfer recriwtio

Safonau arfaethedig:

[111] Rhaid i'r sefydliad gynnwys yr anghenion sgiliau Cymraeg angenrheidiol wrth hysbysebu swydd wag neu swydd newydd.

[112] Rhaid i'r wybodaeth yn y dogfennau canlynol gael ei darparu yn Gymraeg, a rhaid i'r sefydliad beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:

- ffurflenni cais
- swydd-ddisgrifiadau
- deunydd esboniadol am y broses ymgeisio
- gwybodaeth am y broses recriwtio
- gwybodaeth am gyfweiliadau neu ddulliau asesu eraill.

[113] Rhaid i'r sefydliad sicrhau bod ei ffurflenni cais yn rhoi lle i'r ymgeisydd nodi cael ei fod angen cyfweiliad Cymraeg.

[114] Rhaid i'r sefydliad gynnal cyfweiliad ymgeisydd yn Gymraeg os yw wedi nodi yn ei ffurflen gais ei fod angen cyfweiliad Cymraeg.

[115] Pan fo'r ymgeisydd wedi nodi ei fod angen cyfweiliad Cymraeg, rhaid i'r sefydliad gynnig trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Safonau arfaethedig ar gyfer arwyddion

Safonau arfaethedig:

[116] Rhaid i bob arwydd newydd ac arwydd sy'n cael ei adnewyddu gynnwys, yn Gymraeg, yr wybodaeth y mae angen i'r arwydd ei chyfleu.

[117] Rhaid peidio â thrin testun Cymraeg ar arwyddion yn llai ffafriol na'r testun Saesneg o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder ac amlygrwydd.

[118] Pan godir arwydd Cymraeg mewn amgylchiadau pan fo arwydd Saesneg yn cyfleu'r un wybodaeth, rhaid i'r arwydd Cymraeg fod yr un maint â'r arwydd Saesneg, a rhaid cyflwyno'r wybodaeth Gymraeg yn yr un ffont a maint ffont â'r arwydd Saesneg.

[119] Pan fo arwydd yn cynnwys y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, rhaid gosod y testun Cymraeg fel mai hwnnw sy'n cael ei ddarllen gyntaf.

Safonau arfaethedig ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain

Safon arfaethedig:

[120] Rhaid gwneud unrhyw negeseuon sain yn Gymraeg gyntaf.

Safonau hybu

Mae adran 31 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datgan mai ystyr 'safon hybu' yw safon (yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd) y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.

Safonau arfaethedig:

[121] Rhaid i'r sefydliad asesu proffil demograffig y Gymraeg yn y cymunedau y mae'n ei gwasanaethu.

[122] Rhaid i'r sefydliad asesu'r cyfleoedd cyfredol sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg, ac a ddylid darparu a chefnogi mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

[123] Rhaid i'r sefydliad asesu'r angen i ariannu gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

[124] Rhaid i'r sefydliad lunio, a chyhoeddi ar wefan y sefydliad, strategaeth i ddangos sut y mae'n bwriadu hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.

[125] Rhaid i'r sefydliad adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o fewn pum mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth flaenorol.

Safonau cadw cofnodion

Safonau arfaethedig:

[126] Rhaid i'r sefydliad gadw cofnod o'r camau a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau sydd wedi'u gwneud yn benodol gymwys i'r sefydliad mewn perthynas â:

- gohebiaeth
- galwadau ffôn
- llinellau cymorth a chanolfannau galwadau
- cyfarfodydd personol
- cyfarfodydd cyhoeddus
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu
- arddangosfeydd cyhoeddus
- cyhoeddiadau
- ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein
- arwyddion
- derbyn ymwelwyr
- hysbysiadau swyddogol
- dyfarnu grantiau
- dyfarnu contractau
- codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael
- hunaniaeth gorfforaethol a brandio
- cyrsiau
- systemau annerch y cyhoedd
- cronfa ddata.

[127] Rhaid i'r sefydliad gadw cofnod o:

- sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion a'i weithwyr
- asesiadau o anghenion sgiliau iaith Gymraeg swyddi gwag a swyddi newydd
- camau a gymerir i gynllunio'r gweithlu yn unol â sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion a'i weithwyr er mwyn gallu cydymffurfio â safonau
- hyfforddiant sy'n cael ei gynnig yn Gymraeg, a'r niferoedd sy'n mynychu'r cyrsiau hynny.

[128] Rhaid i'r sefydliad gadw cofnod o'r camau a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau sydd wedi'u gwneud yn benodol gymwys i'r sefydliad mewn perthynas â safonau llunio polisi.

[129] Rhaid i'r sefydliad gadw cofnod o'r camau a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau sydd wedi'u gwneud yn benodol gymwys i'r sefydliad mewn perthynas â safonau gweithredu.

[130] Rhaid i'r sefydliad gadw cofnod o'r camau a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau sydd wedi'u gwneud yn benodol gymwys i'r sefydliad mewn perthynas â safonau hybu.

[131] Rhaid i'r sefydliad gadw cofnod o gwynion ysgrifenedig (ar ffurf electronig neu gopi caled) a ddaw i law am gydymffurfiaeth y sefydliad â safonau cyflenwi gwasanaethau sydd wedi'u gwneud yn benodol gymwys i'r sefydliad.

[132] Rhaid i'r sefydliad gadw cofnod o gwynion ysgrifenedig (ar ffurf electronig neu gopi caled) a ddaw i law am gydymffurfiaeth y sefydliad â safonau llunio polisi sydd wedi'u gwneud yn benodol gymwys i'r sefydliad.

[133] Rhaid i'r sefydliad gadw cofnod o gwynion ysgrifenedig (ar ffurf electronig neu gopi caled) a ddaw i law am gydymffurfiaeth y sefydliad â safonau gweithredu sydd wedi'u gwneud yn benodol gymwys i'r sefydliad.

[134] Rhaid i'r sefydliad gadw cofnod o gwynion ysgrifenedig (ar ffurf electronig neu gopi caled) a ddaw i law am gydymffurfiaeth y sefydliad â safonau hybu sydd wedi'u gwneud yn benodol gymwys i'r sefydliad.

PWYLLGOR	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	15 Ionawr 2014
TEITL YR ADRODDIAD	Strategaeth Iaith Gwynedd 2014 - 2017 Drafft
AWDUR	Debbie Anne Williams Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
PWRPAS YR ADRODDIAD	Mae'r Pwyllgor Iaith yn meddu ar ddyletswydd i gyflawni rôl ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith o fewn y sir. Pwrpas yr adroddiad yw ceisio barn yr aelodau ar ddrafft o Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i'r aelodau: - gyflwyno eu sylwadau ar y canlynol yn y Strategaeth ddrafft: <ul style="list-style-type: none"> • Meysydd Strategol • Canlyniadau • Dangosyddion • Gweithredoedd Strategol - gyflwyno unrhyw sylwadau cyffredinol eraill i sylw'r ymgynghorydd fel rhan o'r cyfnod ymgynghori ddiwedd Ionawr 2014.
AELOD CABINET	Ioan Thomas

1. CEFNDIR

1.1 Hunaniaith sydd yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol i hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd.

1.2 Deillia rhaglen waith hunaniaith o 2 le:

- Cynllun Grant Llywodraeth Cymru
- Cynllun Strategol y Cyngor

1.3 Un o ymrwymiadau o fewn rhaglen waith hunaniaith ar gyfer 2013/14, ac a gyllidir drwy grant gan Lywodraeth Cymru, yw llunio Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 a Chynllun Gweithredu Drafft.

1.4 Yn ystod haf 2013, lluniwyd briff ar gyfer comisiynu ymgynghorydd i lunio Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 a Chynllun Gweithredu Drafft ar ran hunaniaith. Yn sgil y broses dendro, penodwyd ymgynghorydd i gychwyn ar y gwaith ym Medi 2013.

2. STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 2014-2017 DRAFFT

2.1 Seilir y Strategaeth ddrafft sydd gerbron ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011, ynghyd â data a thystiolaeth ansoddol a gasglwyd yn sgil trafodaethau niferus a gynhaliwyd yn ystod y misoedd diwethaf rhwng yr ymgynghorydd a buddelïaid allweddol; yn unigolion, mudiadau, grwpiau a sefydliadau.

2.2 Ar sail yr uchod, adnabu'r ymgynghorydd ar y cyd â hunaniaith 6 maes strategol i'w cynnwys yn y ddogfen ddrafft, sef:

- Y Teulu
- Plant a Phobl Ifanc
- Cymunedau
- Darparu Gwasanaethau Cymraeg
- Y Gweithle
- Y Seilwaith

2.3 Y mae'r meysydd strategol hyn yn manylu ar y math o ganlyniadau y dymuna hunaniaith eu gwireddu ar gyfer yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd, rhai dangosyddion y byddai modd eu mesur yn ystod y cyfnod, ynghyd â chynigion o weithredu strategol y byddai modd eu cyflawni er mwyn gwireddu'r canlyniadau ymhob maes.

2.4 Mae'r Pwyllgor Iaith yn meddu ar ddyletswydd i gyflawni rôl ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith o fewn y sir. O ganlyniad, pwrpas cyflwyno'r Strategaeth ddrafft gerbron y Pwyllgor Iaith yw ceisio barn yr aelodau ar yr uchod. Bydd hyn yn galluogi hunaniaith a'r ymgynghorydd i ystyried ac ymgorffori sylwadau'r aelodau cyn cyhoeddi'r ddogfen ddrafft terfynol i bwrpas ymgynghori ddiwedd Ionawr 2014.

2.5 Fel rhan o'r trefniadau ymgynghori ar y ddogfen ddrafft terfynol ddiwedd Ionawr 2014, bydd cyfle pellach i'r aelodau gyflwyno eu sylwadau cyffredinol yn unigol i sylw'r ymgynghorydd.

3. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau:

- gyflwyno eu sylwadau ar y canlynol yn y Strategaeth ddrafft:
 - Meysydd Strategol

- Canlyniadau
 - Dangosyddion
 - Gweithredoedd Strategol
- gyflwyno unrhyw sylwadau cyffredinol eraill i sylw'r ymgynghorydd fel rhan o'r cyfnod ymgynghori ddiwedd Ionawr 2014.

Strategaeth Iaith Gwynedd 2014 - 2017

Hunaniaith

Hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd

Promoting the Welsh Language in Gwynedd

Rhagair

CYSYLLTU

Os hoffech rhagor o wybodaeth am waith Hunaniaith, neu'r modd y gallwch chi gyfrannu tuag at hyrwyddo iaith Gymraeg cysylltwch a:-

Rheolwr....

Ffôn:

e-bost:

FERSIYNAU HYGYRCH O STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 2014-2017

Os y dymunir, gellir darparu fersiynau hygyrch o Strategaeth Iaith Gwynedd ar gais; mae hyn yn cynnwys:

- Fersiwn print bras
- Fersiwn ar dâp
- Fersiwn mewn braille
- Fersiwn iaith arwyddion (BSL)

Cysylltwch â

CYNNWYS

Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-17

Cyflwyniad i'r Strategaeth

Yn genedlaethol, mae nifer a chryfder y cymunedau sy'n defnyddio'r Gymraeg yn bennaf wedi lleihau dros y degawdau diwethaf ac fe gollwyd nifer o gymunedau a fu bron yn gwbl Gymraeg eu hiaith yn rhannol oherwydd: diffyg gwaith, cyfleoedd cymdeithasol, diffyg tai fforddiadwy i bobl ifanc sy'n symud i ffwrdd i gael gwaith ac yna mewnfudiad o'r di-Gymraegi ardaloedd benodol.

Mae Cyfrifiad 2011 yn rhoi darlun mwy cyfredol ini o sefyllfa'r Gymraeg ar draws Gymru a Gwynedd ac yn caniatáu cymhariaeth rhwng 1991, 2001 a 2011. Serch hynny, darlun penodol a geir drwy data'r Cyfrifiad ac felly mae'n bwysig fod y Strategaeth hon yn ystyried barn cymunedau ac unigolion, arferion gweithredu ac yn arbennig arfer dda o fewn Gwynedd, Cymru ac yn ehangach.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 65.4% o boblogaeth Gwynedd (3+ oed) yn siarad Cymraeg sydd eto'r ganran uchaf o holl siroedd Cymru. Mae hyni lawr o 69% yn ôl Cyfrifiad 2001 oedd eto yn ostyngiad o Gyfrifiad 1991. Rhwng 1991 a 2011 fe welodd Gwynedd ostyngiad o -3.1% mewn siaradwyr Cymraeg. Mae'n bwysig peidio gorsymleiddio'r rhesymau dros hyn gan gofio bod ffactorau economaidd, ffactorau swyddi a tai yn ogystal ag allfudo a mewnfudo sydd yn digwydd mewn sir fel Gwynedd yn gwneud y sefyllfa yn un anodd i'w ddiffinio ac yn amrywiol ar draws y Sir.

Yng Ngwynedd, credir bod oddeutu 83% o siaradwyr Cymraeg y sir yn rhugl; y ganran uchaf o holl siroedd Cymru. Mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli o leiaf 30% o boblogaeth barhaol ymhob ward heblaw dau yng Ngwynedd.

Wrth gymharu Gwynedd gyda gweddill Cymru, mae'r sefyllfa yn parhau i fod ar y wyneb yn un cymharol gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r gwmp ar gyfartaledd wedi bod canrannau'n uwch mewn rhai ardaloedd. Disgwylir mae'n debyg niferoedd is o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd arfordirol a'r ardaloedd hynny sydd wedi profi'n boblogaidd gyda mewnfudwyr, ond mae arwyddion o newid hefyd yng nghadarnleoedd yr iaith.

Mae'r wybodaeth ar lefel ward felly yn bwysig i'w ystyried ar gyfer cynllunio ymatebion ac yn dangos agweddau megis cymunedau gyda dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg sydd wedi gostwng. Er enghraifft, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd nifer yr ardaloedd yng Ngwynedd gyda dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg wedi gostwng o 61 Adran Etholiadol yn 1991 i 42 Adran Etholiadol yn 2001 a cwmp eto i 39 yn 2011. Y 3 cymuned sydd wedi gostwng o dan 70% yn ol Cyfrifiad 2011 yw: Y Felinheli, Dolbenmaena De Dolgellau. At hyn, mae nifer o

gymunedau eraill wedi gostwng yn sylweddol agos at y trothwy 70%, megis Llanaelhaearn a Llanberis.

Ar nodyn cadarnhaol, dengys Cyfrifiad 2011 gynnydd unwaith eto yn y canrannau sydd yn gallu siarad Cymraeg yn y grŵp oedran 3 – 15 oed yng Ngwynedd sydd yn dangos llwyddiant mewn polisi addysg a chynlluniau cychwyn cadarn y Sir. (Gweler data atodiad 1)

Mae cwestiwn sylfaenol i'r Strategaeth yma felly: A yw'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd heddiw yr un mor gadarn ag y bu yn y gorffennol a beth gall y Strategaeth hon wneud i gyfrannu tuag at sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg?

Cyflwynir casgliad llawnach o ddata a gwybodaeth ymgynghorol yn Atodiad 1 a 2

Mae'r data yma yn elfen o'r wybodaeth a ddefnyddwyd i benderfynu ar flaenoriaethau'r Strategaeth.

Y Weledigaeth :Strategaeth iaith Integredig

Mae tystiolaeth cenedlaethol a rhyngwladol yn awgrymu, ble mae un iaith yn goruchafu dros y llall, mae posibilrwydd i'r iaith lleiafrifol ffynnu gyda cynllunio bwriadol. Gwyddwn fod dwyieithrwydd yn fygythiad i iaith lleiafrifol pan mae'r iaith rhyngwladol yn goroesi. Ond mae hefyd yn ymddangos, os bydd ffiniau cadarn yn datblygu a'r naill iaith a'r llall yn cael ei chlymu at feysydd penodol o fywyd cymdeithasol, bywyd gwaith ac yn y blaen, gall gwir ddwyieithrwydd sefydlogi.

Mae profiad gwlad y Basg yn cadarnhau bod iaith yn ffynnu ble mae'r boblogaeth yn gweld ei gwerth:

"It is necessary for a community wishing to give new life to its language to comprehend, internalise and truly feel its language's value".

Mae cadarnhau gwerth yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd yn nôd bwysig i'r Strategaeth ac ymysg poblogaeth o bob oedran a pob cefndir. Ceisir gwneud hynny ar draws y rhaglenni ymateb.

Mae'n bwysig felly i'r Strategaeth yma ganolbwyntio yn benodol ar hyrwyddo'r Gymraeg yn hytrach na dwyieithrwydd gan gynnwys mewn ardaloedd ble mae'r Gymraeg yn ymddangos yn gadarn ond ble gall barhau o dan fygythiad.

Mae defnydd o iaith yn fater cymhleth ac aml ffactorol mewn byd rhyngwladol a cymuned ddwyieithog. Mae cymhlethdod cynhenid yn y defnydd a wneir o iaith, gan gynnwys defnydd yn y cartref, ymagwedd tuag at yr iaith, yr hyder i'w ddefnyddio a'r cyfleon i ymarfer yn naturiol a dyddiol. Ffrwyth cyfuniad amrywiaeth eang o ffactorau yw ymddygiad ieithyddol ac agweddau tuag at yr iaith. Wrth i siaradwyr gaffael a datblygu eu sgiliau, mae eu profiadau yn dylanwadu ar faint mor rhugl y byddent a pha mor hyderus ydynt wrth iddynt ddod i gysylltiad â'r Gymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol.

Ers y 1970au, mae sawl ymgais wedi'i wneud i ddatblygu modelau ar gyfer adfywio iaith (Joshua Fishman Reversing Language Shift 1991). Mae olwyn Strubell (2001) wedi addasu gwaith Fishman a dangoswyd perthynasgadarn rhwng y ffactorau isod:-

- **Gallu ieithyddol**
- **Y defnydd cymdeithasol a wneir o iaith**
- **Y cynnyrch a'r gwasanaethau sydd ar gael yn yr iaith a'r galw amdanynt**
- **Y cymhelliant i ddysgu'r iaith a'i defnyddio**

Yn Policy to Outcome Pathway Grin a Moing (2002) ystyrir bod angen cyfuniad o dair amod isicrhau bywiogrwydd ieithyddol:

y gallu i ddefnyddio'r iaith,

y cyfleoedd i'w defnyddio

yr awydd i'w defnyddio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod Fframwaith Cysyniadol gyda'r berthynas rhwng cyd-destun defnydd, sgiliau iaith ac agweddau tuag at yr iaith. Rydym wedi ychwanegu seilwaith tuag at y model, gan awgrymu bod polisiau lleol a cenedlaethol yn ffactorau dylanwadol allweddol ar yr iaith hefyd.

Rôl Hunaniaith fydd i gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg ymhob agwedd posib o fywyd a dangos y ffordd ar gyfer grymuso'r Gymraeg o fewn ardal dwyieithog. Mae Strategaeth Iaith Gwynedd yn cydnabod y fframwaith ac yn ceisio gweu ei Strategaeth o amgylch y cysyniadau isod.

Fframwaith Fesur

(Policy to Outcome Model Grin & Moing 2002)

Cyfleoedd i ddefnyddio

- Y Cartref/Teulu
- Blynyddoedd
Cynnar/Darpariaeth Addysgol
- Hamdden/Anffurfiol
- Rhwydweithiau cymdeithasol
a chyfranogiad cymunedol
- Gweinyddiaeth a sefyllfaoedd
swyddogol

Gallu i ddefnyddio

- Hyder ieithyddol
- Rhuglder
- Vmarfer

Y Seilwaith

Cynllunio , Tai a'r iaith

Gallu i ddefnyddio gwasanaethau craidd yn y Gymraeg

Polisiau Adfywio ac Economaidd

Technoleg, cyfyngau

Awydd i'w ddefnyddio

-Canfyddiad am pa mor ddefnyddiol a
perthnasol yw'r iaith

-Awydd i ddefnyddio'r iaith

-Y Gymraeg fel dynodydd hunaniaeth

Y Sefyllfa Cymunedol

Mae tystiolaeth yn dangos bod angen dwysedd uchel y boblogaeth yn siarad iaith iddi fod yn iaith arferol mewn cymuned. Nodwyd fod y niferoedd o gymunedau ble mae dros 70% o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng yng Ngwynedd neu wedi agosau at y trothwy. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r wybodaeth am y cymunedau rheini sydd yn agosaf i gyrraedd y 70% trothwy a'r rhai sydd wedi gostwng o dan y trothwy ers cyfrifiad 2001

Tabl 1:Wardiau sydd wedi gostwng o dan y 70% trothwy (neu dirywiad agos)

Ardal	Ward	Cyfrifiad 2001 (%)	Cyfrifiad 2011 (%)
Arfon	Llanberis	80.5	74.7
	Penisarwaun	74.1	70.6
	Talysarn	71.9	70.7
	Tregarth a Mynydd	69.8	69.0
	Llandegai		
	Y Felinheli	72.1	64.3
Dwyfor	Dolbenmaen	70.0	67.6
	Llanaelhaearn	78.1	73.8
	Morfa Nefyn	77.1	72
	Porthmadog/Tremadog	69.7	66.8
Meirionnydd	De Dolgellau	73.1	67.1
	Gogledd Dolgellau	67.5	61.8
	Llandderfel	72.7	70.8

Niferoedd isel o siaradwyr a/neu cwmp sylweddol ers 2001

Ardal	Ward	Cyfrifiad 2001(%)	Cyfrifiad 2011 (%)
Arfon	Menai (Bangor)	27.3	18.6
	Deiniol	30.5	22.5
	Garth	46.4	30.4
	Hirael	52.9	37.7
	Marchog	54.5	50.2
	Hendre	52.2	45.3
	Glyder	55.3	51.7
Dwyfor	Abersoch	50.5	43.5
	Gorllewin	64.8	57
	Porthmadog		
	Aberdaron	75.3	74.2
	Botwnnog	77.1	75.9

Meirionnydd	Aberdyfi	42	35.5
	Tywyn	40.8	37.5
	Abermaw	43.8	41.5
	Dyffryn Ardudwy	48.8	47.4
	Bryncrug	53.8	52.1
	Harlech	59	54.1
	Corris	60.6	55.8

Mae'r wybodaeth uchod yndangos yn glir mai wardiau yn ardal Bangor sydd â'r nifer isaf o siaradwyr yn y sir. Yn arferol, awgrymir mai dylanwad niferoedd myfyrwyr sydd i gyfrif am hynny; OND mae'n bwysig nodi, yn ôl Cyfrifiad 2011, fod siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 3-15 yn wardiau Bangor yn sylweddol is na gweddill Gwynedd. Yng Ngwynedd, yn gyffredinol, mae rhwng 80a90 % o blant yn y grŵp oedran 3-15 yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â rhwng 56% a 72% o blant yn datgan eu gallu i siarad Cymraeg ym Mangor. Awgryma hyn yr angen i roi sylw arbennig i **ardal Bangori** wneud da dros y mater yma a/neu i godi balchder yn y gallu i siarad Cymraeg.

Mae'r proffil mewnfudo ac allfudo a welir yn Atodiad 1 yn profi effaith parhaus y ffactorau hyn ar yr iaith Gymraeg ar arfordir Pen Llŷn a Meirionnydd. Mae Tabl 1 uchod yn dangos y wardiau isaf o ran siaradwyr Cymraeg a'r rhai sydd wedi gostwng yn sylweddol. Ychydig iawn o sylw mae ardaloedd arfordirol wedi ei gael o ran hyrwyddo'r iaith dros y blynyddoedd diwethaf ond mae arwyddion fod gwaith i'w wneud mewn ardaloedd ym Meirionnydd i godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni a phlant o fudd a gwerth yr iaith iddynt hwythau a'u teuluoedd.

Strwythur a Gweithrediad Hunaniaith

Bwriedir cyflawni prif elfennau'r strategaeth yma drwy weithio'n strategol ac mewn cydweithrediad agos â chymunedau penodol. Golyga hyn fod yr iaith Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn dod yn rhan naturiol o bolisi a gweithrediad cynlluniau economaidd, adfywio, tai fforddiadwy, addysg a chymhathu a hynny ar y cyd gydag ymgyrchoedd hyrwyddo ieithyddol o fewn y cymunedau eu hunain.

Bydd angen i'r Strategaeth fesur pa mor effeithiol y llwyddir iwau yr elfennau hyn gyda'i gilydd; sut mae polisiiau eraill yn cyfrannu at ffyniant y Gymraeg ac adnabod a dylanwadu ble mae polisiiau yn rhwystro ac yn hwyluso'r Gymraeg.

Trwy ei ddull gweithredu, gall Hunaniaith weithio mewn partneriaeth ar draws ystod o sefydliadau, sectorau a chymunedau i gyflawni hyn.

Cyd-Destun y Strategaeth

Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol

Ym 1993 sefydlwyd Deddf yr Iaith Gymraeg ac yna sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo datblygiadau ieithyddol. Yn 2003 cafwyd fframwaith strategol cyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hybu'r Gymraeg; sef Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Dwyieithog.

Cadarnhaoedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chrewyd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg.

Yn Hydref 2011 sefydlwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg ac yna swyddfa'r Comisiynydd yn Ebrill 2012. Y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am y safonau newydd ar gyfer y Gymraeg a fydd yn gosod dyletswyddau ar amrywiaeth eang o sefydliadau i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn rhan annatod o waith i ddatblygu polisiiau, cynnal gwasanaethau a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Ym mis Ebrill 2010, cyhoeddwyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg i Gymru ac yna cafodd Coleg Gymraeg Cenedlaethol ei sefydlu'n ffurfiol.

Ers llunio Strategaeth Iaith Gwynedd 2010-13, mae rôl y cyfryngau electroneg newydd hefyd wedi datblygu fwy fwy. Yn 2011, cafodd yr e-lyfrau Gymraeg cyntaf eu lansio ar gyfer Kindle ac App ar yr iPad ar gyfer cylchgrawn Golwg. Mae datblygiadau digidol yn bwysig i'w hystyried fel elfen graidd o'r economi, datblygiad cymunedol a bywyd cymdeithasol pob dydd yng Ngwynedd.

Dywedodd y Gweinidog ar y pryd, Leighton Andrews, yn ei gyflwyniad i'r Strategaeth Iaith Fyw, Iaith Byw 2012-17:-

“Ni ddylid dibynnu ar y bobl hynny sy'n cael eu cyflogi i ddatblygu neu hybu'r iaith yn unig i'w ddiogelu. Rhaid i ni sicrhau hefyd ein bod yn annog pobl i ddefnyddio'r sgiliau iaith sydd ganddynt ac osgoi cyfrannu at sefyllfa lle mae yna deimlad ymhlith rhai na allant wneud hynny am nad yw eu Gymraeg ddigon da”.

Mae hyn yn neges bwysig sydd wedi codi mewn nifer o ddogfennau ymchwil a chaiff ei grybwyll yn gyson gan unigolion fel mater all fod yn rhwystr.

Mae nifer fawr o gynlluniau a prosiectau hyrwyddo'r Gymraeg wedi eu gweithredu dros yr 20 mlynedd diwethaf yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod mai anodd yw darganfod y dystiolaeth empirig ynglŷn â pa effaith gaiff cynlluniau unigol ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg, neu ieithoedd leiafrifol eraill. Yn y broses o ddatblygu Iaith Fyw: Iaith Byw 2012-17, bu i Lywodraeth Cymru ystyried pa dystiolaeth a oedd yn bodoli i fesur effeithiolrwydd

gweithgareddau a weithredwyd eisoes o safbwynt cynyddu defnydd o'r Gymraeg, gan hefyd edrych ar ardaloedd y tu hwnt i Gymru. Yn gyffredinol, amlygodd y gwaith o fesur effeithiolrwydd y gweithgareddau ddiffyg tystiolaeth gadarn.

SYLW:Mae'n bwysig felly i Strategaeth Iaith Gwynedd ddatblygu a sefydlu fframwaith werthuso i gyd fynd â'r Strategaeth a'r Rhaglen Waith. Dylid gwneud hyn mewn cydweithrediad â datblygiadau cenedlaethol er mwyn gallu cyfrannu tuag at y sylfaen dystiolaeth yn genedlaethol.

Roedd prif negesuon o'r dystiolaeth yn awgrymu'r canlynol:-

- Y boblogaeth sydd fwyaf tebygol o gefnu ar y Gymraeg yw teuluoedd lle nad ond un rhiant/gofalwr yn siarad Cymraeg.
- Bod iaith "cymuned" siarad y plentyn megis rhiant/gofalwr, nain a taid, brodyr a chwiorydd, athrawon yn dylanwadu ar yr iaith a siaredir gan y plentyn.
- Mae iaith rhyngweithio â ffrindiau yn cydberthyn yn glos â'r iaith y mae'r plentyn yn gyson siarad.
- Mae cynlluniau megis TWF wedi llwyddo i ddod a dwyieithrwydd i waith prif ffrwd bydwragedd ac ymwelwyr ieched.
- Gallai darparwyr Blynyddoedd Cynnar chwarae mwy o rôl drwy gynnig rhagor o gymorth ymarferol a dwys i rieni/gofalwyr gan ysgogi a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y cartref a chodi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd.
- Bod angen i'r iaith gael, nid yn unig ei siarad yn yr ysgol, ond ei chefnogi yn y cartref a thrwy ragor o weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol.
- Bod diffyg hyder yn un o'r prif rwystrau a oedd yn atal staff rhag defnyddio sgiliau yn y gweithle a bod angen rhagor o hyfforddiant ar ymwybyddiaeth a sgiliau iaith.
- Ychydig o dystiolaeth oedd bod darparu gwasanaeth yn yr ieithoedd lleiafrifol yn cynyddu defnydd iaith neu ei statws. Mae corff o dystiolaeth yn dangos bydd ieithoedd yn ffynnu os ceir cyfleoedd i'w defnyddio ym mhob agwedd o fywyd.
- Dylid manteisio ar botensial technoleg fel y we a cyfryngau cymdeithasol i'r eithaf.
- Bod angen cadarnhau a marchnata manteision y Gymraeg yn eang gan gynnwys manteision economaidd a gwaith.

Byddwn yn crynhoi y dystiolaeth sydd ar gael o waith Ymchwil Llywodraeth Cymru 2012 o dan pob pennawd thematig a gwybodaethbellach yn Atodiadau 1 a 2.

Ym mis Gorffennaf 2013, cynhaliwyd ymchwil gan Beaufort Research ar ran Llywodraeth Cymru, S4C a'r BBC i ba raddau y mae siardwyr Cymraeg yn byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Nôd yr ymchwil oedd deall mwy am arferion iaith pobl Cymru mewn sefyllfaoedd dydd i ddydd, yn cynnwys bywyd cymdeithasol, yn y

gweithle ac ar draws cyfryngau. Bu i ganfyddiadau'r ymchwil ategu canfyddiadau ymchwiliadau blaenorol megis:

- 84% o'r rhai a holwyd yn nodi y byddent yn croesawu'r cyfle i wneud mwy yn yr iaith Gymraeg gyda 92% yn dweud hynny yn y grwp llai rhugl.
- 61% yn dweud y byddai'n dda pe gallant siarad Cymraeg yn well.
- Diffyg hyder a phryder am safon eu Cymraeg yn rhwystro defnydd ohoni.
- Diffyg ymwybyddiaeth o arlwy'r cyfryngau Cymraeg ac argaeledd gwasanaethau Cymreig ar lein a bod angen gwneud mwy i ddatblygu'r cyfryngau cymdeithasol.
- Angen cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer pobl ifanc a cynyddu eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg.

Canfyddwyd o'r ymchwil ar lefel bob dydd bod prif ffactorau sy'n hwyluso neu sbarduno siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn cynnwys:-

- Cymraeg fel iaith y cartref
- Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned leol e.e. siopau, tafarn
- Defnyddio'r Gymraeg ar ddechrau perthynas e.e. frindiau
- Cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- Cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. llyfrau Cymraeg, neges testun, gwefannau newyddion
- Argaeledd a safon rhaglenni teledu a radio

Mae camau allweddol ym mywyd rhai unigolion yn newid eu hagwedd a'u defnydd o'r Gymraeg. Roedd cael plant neu symud i weithio mewn amgylchedd lle roedd y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd yn cael effaith sylweddol ar ddefnydd o'r Gymraeg.

Rhwysterau

- 36% o bobl 16-24 oed oedd yn dweud eu bod bob amser neu fel arfer yn siarad Cymraeg gyda frindiau gyda'r ganran gyfatebol ar gyfer holl siaradwyr yn 55% ac i fyny i 61% o'r oedran dros 60.

- Nodwyd bod gadael yr ysgol yn bwynt lle roedd defnyddio'r iaith yn lleihau.
- Diffyg hyder i ddefnyddio'r Gymraeg
- Llai rhugl yn y Gymraeg i gymharu â'r Saesneg
- Diffyg cyfle neu canfyddiad o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg
- Cyfleustra defnyddio'r Saesneg yn lle'r Gymraeg

Wrth lunio Strategaeth 2010-2013, y prif ddata oedd ar gael fel sail cynllunio oedd y Cyfrifiad 2001. Erbyn hyn, mae ganddom wybodaeth sylweddol o Gyfrifiad 2011 sydd yn rhoi ffynhonnell ar gyfer dadansoddi sefyllfa gyfredol yr iaith Gymraeg yng Nghymru ac yn ei dro i lefel Gwynedd a'i is gymunedau.

GWELEDIGAETH A GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 2014-17

STRATEGAETH IAITH NEWYDD

Honyw'r ail Strategaeth a bydd yn adeiladu ar lwyddiannau Strategaeth 2010-13 ac yn edrych ymlaen dros y bedair blynedd nesaf.

Ein Gweledigaeth yw: **“Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Ngwynedd”**

Mae Hunaniaith yn gyfuniad o bartneriaid yn cydweithio i wireddu'r weledigaeth: partneriaid statudol, gwirfoddol, annibynnol ynghyd â chymunedau eu hunain

Dros y 4 blynedd nesaf byddwn eisiau sicrhau'r profiadau isod:

- Y Gymraeg yn gyfrwng naturiol o fewn cymunedau Gwyneddgyda'r niferoedd yn defnyddio'r Gymraeg yn cynyddu.
- Cymunedau wedi eu grymuso i hyrwyddo'r Gymraeg a'rdirywiad yn yr iaith mewn cymunedau penodol wedi ei atal.
- Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng naturiol ymhob rhan o'u bywydau ac yn gweld gwerth i'r iaith.
- Gwasanaethau eang ar gael yn y Gymraeg a defnydd rhwydd a hwylus yn cael ei wneud ohonynt.
- Gallu a chyfle i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y gweithle.

- Y Gymraeg yn cael ei integreiddio'n naturiol i gynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol yn genedlaethol
- Hyder ag agwedd bositif tuag at y Gymraeg ymhob rhan o fywyd y Sirgyda mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl o werth y Gymraeg

Yn cyd-fynd â'r weledigaeth, gosodwyd targed meintiol hirdymor o fewn Strategaeth 2010-13 a hoffwn ategu'r targed meintiol yma ar gyfer y Strategaeth newydd, sef:-

Sicrhau 5% o gynnydd yn y canran o'r boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd erbyn 2021".

MEYSYDD YMATEB STRATEGOL

Mae'r Strategaeth wedi ei seilio ar chwe maes strategol. Bwriedir clymu'r meysydd strategol i'r tair amod sydd yn sicrhau bywiogrwydd ieithyddol; sef y gallu i ddefnyddio'r iaith, y cyfleoedd i'w defnyddio a'r awydd i'w defnyddio.

Maes Strategol 1: Y Teulu

Maes Strategol 2: Plant a Phobl Ifanc

Maes Strategol 3: Y Gymuned

Maes Strategol 4: Darparu Gwasanaethau Cymraeg

Maes Strategol 5: Y Gweithle

Maes Strategol 6: Y Seilwaith

CANLYNIADAU

- Cynnydd yn y nifer teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith gyda'r plant
- Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg gan plant a phobl ifanc
- Cynyddu'r canran plant a phobl ifanc wardiau Bangor sydd yn gallu siarad Cymraeg
- Cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio'r Gymraegyng Ngwynedd ac yn benodol o fewn cymunedau targed
- Mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- Cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael i'r cyhoedd
- Gwell ddealltwriaeth ymysg grwpiau targed (rhieni, rheolwyr, myfyrwyr, cyflogwyr) o fantesion y Gymraeg
- Mwy o ddarpariaeth cymdeithasol, hamdden, chwarae a diwylliant drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cyrff a gwasanaethau yn cydweithio i integreiddio'r Gymraeg i mewn i bolisiau a gweithgareddau yn naturiol a diamod

MAES STRATEGOL 1: Y Teulu

Nôd :

Hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Teulu

Y Canlyniad

Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith gyda'r plant

Dangosydd

% plant 4 oed, dosbarth derbyn ysgolion cynradd, yn gallu siarad Cymraeg

Mae'n ymddangos bod rôl y cartref yn ganolog i "drosglwyddiad iaith" (Astudiaeth Fisherman 1991) gyda trosglwyddiad o un cenhedlaeth i'r llall yn angenrheidiol er mwyn cynnal iaith ac iddi dyfu. Dengys tystiolaeth (Jones 2008) bod byw mewn cartref lle mae pawb yn gallu siarad Cymraeg yn golygu cynnydd o ddwywaith a hanner yn y siawns y bydd y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio bob dydd.

Mae'r cartref yn adnodd cymdeithasol arbennig o bwysig o safbwynt ieithyddol. Sefydli'r patrymau iaith rhieni wrth siarad gyda'u plant yn gynnar iawn, ac mae'r patrymau sefydledig yma yn parhau drwy'r blynyddoedd cynnar.

Yn ôl Cyfrifiad 2001, dangoswyd pan fydd 2 riant yn siarad Cymraeg gartref, bod 89.7% o blant yng Ngwynedd yn gallu siarad Cymraeg, gwelir y canran yn gostwng i 73.4% mewn cartrefi gyda rhiant unigol yn siarad Cymraeg, yn gostwng ymhellach i 55.7% pan fo dim ond un o ddau rhiant yn siarad Cymraeg, ac yn gostwng ymhellach i 34.6% mewn cartrefi ble nad oes siaradwyr Cymraeg. (Cyfrifiad 2001).

Mae'r nifer y plant sy'n siarad Cymraeg mewn teuluoedd heb oedolyn sy'n siarad Cymraeg yn gyffredinol wedi cynyddu ar draws yr awdurdodau lleol ond yng Ngwynedd mae wedi aros yn gyfradd sefydlog.

Mae tystiolaeth yn dangos fod angen mesur amrywiaeth o ffactorau sy'n galluogi plentyn i ymarfer iaith a dwyieithrwydd- darllen stori, chwarae gemau, adnabod llythrennau. Mae ansawdd yr Amgylchedd dysgu yn y Cartref (ADC) yn gwneud gwahaniaeth. Mae hyfedredd yn cydberthyn yn glos â lefel mewnbwn yn yr iaith o fewn y cartref. Ffordd o wneud hyn yw sicrhau cefnogaeth i rieni i drochi'n gynnar mewn iaith o fewn cyfleusterau cyn ysgol.

Mae cartrefi ble mae un rhiant yn byw gyda'r plant wedi cynyddu yn sylweddol yng Ngwynedd a byddai'n dda o beth i adnabod yr ardaloedd rheiny a chynnig

cefnogaeth ble mae un rhiant yn ddi Gymraeg ac yn cael hi'n anodd i gefnogi'r plant yn ieithyddol.

Prosiect Twf yw yn un o'r prif ymyriadau sy'n ceisio dylanwadu o fewn maes trosglwyddo'r iaith yn y teulu. Mae'r rhaglen yn rhoi cyngor a chefnogaeth i famau beichiog, mamau newydd a'u teuluoedd ynglŷn â manteision dwyieithrwydd a defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd. Yng Ngwynedd mae 3 swyddog TWF rhan amser yn gweithio ar draws y Sir.

Mae dysgu iaitha hyder mewn defnydd iaith yn bwysig ymysg rhieni ifanc ac gyda hyn lanswyd cwrs Cymraeg i'r Teulu yn 2012; sef cwrs wedi ei gynllunio i sicrhau bod rhieni ar lefel Mynediad yn dysgu iaith addas ac yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant o'r dechrau. Mae perthynas agos yng Ngwynedd rhwng y Canolfannau Cymraeg i Oedolion ym Mangor ac Aberystwyth, y cyrsiau yma a'r gwaith Siartr Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd.

Mae Mudiad Meithrin yn allwedd pwysig iawn yn y maes yma gyda cylchoedd meithrin ar draws y Sir yn cynnig gofal ac addysg sesiynol dyddiol i blant 2 i 5 oed. Rhoddir y cyfle i blant ddysgu drwy chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cylchoedd meithrin gyda cylchoedd Ti a Fi i'r rhiant a'r plentyn yn sirol. O ran ffigyrau "Gwynedd Ni" nodwyd bod 53 o Gylchoedd Ti a Fi ar draws y Sir a dwy ganolfan integredig s'yn cefnogi 'r ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, sef yng Nghaernarfon a Blaenau Ffestiniog.

O fewn rhaglenni ymyrraeth gynnar megis Dechrau'n Deg a'r Cynllun Iaith a Chwarae, ceir tîm aml-ddisgyblaethol yn cynnig amrywiaeth o sesiynau Cymraeg i rieni a phlant fel sesiynau stori, sesiynau canu hwiangerddi, sachau stori, dawns a nofio. Ceir tystiolaeth fod y timau aml-ddigyblaethol hyn yn gwneud cryn waith ledled y Sir i weithio gyda rhieni i danlinellu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg gan arddangos y dulliau posibl o drosglwyddo iaith Gymraeg yn gynnar ym mywyd plentyn. Mae nifer o'r rhaglenni yma'n gweithredu ac yn targedu ardaloedd difreintiedig ac efallai bod cyfle i ledaenu ymarfer i ardaloedd eraill yn ogystal.

Mae datblygu sgiliau ac ymagwedd rhieni felly yn allweddol

Gweithrediad Strategol

- Hybu manteision trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu a manteision y Gymraeg i'w plant gan greu neges gyson ar draws y sector *(Awydd)*
- Ymestyn cyfleon anffurfiol i rieni a'u babanod fagu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg. *(Gallu)*
- Ymestyn darpariaerth Cymraeg i Oedolion i gynyddu hyder a sgiliau rhieni i gaffael a defnyddio'r Gymraeg. *(Gallu)*
- Codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd bod gweithgareddau i deuluoedd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. *(Awydd)*

MAES STRATEGOL 2: Plant a Phobl Ifanc

Nôd:

Cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg a gwella'r mynediad at weithgareddau cymdeithasol a gwasanaethau cyfrwng Gymraeg sydd ar gael ar eu cyfer.

Canlyniad:

Plant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg ac yn gweld gwerth i'r iaith.

Dangosydd:

Nifer y plant ysgolion cynradd sydd wedi dangos cynnydd yn eu defnydd o'r Gymraeg ar ddiwedd y cyfnod addysg gynradd

% disgyblion BI 11 sy'n astudio ar gyfer 2 neu fwy o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg

% disgyblion BI 11 sy'n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg

% myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

Nifer sydd yn manteisio ar ddigwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg a drefnir gan, ac ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a drefnir drwy grantiau Llywodraeth Cymru.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 16,866 o blant a phobl ifanc 3-15 oed yn byw yng Ngwynedd: felly hyn yn 14.3% o'r boblogaeth.

Mae 2,734 o blant 3-4 oed yng Ngwynedd gyda 909 o rhai 3 oed yn gallu Cymraeg a 1,088 o rai 4 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Mae hyn yn golygu fellyt 73% o rai 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg

Mae'r data a gyflwynwyd uchod yn dangos bod Cynllun Addysg Gymraeg Gwynedd yn llwyddo i gynhyrchu siaradwyr Cymraeg ond nid yw'r Cyfrifiad yn gallu dweud wrthym am y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg o ddydd i ddydd y tu allan i'r ysgol a pha mor aml y defnyddir yr iaith. Gwyddwn, os yw'r Gymraeg am oroesi yng Ngwynedd, yna mae'n rhaid i'r iaith fod yn gyfrwng dewisol a chyfoes i blant a phobl ifanc yn eu bywydau bob dydd.

Fel rhan o'r gwaith gydag ysgolion uwchradd, bwriedir cynnal adolygiad tebyg i'r hyn a gynhaliwyd yn y cynradd i adnabod defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc oedran uwchradd.

Yng Ngwynedd mae 46 o glybiau ieuencid ar draws y Sir ac 17 o glybiau ffermwyr ifanc.

Dengys gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg fod y duedd tuag at ddefnyddio'r Saesneg yn gref mewn mannau ble nad oes yna gyd-destunau cymdeithasol cadarn i wrthbwysu dylanwadau'r Saesneg. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, Saesneg bron yn ddieithriad yw iaith y cylch cyfoedion. Y gamp sylfaenol mewn ardaloedd o'r fath yw ceisio cynnal cylchoedd cyfoedion Cymraeg.

Gweithrediad Strategol

- **Ar sail gwaelodlin, gweithredu ymyrraethau yn yr ysgolion uwchradd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol(Cyfle)**
- **Gwella ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o werth y Gymraeg. (Awydd)**
- **Codi ymwybyddiaeth gweithwyr ieuencid a rhai yn ymwneud gyda'r maes hamdden a chwaraeon er mwyn iddynt feithrin agweddau positif ymysg pobl ifanc tuag at yr iaith(Cyfle)**
- **Datblygu sgiliau arwain ymysg pobl ifanc er mwyn iddynt ddatblygu fel arweinwyr o fewn eu cymunedau(Gallu a cyfle)**
- **Arfogi athrawon i'w galluogi i gynnal gweithgareddau all gyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg.(Gallu a cyfle)**

MAES STRATEGOL 3: Cymunedau

Nôd:

Grymuso cymunedau a'u helpu i gryfhau safle'r Gymraeg

Canlyniad:

Nifer y cymunedau gyda dros 70% o boblogaeth sy'n siarad Cymraeg wedi eu cynnal.

Dirywiad yn y cymunedau sydd wedi gostwng o dan 70% wedi ei atal.

Dangosydd:

Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Llywodraeth Cymru)

Nifery gweithgareddau Cymraeg o fewn cymunedau targed.

Nodwyd eisoes yn y cyflwyniad bod dwysedd y boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg yn allweddol i ffyniant y iaith. Gwyddwn fod allfudo a mewnfudo yn cael effaith ar y Gymraeg a'i ddefnydd ond mae hefyd angen cynllunio bwriadus mewn cymunedau ble mae'r Gymraeg yn ymddangos yn gadarn er mwyn gwrth-droi unrhyw bwysau negyddol allanol.

Bydd Hunaniaith yn gweithio ar ddwy lefel,sef: hyrwyddo a grymuso cymunedau eu hunain i weithredu a cynyddu gweithgarwch cymunedol cyfrwng Cymraeg ac i fynegi barn ar bolisiau perthnasol lleol a chenedlaethol; ac yn ail ar y lefel strategol a holistaidd i gynnwys materion tai fforddiadwy, swyddi a chyflogaeth, ynghyd â sicrhau fod y Gymraeg wedi ei wreiddio'n rhan annatod o faterion adfywio.

I wneud hyn, bydd Hunaniaith yn defnyddio'r arbenigedd cynllunio ieithyddol ac yn gweithio law yn llaw gyda cymunedau a chyrrff perthnasol er mwyn manteisio ar gyfleon a grymuso cymunedau weithredu.

Byddwn yn gweld Hunaniaith a'r "tim" o arbenigwyr cynllunio ieithyddol sydd yng Ngwynedd, fel adnodd pwysig ar gyfer cefnogi cymunedau targed acfel arweinwyr ieithyddol wrth gydweithio gyda'r rhai fydd yn trefnu polisi a gweithrediad strategol o fewn y sir.

Bydd y Strategaeth newydd yn gwneud defnydd bwriadol o'r tim a'u sgiliau ac yn targedu cymunedau penodol ar gyfer eu cefnogi yn ogystal â gweithio gyda sectorau eraill i integreiddio'r Gymraeg i mewn i bolisiau a chynlluniau, megis:

- Cynllunio a'r Cynllun Datblygu lleol
- Tai a chynlluniau cymunedol tai/ Tai fforddiadwy
- Swyddi a chyflogaeth gan gynnwys broceriaeth gyda chyflogwyr a datblygu sgiliau
- Adfywio a chynlluniau adfywio gwledig
- Gwasanaethau hamdden a chwaraeon

Cynhaliwyd proffiliau ieithyddol mewn sawl ardal o Wynedd gan gynnwys: Y Bala, De Dolgellau, Blaenau Ffestiniog, Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle, Y Felinheli, Bangor, Pwllheli a'r cylch. Mae'r negeseuon a ddaeth o'r adolygiadau yn eithaf cyson ac yn creu darlun o gymunedau sydd eisiau sicrhau gwasanaethau Cymraeg yn lleol, eisiau cryfhau'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc a dylanwadu ar ddefnydd iaith ieuenctid, ymestyn gwerth y Gymraeg yn eang ac yn benodol o fewn busnesau lleol, swyddi , tai fforddiadwy, hybu cymreictod a throsglwyddo iaith yn y cartref

O ran y tensiynau yn codi yn yr ymatebion, y brif sylw oedd:diffyg gweithgareddau Cymraeg i bobl ifanc mewn rhai ardaloedd, costau cyfieithu oedd yn sicrhau fod nifer o grwpiau cymunedol yn troi i'r Saesneg, rhai o'r di-Gymraeg a mewnfudwyr yn teimlo weithiau bod y Gymraeg ddim yn hygyrch gyda'r angen am fwy o ddarpariaeth anffurfiol i ddysgwyr ac adolygiad o strwythur Addysg i Oedolioner mwyn iddo fod yn ddarpariaeth mwy hyblyg.

Ar sail y wybodaeth a geir am ddefnydd y Gymraeg a'r gwaith sydd eisoes yn digwydd ar draws y Sir cynigir:

- Roi sylw i'r cymunedau sydd wedi gostwng o dan 70% , sef **Dolbenmaen, Porthmadog/Tremadog, Y Felinheli a De Dolgellau** ac yn ystyried y ffactorau dylanwadol.
- Rhoi sylw bwriadus i'r cymunedau rheini ble mae'r Gymraeg yn cael ei siarad fel prif iaith dyddiol neu lle mae'r canran siaradwyr yn brysur leihau ac hynny yn bennaf i alluogi'r cymunedau rheini i weithio'n strwythuriedig ar atal dirywiad posib neu dirywiad pellach ac, ble'n berthnasol, treialu arferion gall fod yn batrwm ar gyfer cymunedau eraill y Sir.
- Rhoi sylw i rhai a'r brif ardaloedd ble mae cwmp sylweddol a ble mae defnydd o'r Gymraeg yn isel.
- Targedu ardaloedd megis **Tywyn** ble mae datblygiadau yn y byd addysg yn gosod cyfle allweddol i weithio gyda rhieni, plant a phobl ifanc i godi lefelau ymwybyddiaeth ac o ganlyniad y defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd yma.

Gweithrediad Strategol

- **Sicrhau proffil ieithyddol safonol mewn holl gymunedau targed a chymunedau eraill yn ôl y galw, gan gynnwys ble datblygir rhaglenni tai a tai fforddiadwy.(Cyfle)**
- **Grymuso cymunedau i weithredu cynlluniau i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. (Cyfle)**
- **Cefnogaeth benodol i Fentrau Iaith cymunedoli wireddu eu cynlluniau i hyrwyddo'r Gymraeg . (Cyfle)**
- **Cynyddu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar hyd arfordir de Meirionnydd.(Cyfle)**
- **Hwyluso grwpiau a phwyllgorau cymunedol i gynnal cyfarfodydd yn Gymraeg / dwyieithog. (Cyfle)**
- **Cynnal arbenigedd cynllunio ieithyddol fydd ar gael i gefnogi cymunedau ac i gynnwys materion megis- proffilio ieithyddol, datblygu polisiau iaith, grymuso gweithgareddau cymunedol ieithyddol, gosod targedau, gwerthuso a monitro cynnydd a lledaenu arfer dda. (Gallu)**

MAES STRATEGOL 4 : Darparu Gwasanaethau Cymraeg

Nôd:

Hybu a gwella defnydd ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg ynb lleol

Canlyniad :

Mwy o wasanaethau Cymraeg ar gael i'r cyhoedd.

Mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaethau hynny.

Sylw wedi ei roi i'r Gymraeg mewn trefniadau cydweithio

Y safonau iaith perthnasol yn weithredol

Dangosydd:

- Y defnydd a wneir o wasanaethau penodol sydd ar gael yn y Gymraeg
- Nifer y cyrff sydd yn cydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg

Gosododd Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) ddyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru i drîn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth iddynt ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r dystiolaeth yn brin bod darparu gwasanaethau dwyieithog ac yn y Gymraeg am gynyddu statws a defnydd yr iaith. Ond mae tystiolaeth yn dangos mai dim ond os ceir cyfleoedd i'w defnyddio ymhob agwedd o fywyd y bydd yr iaith yn ffynnu. Mae (Grin 2002) yn nodi bod darparu gwasanaethau yn gyfle o'r fath gyda defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn rhan allweddol o'r ymdrech i annog a hyrwyddo'r iaith.

Cyhoeddwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) yn 2011 .Ymysg nifer o agweddau, mae'r Mesur yn

- swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru rhei statws
- Comisiynydd y Gymraeg sefydlu swydd
- darpariaeth ynglŷn â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg gwneud
- gyflwyno dyletswydd ar ffurf safonau iaith creu trefn o

Mae'r Mesur yn gosod fframwaith ar gyfer rhoi dyletswydd hefyd ar rhai cwmnïau preifat a'r trydydd sector i gydymffurfio â safonau ac yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd orfodi cwmnïau neu sefydliadau i gydymffurfio â'r safon.

Bydd Cynlluniau Iaith Gymraeg gynt yn cael eu disodli dros amser gan y safonau gyda'r bwriad o'i gwneud yn fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg yn ogystal â gosod safon cyson o wasanaethau Cymraeg ar draws sefydliadau.

Mae cyrff perthnasol yn cymryd yn ganiataol erbyn hyn bod dyletswydd arnynt i ddarparu gwasanaethau yn ôl gofynion ieithyddol eu cwsmeriaid. Ond mae mwy o gyflogwyr hefyd yn adnabod bod y gweithle, ble mae pawb yn cael eu trin gydag urddas a parch a ble mae sgiliau yn cael eu gwerthfawrogi, yn creu gweithle hapusach a mwy cynhyrchiol. Bydd yr hawl i allu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddyletswydd ar nifer o gyrff o dan y safonau newydd. Gellir dadleu yn gryf bod y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn rheolaeth a gweinyddiaeth y sefydliad yn creu amgylchedd o barch ble mae'n bosib gwasanaethu'r cwsmer yn well, ond ble mae parch tuag at y Gymraeg a'r hawl i'w ddefnyddio o fewn y sefydliad hefyd yn gallu ymestyn tu hwnt i ffiniau'r sefydliad. Mae sicrhau llwyddiant perthynas ieithyddol pobl â'i gilydd yn y gweithle yn fan cychwyn da ar gyfer cael yr un llwyddiant yn y gymuned ehangach.

Hyd yn oed yn yr hinsawdd ariannol presennol, mae hyn yn neges gall cyrff sydd yn rhan o Hunaniaith efelychu a dangos y ffordd ar gyfer eraill.

Fel corff sydd eisoes wedi gweithredu prosiectau ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, mae Hunaniaith mewn sefyllfa yn lleol i gyfarwyddo'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar faterion y Gymraeg, ar weithredu'r safonau newydd ac ar greu modelau comisiynu fydd yn sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael.

Mae cefnogi a chryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn meysydd addysg bellach ac uwch, iechyd a gofal yn bwysig oherwydd yn y gwasanaethau yma mae unai'n fater o angengan y defnyddiwr neu mae'n allweddol i ddatblygu'r sgiliau ar gyfer creu y gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog l'r dyfodol.

Mae Hunaniaith mewn sefyllfa gref iadeiladu ar ei rôl o weithio mewn partneriaeth i gyd-gynllunio rhaglenni fydd yn hyrwyddo sgiliau dwyieithog, megis yr Academi Sgiliau, i gynnig rhaglenni codi hyder ymysg cyflogwyr, rheolwyr a staff ynghyd ag ymgyrchoedd i hyrwyddo'r cyhoedd i ofyn am wasanaethau Cymraeg.

Gweithrediad Strategol

- **Bod cyrff sydd yn rhan o Hunaniaith yn gweithredu tuag at y Safonau Gwasanaethau ac yn cynllunio arfer dda ar y cyd. (Cyfle)**

- **Cytuno amodau partneriaeth ar gyfer fframwaith sydd yn diffinio defnydd o'r Gymraeg wrth osod contractau a dyfarnu grantiau ymysg cyrff cyhoeddus a gwirfoddol.(Gallu)**
- **Datblygu arweiniad fydd ar gael i gyflogwyr(ac yn arbennig cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol) ar ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Hyn i gynnwys recriwtio staff a rheolwyr uwch sydd yn ddwyieithog,difinio anghenion dwyieithog wahanol lefelau swyddi, paratoi dogfennau dwyieithog, cyfieithu ar y pryd a hyfforddiant staff a rheolwyr.(Gallu)**
- **Cydweithio i hybu gwerth y Gymraeg ymysg cyflogwyr a'u rheolwyr.(Awydd)**
- **Adnabod swyddi ble mae prinder staff dwyieithog gyda'r cyrff sydd yn rhan o Hunaniaith ac yna codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd a phobl ifanc am y gofynion.(Cyfle)**

MAES STRATEGOL 5: Y Gweithle

Nôd :

Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Y Canlyniad

Mwy yn defnyddio'r Gymraeg yn y man gwaith

Dangosydd:

Canran staff partneriaid Hunaniaith sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Yn ôl ar y Fframwaith Cysyniadol, un o'r manau ble gellir defnyddio'r Gymraeg am amser sylweddol o'r dydd yw'r man gwaith. Mae hyn yn creu'r cyfle i'r unigolynfeithrin hyder a defnyddio'r Gymraeg ar y nail llaw, ac ar y llaw arall, mae'n creu cyfleoedd i'r cyflogwr ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Yng Ngwynedd mae statws y Gymraeg o fewn y gweithle yn bwysig fel dilyniant i ddarpariaeth addysg.

Ystyrir Polisi Iaith Cyngor Gwynedd ynarloesol yn sgil ei ymrwymiad i weinyddiaeth fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn creu'r cyfle i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn un o feysydd allweddol bywyd pob dydd.

Er mai cymharol brin yw'r dystiolaeth yn y maes yma, gwyddwn, o ymchwil ansoddol diweddar, fod ffactorau amlwg yn dylanwadu ar ddefnydd o'r Saesneg yn y gweithle:-

- Diffyg gallu yn y Gymraeg ac yng Ngwynedd hefyd diffyg hyder ymysg pobl gan feddwl bod eu Cymraeg "ddim digon da"
- Diwylliant y sefydliad yn unai hwyluso neu atal defnydd o'r Gymraeg
- Cefnogaeth rheolwyr i'w staff

Yn ôl arolygon Byw yng Nghymru 2004-2006, o'r ymatebwyr a oedd yn gallu siarad Cymraeg ac a oedd mewn swydd gyflogedig, dywedodd 52% bod eu cyflogwyr yn cefnogi'r Gymraeg.

Yng Ngwynedd, mae Arolwg Panel Trigolion ar fin gael ei gwblhau yn ymwneud gyda defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd. Bydd modd cael dadansoddiad o farn o Rhagfyr 2013.

Roedd cyrff a holwyd mewn ymchwiliad Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2010 yn nodi bod bwloch sgiliau a diffyg hyder ymysg y cyhoedd yn un o brif rwystrau ac yn atal staff rhag defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae adolygiad Cynllun Brocer Iaith Pablig, Caernarfon yn mynd cam ymhellach ac yn awgrymu bod gwahanol lefelau o sgiliau ieithyddol ymysg y boblogaeth yn rhwystro pobl rhag ymgeisio am swyddi yn y lle cyntaf. Hynny yw, ofn yn gyffredinol nad yw eu Cymraeg “ddigon da”.

Gweithrediad Strategol

- **Cynyddu gwybodaeth am sgiliau ieithyddol staff ac ymrwymiad staff tuag at y Gymraeg o fewn y cyrff sydd yn cydweithio gyda Hunaniaith(Cyfle)**
- **Cynyddu dealltwriaeth y sector fusnes / sector breifat am werth y Gymraeg o fewn busnes yng Ngwynedd a chydabyddiaeth fod y Gymraeg yn sgil yn y gweithle.(Cyfle)**
- **Cynyddu sgiliau Cymraeg ac ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr lleol. (Gallu)**
- **Cynyddu ymwybyddiaeth ymysgy rhai sydd yn gyfrifol am swyddi a chyflogaeth am bwysigrwydd y Gymraeg fel sgil allweddol wrth recriwtio. (Awydd)**
- **Galluogi staff cyfundrefnau i weithredu’r hawl i ddefnyddio’r Gymraeg o fewn y man gwaith.**
- **Cynllun Marchnad Lafur**

MAES STRATEGOL 6 : Y Seilwaith

Nôd

Cyrff a gwasanaethau yn cydweithio i integreiddio'r Gymraeg i mewn i bolisiau a gweithgareddau

Canlyniad:

Y Gymraeg wedi ei integreiddio i gynlluniau tai, economaidd ac adfywio.

Dangosydd:

Nifer y cynlluniau economaidd ac adfywio sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg

Nifer y cynlluniau tai sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg

Un o'r negeseuon a ddaeth yn gyson o drafodaethau gydag unigolion proffesiynol a chynrychiolwyr cymunedau wrth lunio'r Strategaeth, oedd y pwysigrwydd a'r berthynas rhwng yr economi, tai a'r iaith Gymraeg.

Mae gan y Llywodraeth, trwy ei gynlluniau strwythurol economaidd a thai, rôl adeiladol ac allweddol i'w chwarae i hyrwyddo'r Gymraeg a prif-ffrydio'r iaith igynlluniau cenedlaethol. Gwan oedd yr ystyriaeth i faterion ieithyddol yn rhaglenni Amcan 1 a Chydgyfeiriant. Yng Ngwynedd mae sawl cynllun wedi ei ddatblygu yn bwrpasol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg. Gweler rhagor o fanylion yn yr atodiad gwybodaeth.

Mae pryder cymunedol hefyd ar ddylanwad posib gor-ddatblygu ac mae hyn wedi ei amlygu yng Ngwynedd o fewn ardaloedd Bangor a Bethesda yn ddiweddar.

Mae problemau cyson fforddadwyedd gyda phrisiau cyfartalog tai y tu hwnt i allu pobl leol i'w fforddio. Mae prisiau tai yng Ngwynedd ar gyfartaledd 5.7 gwaith yn fwy na'r cyflog cyfartalog gyda phrisiau tai y siroedd gwledig o leiaf 10% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn yn cydweithio ar ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fel rhan o'r gofyn ar bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r broses yn uniongyrchol yn ymdrin â materion cynllunio yn ogystal â materion anuniongyrchol megis yr iaith Gymraeg.

Mae'r cyd-destun polisi yn nodi elfennau cymunedau cynaliadwy : "bod ein dyfodol yn dibynnu ar fywiogrwydd ein cymunedau fel lleoedd deiniadol i fyw a gweithio ynddynt".

Cydnabyddir bod rhaid i “adfywio fod yn ystyriol o gymeriad hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol cymunedau”. (Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2013)

Mae gan Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd 2014-17 rôl i'w chwarae drwy ychwanegu at a chryfhau'r sail tystiolaeth, gan hefyd weithredu'n arloesol trwy weithio gyda chynllunwyr, cymunedau a datblygwyr i broffilio cymunedau targed yn fanwl iawn o ran yr iaith a gweithgareddau diwylliannol a chymunedol, ac yna helpu i ddatblygu ymatebion fydd yn hyrwyddo'r Gymraeg

Yn ystod mis Hydref a Tachwedd 2013, cynhaliwyd arolwg tai gan Gyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Gwnaethpwyd yr arolwg trwy holiadur preswylwyr gyda'r bwriad o gael gwybodaeth fanwl am dai yr ardal ac ar y Gymraeg gan ystyried effaith posib datblygiadau newydd ar yr iaith Gymraeg a chymunedau Cymreig. Bydd dadansoddiad o'r wybodaeth yma ar gael yn gynnar yn 2014 ac ar gael i lywio rhaglenni gwaith prethnasol hefyd.

Gweithrediad Strategol

- **Bod trefniadau cyson a safonol mewn lle i asesu effaith ieithyddol penderfyniadau cynllunio a thai ac i osod mesurau lliniaru. (Cyfle)**
- **Sicrhau proffil iaith a phroffil cymunedol manwl ar gyfer pob cais i ddatblygu tai marchnad agored, tai cymdeithasol a thai fforddiadwy ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio.(Cyfle)**
- **Gweithio gyda'r Tim Cynllunio i ddatblygu methodoleg cyson ar gyfer proffilio ieithyddol a proffilio gweithgareddau cymunedol a sefydlu canllaw cyson ar gyfer mesurau lliniaru.(Cyfle)**
- **Llunio proffil manwl ar sail systematig a chyson ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio fel gwybodaeth cyson ac annibynnol wrth dderbyn ceisiadau i adeiladu tai.(Cyfle)**
- **Grymuso cymunedau i'w galluogi i gyflwyno barn ar gynlluniai tai gyda datblygwyr(Gallu)**
- **Sicrhau ystyriaeth o'r Gymraeg fel rhan o gynlluniau economaidd ac adfywio.(Cyfle)**

ATODIAD 1: Data Gefndirol

Isod ceir rhagor o fanylion ar gyfer Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-17

1.Y Proffil demograffeg

Y Darlun Cenedlaethol

1.1. Mae Cyfrifiad 2011 erbyn hyn yn rhoi darlun mwy cyfredol ini ac yn caniatáu cymhariaeth rhwng 1999, 2001 a 2011. Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 fod 19% o boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg (562,000 o bobl). Er yn parhau'n uwch na'r ffigur a nodwyd yng Nghyfrifiad 1991 (18.7 y cant a 508,100 o bobl), roedd y canlyniadau'n dangos gostyngiad ers Cyfrifiad 2001 (20.8 y cant a 582,400 o bobl).

1.2. Mae hyn yn ostyngiad o 20,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith ar gyfer datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer Iaith Fyw: Iaith Byw, casglodd Llywodraeth Cymru bod rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl yn cael eu colli bob blwyddyn ar hyn o bryd a hynny'n bennaf yn sgil y gwahaniaeth rhwng nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n allfudo o Gymru a'r nifer sy'n mewnfudo.

1.3. Gwelwyd gostyngiad yn niferoedd siaradwyr Cymraeg mewn 18 o'r 22 awdurdod lleol ar draws Cymru, gyda chynnydd yng Nghaerdydd, Caerffili, Sir Fynwy a Bro Morgannwg yn unig. Gwelodd awdurdodau lleol gorllewin Cymru, Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe a Chastell-Nedd Port Talbot oll ostyngiad yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg.

1.4. Gwelwyd cynnydd mewn un grwp oedran pwysig gyda mwy o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg yng Nghymru yn 2011 o'i gymharu â 2001, sy'n awgrymu y gallai Mudiad Meithrin a TWF yn ogystal âthwf addysg Gymraeg dros y degawd diwethaf fod yn ffactor dylanwadol arddewisiadau ieithyddol rhieni ar draws Cymru. Mae'n bosib hefyd fod y cynnydd a welwyd yn y gyfradd drosglwyddo mewn teuluoedd lle roedd un o'r ddau riant yn gallu siarad Cymraeg o 40% yn 2001 i 45% yn 2011 yn adlewyrchu'r cynnydd hynny yn niferoedd y plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg.

1.5. Fel y nodwyd, mae data Cyfrifiad 2011 yn dangos gostyngiad yn niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yn siroedd y gorllewin.

Newid yn y ganran yn gallu siarad Cymraeg

Awdurdod lleol	% yn gallu siarad Cymraeg 2001	% yn gllu siarad Cymraeg 2011	Newid (%)
Gwynedd	69.0	65.4	-3.6
Ynys Môn	60.1	57.2	-2.9
Ceredigion	52.0	47.3	-4.7
Sir Gaerfyrddin	50.3	43.9	-6.4

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

1.6..Mae mewnfudo yn ffactor allweddol i sefyllfa'r Gymraeg yn y cymunedau hynny ble mae canrannau uwch o siaradwyr Cymraeg. Gwelwyd twf o 153,000 ym mhoblogaeth Cymru rhwng 2001 a 2011 a gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r twf i bobl sy'n symud i mewn i Gymru. Gwelodd Sir Gaerfyrddin gynnydd o 6% (10,300), Conwy gynnydd o 5% (5,700), Gwynedd gynnydd o 4% (4,700), Ynys Môn gynnydd o 3% (2,100) a Cheredigion fawr o newid

1.7.Dros Gymru cafodd y gostyngiad mewn niferoedd plant effaith ar y ganran o siaradwyr Cymraeg hefyd ac mae gan hyn oblygiadau o ran y potensial i drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu ac i'r dyfodol. Gwelwyd gostyngiad o 5% yn nifer y plant 5-15 oed yng Nghymru rhwng 2001-2011, ond roedd y gostyngiad dipyn uwch yng Ngheredigion (13%), Ynys Môn (10%) a Gwynedd (8%).Mae oblygiadau hefyd os yw niferoedd y grwpiau oedran iau yn gostwng a'r rhain yw'r canrannau uchaf o siaradwyr.

Y Darlun yng Ngwynedd

1.8. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o fywyd bob dydd yng Ngwynedd ac yn yr ardal hon ceir y ganran uchaf o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yng Nghymru gyfan. Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 65.4% o bobl oed 3 a throsodd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd. Mae amrywiaeth eang iawn yn y nifer o bobl sydd yn gallu siarad Cymraeg ar draws y Sir, gyda'r canrannau uchaf yn huanu o ardaloedd Llanrug (87.8%) a Peblig yng Nghaernarfon (87.4%). Mae'r canrannau yn gostwng wedyn wrth fynd i gyfeiriad Bangor (36.4%) a'r ardaloedd arfordirol, yn enwedig ar hyd arfordir Meirionnydd, gyda 35.5% o siaradwyr Cymraeg yn byw yn Aberdyfi.

1.9. Mae Gwynedd wrth gwrs yn parhau gyda'r ganran uchaf o bobl sy'n medru siarad Cymraeg drwy Gymru; sef 65.4%.


Sgiliau yn yr iaith Gymraeg (2011)

	Poblogaeth dros dair blwydd oed	Siarad Cymraeg Ond nid yn ei ddarllen na'i sgwennu	Siarad a darllen Cymraeg ond nid yn ei sgwennu	Siarad darllen ac ysgrifennu Cymraeg	Cyfuniad arall o sgiliau	Dim gwybodaeth o'r Gymraeg
		%	%	%	%	%
Gwynedd	117,789	5.8	3.4	5.6	1.51	26.5
Cymru	2,955,841	2.7	1.5	14.6	2.5	73.3

Yng Ngwynedd, credir bod oddeutu 83% o siaradwyr Cymraeg y sir yn rhugl- y ganran uchaf o holl siroedd Cymru. Dengys Arolygon Defnydd Iaith 2004-2006, Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod 90% o siaradwyr rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd; eto y ganran uchaf o holl siroedd Cymru.

Mae'r cyfran o siaradwyr Cymraeg yn amrywio cryn dipyn o fewn y Sir. Mae siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli o leiaf 30% o'r boblogaeth barhaol ymhob ward heblaw dau yng Ngwynedd. Yr eithriad yw ward Menai (18.6%) a Deiniol (22.8%) ym Mangor. Ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghaernarfon a'r cyffiniau.

% siaradwyr Cymraeg yn ôl wardiau Gwynedd (2011)




1.10. Yn ogystal â hyn, rhwng 1991 a 2011, bu gostyngiad yn nifer y wardiau yng Ngwynedd gyda dros 70% o'r boblogaeth yn medru siarad Cymraeg, o 61 ward yn 1991, i 41 ward yn 2001 ac yna i 40 yn 2011. Mae'r ffigwr isod yn cymharu'r newidiadau a welwyd yn wardiau unigol y Sir rhwng 2001 a 2011.

Gwelir bod y cyfran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng mewn sawl ardal rhwng 2001 a 2011, yn enwedig yn ardal Bangor ac ardaloedd eang ar hyd afordir Meirionnydd. Yn ardal Bangor gwelwyd gostyngiadau yn Deiniol (-24.8%) Garth (-33.4%), Hirael (-27.2%) Menai Bangor (-31.8%) Gwelwyd gostyngiadau arwyddocaol eraill yn wardiau Gorllewin Porthmadog (-11.3%), Abersoch (-12.4%) ac Aberdyfi (-14.5%) Fe welodd nifer o ardaloedd gynnydd yng nghanran siaradwyr Cymraeg megis Clynog (10.2%), Waunfawr (5.5%) ac Arllechwedd (3.7%) Mae'n bwysig gallu adnabod os oedd ffactorau yn dylanwadu yn allweddol ar y cynnydd hefyd.

1.11.

% newid yn y boblogaeth tair blwydd oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg, 2011-2011



(Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon:Mai 2013 Papur Testun)

Siaradwyr Cymraeg fesul grŵp oed

Oed	1991 (%)	2001 (%)	2011 (%)
3-4	72.8	70.9	
5-15	90.6	91.8	
16-24	79.0	67	
25-39	69	71.2	
40-59	65.8	62.3	
60+	67.4	62.8	

Ffynhonnell: Cyfrifiad

1.12. Fel y gwelir yn y tabl uchod, mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg Gwynedd yn y grwpiau oedran 5-15 oed. Gwelwyd hefyd gynnydd bychan yn y canrannau sydd yn gallu siarad Cymraeg yn yr oedran 25-39. Mae hyn i'w groesawu o ystyried mai'r grŵp oedran yma sydd hefyd yn fwyaf tebygol o fagu plant. Lleolir dwysedd siaradwyr Cymraeg y grŵp oedran yma yn Ne Arfon, ym Mhen Llŷn ac ym Meirionnydd wledig.

1.13. Gweler hefyd fod gostyngiad sylweddol wedi digwydd yng nghanran y boblogaeth dros 60 mlwydd oed sydd yn siaradwyr Cymraeg. Awgryma hyn fod patrwm o fewnfudo o bobl hŷn di-Gymraeg wedi digwydd yn y Sir.


Mae'r data uchod i gyd yn arwyddocaol gofio newid strwythur oedran y boblogaeth hefyd yng Ngwynedd.

Poblogaeth Gwynedd yn ôl Cyfrifiad 2011: 121, 523
Cynnydd yn y boblogaeth o 4.0% rhwng 2001-2011 (sef 4,679)
Gwasgariad poblogaeth: 17.7% Trefol, 82.3% Gwledig (2004)
Newid poblogaeth rhwng 2001-2011: 0-15 (-7.7%) 16-64 (+4.6%) dros 65 (+13.9%)

1.14. Rhwng 1998 a 2011 mae mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag yn symud allan. Yn gyffredinol, gweler lleihad net ar sail mudo yn y bobl yn eu hugeiniau, tra bod cynnydd net yn y boblogaeth o fewn grwpiau 50-59. Gyda lleihad net oedran 25-44 a cynnydd net 45-64.

Dengys y map isod y wardiau hynny o fewn y chwarterel isaf o ran cyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn ogystal a bod o fewn y chwarterel uchaf o ran cyfran y boblogaeth sydd yn fewnfudwyr.

Wardiau yng Ngwynedd sydd o fewn y chwarterel isaf o ran cyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn ogystal a bod o fewn y chwarterel uchaf o ran cyfran y boblogaeth sydd yn fewnfudwyr (2010)



© Hawthraint y Goron. Cyngor Gwynedd. Tirwydded Rhif 1 00023387 - 2010
© Crown Copyright. Gwynedd Council. Licence Number 100023387 - 2010

Uned Polisi a Pherfformiad, Adran Rheoleiddo - Cyngor Gwynedd
Policy and Performance Unit, Regulatory Department - Gwynedd Council


1:500,000

1.15. Mae oedran yn ffactor allweddol o safbwynt ymfudo i Gymru. Dengys Arolygon Defnydd Iaith, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, o'r mewnfudwyr o dan 11 oed i Gymru, roedd 33% yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Roedd hyn yn cymharu â 14% o'r siaradwyr oedd yn 11 oed neu'n hŷn wrth iddynt ymfudo i Gymru.

Roedd Strategaeth 2010-2013 yn cydnabod bod Gwynedd yn Sir sydd wedi profi mewnfudo ar raddfa uchel a chyson ac mae hyn yn parhau yn batrwm wedi ei hen sefydlu mewn nifer o ardaloedd. Mae angen parhau i ofyn y cwestiwn faint mor dda ydym i lwyddo i integreiddio'r ail a'r drydedd genhedlaeth o fewnfudwyr i'r ardal.

Ond ymhellach i hyn, mae colled mewn siaradwyr Cymraeg gyda'r neges nad yw teuluoedd, plant a phobl ifanc pob amser yn dewis i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu bywydau pob dydd.

1.16. Mae allfudo o'r Sir ar ei fwyaf amlwg yn yr oedran 0-19. Dengys y map isod fod gostyngiad mawr wedi digwydd mewn nifer o ardaloedd yn enwedig rhai ardaloedd gwledig ac arfordirol Pen Llŷn a Meirionnydd.



Newid % yn y boblogaeth 0-19 mlwydd oed, 2001-2010

1.17. Er bod y boblogaeth rhwng 20-34 wedi cynyddu 2.4% rhwng 2001-2010 mae gostyngiad wedi digwydd mewn rhannau helaeth o Wynedd ac yn enwedig ardaloedd gwledig ac arfordirol ym Mhen Llŷn e.e. Botwnnog (-22%), Abersoch(-36.5%), Abererch (-24.4%). Mae hyn mae'n debyg yn dangos allfudo oherwydd prinder gwaith a tai fforddiadwy ac yn cadarnhau beth ddywedwyd yn gynharach bod perthynas allweddol rhwng tai, iaith a gwaith gydag angen trefniadau cadarn ar gyfer y seilwaith ynghlwm ag unrhyw Strategaeth Iaith.

Atodiad 2.Gwybodaeth Thematig

1. Iaith o fewn y Teulu

1.1. Mae Strategaeth Iaith Gymraeg y Llywodraeth, *Iaith Fyw: Iaith byw* yn nodi pwysigrwydd teuluoedd mewn cynllunio ieithyddol ac yn ogystal ac addysg gwelir bod trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r nesaf yn allweddol ar gyfer sicrhau ffyniant y Gymraeg.

Yn ôl adroddiad: "Cynyddu nifer y Cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith", *Llywodraeth Cymru*, gall proffil iaith y gymuned a statws iaith o fewn y gymuned fod yn ffactorau pwysigwrth drosglwyddo iaith o fewn yr ardaloedd. Awgryma canfyddiadau adroddiad *Asesiad Effaith: Twf ac Ymlaen* gan Brifysgol Bangor fod cyswllt rhwng y ddau ffactor yma a'r tebygolrwydd y bydd rhieni yn dangos awydd i drosglwyddo'r iaith.

1.2. Mewn gwaith ymchwil gan Dr Kathryn Jones a Dr Delyth Morris am deuluoedd yng Ngwynedd, Sir Ddinbych a Sir Gaerfyrddin 2004-2005, casglwyd bod pum prif ddylanwad i'w hystyried prif ddylanwad i'w hystyried o ran trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, sef:

- ansawdd y berthynas rhwng rhiant a plentyn
- ymwneud y tadau a'r mamau
- y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd
- rol a dylanwad y teulu estynedig
- gwerthoedd ieithyddol y rhieni a'r berthynas sydd rhynddynt

Mae hefyd yn wir o'r dystiolaeth bod unigolion yn dueddol o ddefnyddio'r iaith y maent fwyaf cyfarwydd â hi, neu'r iaith y maent yn siarad â'u partner.

1.3. Mae'r tablau isod yn egluro'r sefyllfa teuluoedd gyda plant 3-4 oed a'u cymharu gyda'r siroedd uchaf eraill:

Tabl 1 Canran y plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg mewn aelwydydd un teulu, siroedd y canrannau uchaf (2001)

Sir	Teulu cwpl 2+ oedolyn yn siarad Cymraeg	Teulu cwpl, 1 oedolyn yn siarad Cymraeg	Teulu un rhiant, o leiaf 1 oedolyn yn siarad Cymraeg	Dim oedolyn yn siarad Cymraeg	Cyfanswm
Ynys Môn	79	49	70	18	55
Gwynedd	90	56	74	35	72
Ceredigion	88	53	66	28	56

Sir Gaerfyrddin	85	48	61	16	42
------------------------	----	----	----	----	----

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001

Tabl 2: Canran y plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg mewn aelwydydd un teulu, siroedd y canrannau uchaf (2011)

Sir	Teulu cwpl 2+ oedolyn yn siarad Cymraeg	Teulu cwpl, 1 oedolyn yn siarad Cymraeg	Teulu un rhiant, o leiaf 1 oedolyn yn siarad Cymraeg	Dim oedolyn yn siarad Cymraeg	Cyfanswm
Ynys Môn	80	47	61	22	54
Gwynedd	90	63	82	35	74
Ceredigion	83	59	63	34	59
Sir Gaerfyrddin	85	57	56	25	46

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r nifer y plant sy'n siarad Cymraeg mewn teuluoedd heb oedolyn sy'n siarad Cymraeg yn gyffredinol wedi cynyddu ar draws yr awdurdodau lleol ond yng Ngwynedd mae wedi aros yn sefydlog.

1.4. Mae prosiect Twf yn un o'r prif ymyriadau sy'n ceisio dylanwadu o fewn maes trosglwyddo'r iaith yn y teulu. Mae'r rhaglen yn rhoi cyngor a chefnogaeth i famau beichiog, mamau newydd a'u teuluoedd ynglŷn â manteision dwyieithrwydd a defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd. Yng Ngwynedd mae 3 swyddog TWF rhan amser yn gweithio ar draws y Sir.

1.5. Mewn rhai ardaloedd De-orllewin sefydlwyd prosiect "*Mae dy Gymraeg di'n grêt*" ar gyfer codi hyder a chynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ymhlith rhieni isel eu hyder yn y Gymraeg ac ddim yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant nac yn gymdeithasol. Roedd adroddiadau gwerthuso'r prosiect yn dangos bod cynnal sesiynau o'r fath yn llwyddo i newid arferion iaith mynychwyr erbyn diwedd y cyfnod gyda cynnydd o 90% yn y defnydd o'r Gymraeg ymysg mynychwyr a'u plant.

1.6. Lanswyd cwrs Cymraeg i'r Teulu yn 2012, sef cwrs wedi ei gynllunio i sicrhau bod rhieni ar lefel Mynediad yn dysgu iaith addas ac yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant o'r dechrau. Mae perthynas agos nawr yng Ngwynedd rhwng y Canolfannau Cymraeg i Oedolion ym Mangor ac Aberystwyth a'r cyrsiau yma gyda'r gwaith Siartr Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd.

1.7. Mae Mudiad Meithrin yn allwedd pwysig iawn yn y maes yma ac yng Ngwynedd gyda cylchoedd meithrin ar draws y Sir yn cynnig gofal ac addysg sesiynol dyddiol i blant 2 i 5 oed. Rhoddir y cyfle i blant ddysgu drwy chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cylchoedd meithrin ac maent yn cynnal hefyd cylchoedd Ti a Fi yn sirol. O ran ffigyrau "Gwynedd Ni" nodwyd bod 53 o Gylchoedd Ti a Fi ar draws y Sir

a dwy ganolfan integredig s'yn cefnogi 'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, sef yng Nghaernarfon a Blaenau Ffestiniog

2. Maes Addysg

2.1. Mae Polisi Addysg Gwynedd yn gadarn iawn ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg a dwyieithrwydd o fewn yr ysgolion gyda Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2013-14 yn nodi "... Polisi Iaith yr Adran Addysg yn gosod y nôd uchelgeisiol o sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni". Polisi'r Awdurdod (ac eithrio dwy ysgol) yw cynnig lle meithrin rhan amser i blant yn eu hysgol dalgylch o'r Medi yn dilyn eupenblwydd yn dair oed. Rhydd yr Awdurdod grant i 73 lleoliad yn y sector nas cynhelir i ddarparu addysg feithrin i blant 3 oed.

2.2. Mae nifer y disgyblion yng Ngwynedd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn iy mesurydd isod wedi disgyn yng Ngwynedd OND mae hyn yn deillio o'r ffaith bod lleihad yn nifer y plant o fewn y Sir. Mae hyn yn ffactor pwysig i nodi wrth edrych ar y dirywiad mewn siaradwyr Cymraeg o fewn y sir: lleihad mewn niferoedd plant, marwolaethau a mewnfudwyr di-Gymraeg. Serch hynny, mae'r canran wedi cynyddu.

Tabl : Nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg

	2002 (Nifer)	2012 (Nifer)	2002- 2012 (Nifer)		2002 (%)	2012 (%)	2002- 2012 (%)
Gwynedd	1249	1181	-68		93.2	98.4	5.2
Ynys Môn	570	510	-60		77.6	75.2	-2.3
Conwy	262	251	-11		21.5	23.7	2.3

2.3. Mae astudiaethau hefyd yn dangos ble mae plant yn cael eu hasesu mewn Cymraeg Iaith Gyntaf maent yn dal i ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg ddeng mlynedd yn ddiweddar. Mae hyn yn neges bwysig i ysgolion wrth iddynt ddylanwadu ar rieni a phlant am y cyfrwng Cymraeg i'w astudio. Mae dilyniant ieithyddol o ran cynllunio addysg Cymraeg yn bwysig a diffinnir hyn fel "parhau l astudio Cymraeg Iaith Gyntaf a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg". Mae hyn yn flaenoriaeth genedlaethol ac yn rhan o Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol ceir nifer disgyblion eu colli yn ieithyddol wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd ond hefyd wrth fynd i fyny'r ystod oedran ac i addysg bellach ac uwch. Mae hyn hefyd yn ystyriaeth o ramn trefi prifysgol/ysbytai gan amlygu ei hyn ym Mangor yng Ngwynedd. Mae hyn yn ffactor sydd yn cael sylw manwl gan Awdurdod Addysg Gwynedd gyda sawl menter mewn lle erbyn hyn i edrych ar addysg cynradd ac uwchradd y cylch.

2.4. Fel rhan o raglen Gwynedd hefyd, mae canolfannau hwyrddyfodiaid yn darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas

ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae pedair canolfan gynradd yng Nghaernarfon, Llanybi, Dolgellau a Phenrhyndeudraeth a chanolfan uwchradd ym Mhorthmadog. Rhwng 2005 a Hydref 2012 mae 1,056 o ddisgyblion cynradd a 358 o ddisgyblion uwchradd wedi elwa o'r canolfannau iaith. Drwy cydweithio â Hunaniaith a chyllid Bwrdd yr Iaith, datblygwyd prosiect *Byw yng Nghymru* ar gyfer Cymhathu Rhieni. Mae gwerthusiad o'r cynllun wedi dangos ei lwyddiant gyda dymuniad a'r angen i'w ymestyn i holl ysgolion perthnasol.

2.5. Drwy gefnogaeth Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd llwyddwyd i greu swydd newydd i ymestyn rhaglen y Siatr Iaith yn y sector cynradd. Drwy gynllun strategol y Cyngor mae gwaith wedi cychwyn i osod gwaelodlin o ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg yn yr Ysgolion Uwchradd. Mae'n glir o'r dystiolaeth bod rhain yn feysydd allweddol i'w cefnogi.

2.6. O fewn y maes galwedigaethol ac addysg bellach mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu rhaglen **Sgiliaith**. Mae wedi bod yn weithredol yng Ngwynedd ers 2010 ac mae nawr wedi cael ei ymestyn am 3 blynedd arall. Mae'n cefnogi rhai mewn addysg bellach 14-19 oed yn ogystal â rhai sydd yn gwneud hyfforddiant galwedigaethol o fewn y gweithle. Bwriad y rhaglen yw hyfforddi staff i allu dysgu yn ddwyieithog, codi hyder staff a sicrhau bod adnoddau Cymraeg yn cael eu datblygu. Mae hwyluswyr iaith ymhob coleg addysg bellach yn gweithio yn agos gydag ysgolion a cyflogwyr. Mae nifer o elfennau i'r rhaglen gan gynnwys pecynnau ymwybyddiaeth iaith, pecynnau i ddarbwylllo myfyrwyr i ddilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ôl swyddog cenedlaethol mae'r pecynnau yma yn addas i'w trosglwyddo i'r man gwaith.

Yn ôl swyddogion Sgiliaith mae sawl ffactor yn parhau i greu rhwystrau ond yn arbennig nodwyd bod angen ymgyrch ar y cyd i godi ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr o'r fantais o gael gweithlu sydd yn ddwyieithog a'r fantais yng Ngwynedd i'r cwsmer o gael darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.7. Yn 2008, comisiynwyd *Asesiad Ardrawiad Ieithyddol Cynllun Ad-drefnu Ysgolion Cynradd Gwynedd* ac ynddo rhoddwyd manylion am yr iaith a ddefnyddir yn holl ysgolion cynradd Gwynedd a thu hwnt i wersi ffurfiol. Mae'r wybodaeth i raddau yn helaeth yn adlewyrchu proffil ieithyddol y Sir. I ategu at y darlun yma, derbyniwyd sylwadau gan bobl ifanc yn y broses ymgynghori ar Gynllun Gweithredu Drafft Strategaeth Iaith Gwynedd 2010-2013 oedd yn amlygu mai cyfrwng addysg yn unig oedd y Gymraeg mewn rhai ardaloedd o Wynedd; yn arbennig mewn rhai ardaloedd ym Meirionnydd ac nad oedd cyfleoedd cymdeithasol digonol i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol gyda ffrindiau. Ategwyd hyn mewn ardaloedd fel Dolgellau yn ystod 2013 pan gynhaliwyd gwaith ymgynghorol i broffilio anghenion ieithyddol yr ardal. Yn Nolgellau, roedd pobl ifanc yn dweud bod dwy gymuned ieithyddol ar wahân yno, gydag ychydig iawn o gyfleon i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg heb deithio tu allan i'r ardal.

2.8. Wrth ystyried astudiaethau ar y Gataleg a'r Fasgeg dangoswyd bod cynhwysedd iaith, oherwydd addysg, wedi gwella ymysg y glasoed ond dim o reidrwydd mewn defnydd cymdeithasol. Mae canlyniadau tebyg yng Nghymru (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2005) ble dangoswyd nad oedd dymuniad rhieni di-Gymraeg i'w plant ddysgu Cymraeg drwy'r system addysg o reidrwydd wedi arwain at gynnydd mewn defnydd cymdeithasol. Rhaid i'r iaith gael ei chefnogi yn y cartref a thrwy opsiynau cymdeithasol a diwylliannol ehangach.

2.9. Yn ystod y broses ymgynghori ar *Gynllun Drafft Strategaeth Iaith Gwynedd 2010-13*, amlygwyd fod tensiynau cymdeithasol yn bodoli ymysg yr ifanc rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg, a bod iaith y cylch cyfeillion yn factor allweddol o ran defnydd iaith. Yn wir, gall agweddau cyfoedion at ddefnydd iaith greu gwrthbwynt i agweddau cyffredinol y gymdeithas yn ogystal â'u cadarnhau, yn enwedig yn yr ardegau.

Mae S4C newydd gomisiynu Sbectrwm i gynnal sesiynau barn gyda rhai ysgolion uwchradd ar draws Cymru. Gyda'r hwylusydd, mae arwyr cenedlaethol yn mynychu i rannu eu profiadau hwythau wrth iddynt dyfu fyny. Mae'r sesiynau hefyd yn canfod barn ar arlwy S4C. Bwriad y sesiynau yw canfod barn pobl ifanc y chweched dosbarth am y pethau sydd yn eu pryderu neu yn eu rhwystro hefyd. Ymysg y materion sydd yn ymwneud gyda bywydau pobl ifanc a'u barn am S4C a'i raglenni, mae'n ymddangos bod yr iaith Gymraeg yn codi yn aml iawn ac yn creu rhwyg barn mewn rhai ardaloedd ymysg yr ifanc, gyda pobl ifanc unai yn brwydro yn gadarn i hyrwyddo'r Gymraeg, neu'n ei gweld yn eu dal yn ôl yn eu datblygiad ysgol.

Amlygwyd hefyd yr angen igefnogi cadarnleoedd yr iaith Gymraeg gan fod cymunedau traddodiadaol Cymraeg yn wynebu anawsterau i sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn goroesi. Un elfen amlygwyd oedd yr angen i feithrin sgiliau arwain ymysg pobl ifanc Cymraeg eu hiaith. Gwelwyd enghreifftiau effeithiol iawn o hyn mewn rhai ardaloedd megis Blaenau Ffestiniog

2.10. Yn ystod gwaith ymgynghori a thrafod ar y Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-17, un o'r brif negesuon sydd wedi codi dro ar ôl tro yw'r angen i godi hyder pobl yn eu sgiliau ieithyddol a defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn ategu ac yn cadarnhau'r hyn ddywedwyd yn ystod cyfnod ymgynghori 2010-13 pan ddywedwyd bod angen meithrin hyfedredd a hyder plant a phobl ifanc a rhoi llai o bwyslais ar ddysgu iaith ffurfiol a mwy ar sicrhau fod plant a phobl ifanc yn siarad â'u gilydd tu hwnt i wersi ffurfiol. Mae angen creu yr awydd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth siarad wyneb yn wyneb ond hefyd wrth ddefnyddio rhyngweithiau technoleg cymdeithasolac yn y blaen.

Comisiynwyd gwaith ymchwil cychwynnol i ganolbwyntio'n benodol ar agweddau plant tuag at y Gymraeg. Nodwyd fod defnydd o'r iaith ac agweddau tuag at yr iaith-boed yn gadarnhaol neu negyddol- yn cael eu sefydlu o oedran cynnar iawn, a bod yr agweddau hyn wedi eu sefydlu'n gadarn erbyn i'r plant gyrraedd tua saith oed.

3. Mentrau Cymunedol yng Ngwynedd

3.1. Er sefyllfa fregus y Gymraeg, mae'n bwysig nodi yng Ngwynedd bod llawer o weithgareddau Cymraeg yn digwydd led led y Sir; yn gryfach werth gwrs mewn rhai ardaloedd nac eraill. Mae gweithgarwch cymdeithasol a diwylliannol a'r gwerth a roddir i gymunedau dearyddol draddodiadol yn bwysig ac mae angen cadarnhau y cyfoeth sydd mewn perthyn i fro cymdeithasol / ddiwylliannol Cymraeg.

3.2. Mae sefydliadau fel yr Urdd a Ffermwyr Ifanc, Eisteddfodau Lleol a cymdeithasau fel Merched y Wawr yn chwarae rol allweddol mewn cymunedau Cymraeg ac i warchod cymunedau Cymraeg. Mae'r sefydliadau yma yn cefnogi datblygiad arweinwyr lleol, yn cynnal gwirfoddolwyr ac yn cynnig gweithgareddau cymdeithasol hganfodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.3. Mae rhwydwaith o Fentrau Iaith ffurfiol yn bodoli ar draws Gymru ac yn cael cefnogaeth ariannol gan y Llywodraeth. Yng Ngwynedd mae Hunaniaith yn derbyn cyllid Llywodraeth.

Mae sawl Menter a Chynllun adfywio/cymunedol/ardal yn bodoli yng Ngwynedd sydd unai wedi eu sefydlu yn uniongyrchol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg neu sydd â'r iaith yn ganolog yn eu gweithrediad. Mewn nifer o gymunedau, mae asesiad wedi ei wneud o ofynion ieithyddol ac aesiad ieithyddol wedi ei gwblhau gan ddefnyddio Fframwaith Gweithredu'n Lleol, Llywodraeth Cymru.

Isod gweler restr o gynlluniau ieithyddol cyunedol fydd yn parhau i dderbyn sylw drwy'r Strategaeth:

Cynllun/ Rhaglen	Cymuned
Cynllun Datblygu Gwledig (Llwyddo yng Ngwynedd)	Cymunedau Cynaliadwy -Cymydmaen, Botwnnog -Dinas Mawddwy -Penllyn, Bala -Dyffryn Ogwen
Cynlluniau Gweithredu Iaith Ardal, Llywodraeth Cymru	Bala a Corwen Meirion/Dwyfor gan gynnwys Pwllheli Dolgellau a Bro Ddyfi De Arfon (cytundeb hyd at ddiwedd Mawrth 2014 gan Hunaniaith)

Swyddogion Datblygu Iaith Gwynedd, Hunaniaith	Swyddog 1 - Arfon (Bangor , Felinheli) Swyddog 2 – Dwyfor (Dolbenmaen) Swyddog 3 – Meirionnydd (Dolgellau)
Mentrau iaith cymunedol	-Dyffryn Ogwen -Dyffryn Nantlle -Y Felinheli -Bangor
Mentrau iaith y Gogledd	Cynllun Hyfforddiant Awyr Agored Cymraeg i Oedolion Cyfieithwyr Cymunedol

3.4. Wrth drafod gyda cymdeithasau a grwpiau lleol yn ystod y cyfnod llunio'r Strategaeth, un her amlwg sy'n wynebu cymdeithasau a mudiadau lleol yw'r dasg o gynnal y Gymraeg o fewn eu gweithgareddau, tra'n ceisio ar yr un pryd estyn allan i gynnwys unigolion nad ydynt yn medru deal na siarad Cymraeg. Mae'n werth nodi hefyd bod diffyg hyder ymysg rhai siaradwyr Cymraeg yn achosi iddynt beidio a defnyddio'r Gymraeg a bod angen ffordd o bontio'r bwlch yma.

3.5. Mae gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith yn 2006 i "*Rwydweithiau cymdeithasol a defnydd iaith pobl ifanc*", ac a gyflwynwyd gan Ganolfan Ymchwil Ewrop (Cymru) a Cwmni Iaith, yn cynnig dadansoddiad pellach o safbwynt pobl ifanc am rwydweithiau cymdeithasol a defnydd iaith pobl ifanc rhwng 13 a 17 oed. Roedd y gwaith yma yn cynnwys ardal Pwllheli a'r Bala yng Ngwynedd. Roedd prif gasgliadau yn nodi:

- mai'r prif ffactor oedd yn diffinio defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan bobl ifanc yw iaith y cartref
- fod tri math o gymuned ieithyddol wedi eu nodi wedi'u seilio ar y berthynas rhwng aelodau'r gwahanol grwpiau ieithyddol- (Cymunedau sy'n cymhathu, grwpiau ieithyddol pendant, cymunedau wedi'u cymhathu)

3.6. Gwyddwn fod allfudo o Wynedd ar ei uchaf hyd at 19 oed a gwyddwn hefyd bod mudoedd yn un factor sydd yn newid demograffeg yr iaith ar lefel gymunedol. Mae'r ffaith bod ganddom siaradwyr Cymraeg yn gadael broydd genedigol yn niweidiol ac yn cael effaith ar fywiogrwydd cymdeithasol y Gymraeg. Mae angen i'r Strategaeth yma gydnabod a gweithio ar y berthynas rhwng hyn a'r economi leol a cheisio leihau ar yr angen i allfudo, datblygu mentrau cymdeithasol a cymhathu newydd ddyfodiaid.

3.7. Roedd gwaith ymchwil *Effeithiau Twristiaeth ar yr Iaith Gymraeg yng Ngogledd-Orllewin Cymru* gan Dylan Phillips a Catrin Thomas yn 2001 yn amlygu bod cyswllt rhwng twristiaeth a mewnfudo ac yn arbennig mewn ardaloedd arfordirol megis ym Meirionnydd a Dwyfor.

4. Gwasanaethau a'r Gweithle

4.1. Ceir tystiolaeth helaeth fod poblogaeth Cymru'n cefnogi gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg. Mae dros naw o bob deg o siaradwyr Cymraeg, gydag amrywiol lefelau o ruglder) ar draws Cymru o'r farn bod darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn bwysig er mwyn cadw'r iaith yn fyw.

Mae tystiolaeth yn dangos bod diffyg defnydd o wasanaethau yn gyffredinol oherwydd diffyg hyder ymhlith siaradwyr nad ydynt ddigon rhugl, ynghyd â diffyg ymwybyddiaeth bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau bancio, gwasanaethau ar lein a ffôn.

Mae cryn newid mewn modelau darparu gwasanaethau yn arbennig yn y sector gyhoeddus a'r trydedd sector gyda modelau darparu yn symud tuag at gomisiynu a chaffael. Mae goblygiadau amlwg ynghlwm â hyn o ran y ffordd y gellid sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

4.2. Yn Ebrill 2013, cynhaliwyd arolwg gan Cyngor Gwynedd o'r Gymraeg mewn trefniadau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth. Ar sail yr ymchwiliad, a oedd yn edrych ar feysydd Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a 4 prif Bartneriaeth y Sir, cyflwynwyd sawl argymhelliad i wella'r y ffordd mae cyrff yn hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau hawl defnyddwyr i gael darpariaeth yn eu dewis iaith. Dyma rai o'r argymhellion perthnasol:-

- Dylai rheolwyr uwch ddangos ymrwymiad cadarn wrth iddynt arwain trefniadau cydweithio a mynnu bod gofynion ieithyddol yn ymddangos ymhob cytundeb partner
- Dylid adnabod ac asesu gofynion ieithyddol mewn modd safonol mewn pob cytundeb darparu gwasanaeth
- Dylid sicrhau sylw digonol i sgiliau ieithyddol staff yn ôl gofynion y swydd
- Dylid codi ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid o'r buddiannau o weithrediad Cymraeg a dwyieithog ar gyfer defnyddwyr
- Cynnig arweiniad ar gyfieithu
- Ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth cyrff o'r budd proffesiynol o gael staff yn gallu cynnal gwasanaethau dwyieithog
- Addysgu staff i weithredu yn ddwyieithog a sut i sefydlu trefniadau swyddfa fyddai'n cefnogi rhai di-Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau

4.3. Cynllun Brocer Iaith Peblig, Caernarfon

Cynllun peilot oedd y Cynllun yma i “ymchwilio a threialu dulliau newydd o hyrwyddo iaith a gwaith gan ddod a gwasanaethau oedd eisoes yn bodoli at ei gilydd. Roedd pwyslais ar gydgyssylltu rhwng yr holl wasanaethau cyflogaeth a'r rhai ieithyddol.

Yn Gorffennaf 2012 cynhaliwyd gwerthusiad o'r cynllun a chynigwyd model ar gyfer ehangu'r gwaith. Heb fynd i fanylder yr argymhellion, noder isod rhai o'r prif casgliadau sydd hefyd yn ymddangos fel casgliadau mewn asesiadau a chymunedau eraill.

- Mae modd defnyddio sgiliau ieithyddol fel rhan bwysig o'r broses o gefnogi pobl i symud tuag at waith
- Bod diffyg hyder pobl gyda'u sgiliau iaith yn fwy allweddol na'r ymrwymiad i'w ddefnyddio.
- Yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth iaith gyda dipyn o ffordd i fynd cyn gallu sôn am brif ffrydio go iawn
- Proses tymor hir yw newid agweddau ieithyddol/cymdeithasol sydd wedi ei gwreiddio yn ddwfn.

Prif Gasgliadau'r Cynllun Brocer Iaith ar gyfer hyrwyddo Gymraeg

- Gwreiddio broceriaith iaith(hyrwyddo'r Gymraeg) i holl weithgaredd adfywio ac economaidd
- Er mwyn arfogi rhai i waith,mae angen darpariaeth sgiliau sylfaenol ieithyddol wedi ei deilwra i'r gymdeithas benodol.
- Yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth iaith gyda cyrff sy'n barod i gydweithio a chenhadu yn unigol.
- Byddai gosod sgiliau Cymraeg o fewn anghenion swydd (o fewn fframwaith lefelau) yn bwysig i bob cyflogwr.
- Gweithio gyda'r cyrff sydd yn ymwneud gyda swyddi a chyflogaeth i weithredu yn addas a hyrwyddo' r sgil Cymraeg.

Mae ymchwil Bwrdd yr Iaith yn awgrymu fod hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wedi bod yn gyfrwng llwyddiannus i feithrin agwedd bositif tuag at y Gymraeg a bod cael arweinwyr brwdfrydig a rhagweithiol yn allweddol.

4.4. Sgiliau Ieithyddol ar gyfer y gweithle

Yn genedlaethol ac yma yng Ngwynedd, mae Cynllun Sgiliaith wedi ei ariannu i hyrwyddo dwyieithrwydd o fewn colegau addysg bellach, ysgolion a'r gweithle ar gyfer rhai 14-19 oed yn bennaf. Mae hyn y cynnwys cefnogi staff dysgu, datblygu adnoddau a chodi ymwybyddiaeth o iaith fel sgil. Mae hwyluswyr iaith ymhob Coleg sydd hefyd yn cydweithio gyda cyflogwyr sydd yn hyfforddi staff. Mae gan Sgiliaith hefyd gytundeb drwy swyddfa'r Comisiynydd Iaith i gynnal darpariaeth "ymwybyddiaeth iaith" yn y trydedd sector ac ymysg busnesau preifat. Mae swyddogion Sgiliaith yn cydnabod bod nifer o ffactorau angen eu goresgyn, sef: diffyg hyder staff i addysgu'n ddwyieithog, diffyg adnoddau dysgu, ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iaith a diffyg cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol i rhai sydd yn dysgu ac angen datblygu hyder.

4.5. Dywedwyd, yn dilyn ymchwil fanwl a gynhaliwyd gan Cwmni Trywydd, bod sesiynau hyfforddi seicoleg iaith wedi ymddangos yn llwyddiannus iawn o ran symud agweddau yn eu blaen.

4.6. Mae Cyngor Ynys Môn newydd gwblhau holiadur gyda'u staff i ddarganfod lefel sgiliau ieithyddol staff, defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac ymrwymiad staff tuag at y Gymraeg.

5. Y Seilwaith, yr Economi a Thai

5.1. Mae adroddiad "*Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith: Adroddiad y Grwp Gorchwyl a Gorffen*", Llywodraeth Cymru 2013 yn crynhoi yn rhan 4 trefniadau llywodraethu a pholisiau ieithyddol mewn ardaloedd gyda ieithoedd lleiafrifol, Sbaen, Canada, yr Iseldiroedd, y Ffindir lle ceir deddfwriaeth i gefnogi'r gymuned sy'n siarad Swedeg. Dangosir y ceir wahaniaethu dearyddol mewn rhai achosion megis y Gaeltacht yng Ngweriniaeth Iwerddon. Sefydlwyd cysyniad y Gaeltacht cyn diwedd y 1920au. Mae'r adroddiad yn datgan saif y newidiadau demograffig a'r dylanwadau economaidd fel rhesymau am ddirywiad parhaus y Wyddeleg yn y Gaeltacht.

Mae'r adroddiad hefyd yn datgan fod tystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu'n glir nad yw dynode statws ieithyddol gwahanol i ardaloedd canrannau uwch oddi fewn i diriogaeth ieithyddol ehangach yn ddull gweithredu a ffefrir. Er hynny, cred fod rhagor o fesurau gweithredu penodol a pwrpasol mewn ardaloedd canrannau uwch ei angen ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau hynny.

5.2. Ond mae datblygiadau economaidd yn llwyr ddylanwadol ar yr iaith ac llawn mor bwysig ac unrhyw lywodraethu i hybu a chynnal yr iaith. Mae diweithdra yn amrywio ar draws Gwynedd ac o ganlyniad ardaloedd defnydd iaith. Mae dibynniaeth ar rhai sectorau megis twristiaeth gyda cyflogau isel a dibynniaeth ar y sectorau gyhoeddus llywodraeth leol, addysg a iechyd a'r sector breifat gyda busnesau bach.

Mae tensiynau amlwg ymghlwm a twristiaeth gyda gweld cynnydd mewn tai haf ar draws rhai ardaloedd y Sir

5.3. Mae gan y Llywodraeth, trwy ei gynlluniau strwythurol economaidd a thair, rôl adeiladol ac allweddol i'w chwarae mewn hyrwyddo'r Gymraeg a prif-ffrydio'r Gymraeg o fewn cynlluniau cenedlaethol. Gwan oedd yr ystyriaeth i faterion ieithyddol mewn rhaglenni Amcan 1 a Chydygyfeiriant. Yn Wynedd mae sawl cynllun wedi ei ddatblygu yn bwrpasl ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg. Gweler rhagor o fanylion yn yr atodiad gwybodaeth.

5.4. Cynllun Datblygu Gwledig

Yng Ngwynedd, o dan nawdd Cynllun Datblygu Gwledig, mae cynlluniau "Llwyddo yng Ngwynedd". Mae'r rhaglen wedi ei rhannu yn bedair prosiect gyda Cymunedau Cynaliadwy yn un ohonynt. Yn wreiddiol, cefnogwyd 5 cymuned i gynnal awdit cymunedol ffisegol a dynol, awdit ieithyddolac yna datblygu syniadau. Y cymunedau yw Dinas Mawddwy, Botwnnog, Penllyn (Bala), Dyffryn Ogwen a'r Felinheli. .

Ym Motwnnog ceir Menter Cymydaen Cyf yn creu hwb bwyd a chynnyrch leol drwy alluogi pobl i fentro ac arbrofi yn y sector bwyd. Mae hyn yn adeiladu ar y prosiect "Tai, Gwaith , Iaith" yng Nghongl Meinciau, Botwnnog lle prynwyd safle adeiladu 12 ty fforddiadwy a chodi Canolfan Femnter yn darparu 12 Uned Busnes.

Yn Dinas Mawddwy cynlluniwyd i brynu adeilad i ddarparu gwasanaethau cymunedol a busnes.

Mae Partneriaeth Dyffryn Ogwen am sefydlu canolfan i gynnig lle i gyrff ddarparu cyngor neu wasanaethgyda'r cyfle hefyd i gynnig gwasanaethau lleol i ymwelwyr fel Siop un Stop.

Bwriad Menter Penllyn, Bala yw creu canolfan aml bwrpas a mentrau cymdeithasol hunan gynhaliola chreu ystod o wasanaethau galw mewn a cynghori dwyieithog.

Bydd pob un o'r cymunedau yma yn gweithredu yn gwbl ddwyieithog ac yn rhoi pwyslais ar y Gymraeg. Gofynnir y cwestiwn a ddylid cael hyrwyddwyr iaith yn gweithio gyda'r cymunedau yma i gefnogi a datblygu cynlluniau hyrwyddo'r Gymraeg.

5.5. Mae pryder cymunedol hefyd ar ddylanwad posib gor-ddatblygu ac mae hyn wedi ei amlygu yng Ngwynedd o fewn ardaloedd Bangor a Bethesda yn ddiweddar.

Mae problemau cyson fforddadwyedd gyda phrisiau cyfartalog tai y tu hwnt I allu pobl leol i'w fforddio. Mae prisiau tai yng Ngwynedd ar gyfartaledd yn 5.7 gwaith yn fwy na'r cyflog cyfartalog gyda phrisiau tai y siroedd gwledig o leiaf 10% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae Cyngor Gwynedd a Cyngor Ynys Môn yn cydweithio ar ddatblygu Cynllun Ddatblygu Lleol ar y Cyd fel rhan o'r gofyn ar bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r broses yn uniongyrchol yn ymdrîn â materion cynllunio yn ogystal â materion anuniongyrchol megis yr iaith Gymraeg.

Mae'r cyd-destun polisi yn nodi elfennau cymunedau cynaliadwy : “bod ein dyfodol yn dibynnu ar fywiogrwydd ein cymunedau fel lleoedd deiniadol i fyw a gweithio ynddynt”.

Cydnabyddir yn y ddogfen bod rhaid i “adfywio fod yn ystyriol o gymeriad hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol cymunedau”. (Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2013)

O fewn y cyd-destun polisi gweler TAN 20 drafft: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2011) yn cydnabod fod y gyfundrefn cynllunio defnydd tir yn ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg ond gellid dadleu bod cyfleon i ystyried hyrwyddo'r Gymraeg wrth ddiffinio gofynion yr economi ac adfywio economaidd gydag asesiad o'r farchnad dai leol hefyd yn cymryd i ystyriaeth o broffil y gymuned, i gynnwys proffil ieithyddol. Gofynnir am hyrwyddo'r Gymraeg o fewn cymunedau penodol wrth ddatblygu tai marchnad agored a tai fforddiadwy. Mae polisiau Cynllun Datblygu Lleol yn cymryd ystyriaeth o fuddiannau'r Gymraeg ac effaith unrhyw ddatblygiad ar y Gymraeg. Mae'n bwysig mabwysiadu dulliau polisi amrywiol yn ddibynnol ar gyflwr yr iaith yn yr ardaloedd hynny gan roi dulliau mewn lle i hywyddo'r Gymraeg. Ar 21 Mawrth 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru “Nodyn Cyngor Technegol Drafft 20 ymgynghorol. Nid yw'r NCT yn rhoi arweiniad penodol ar sut i asesu pa anheddau/ardaloedd all ymdopi orau â datblygiad yn seiliedig ar yr effaith ieithyddol.

Mae angen i Strategaeth Iaith Gwynedd geisio helpu i ddatblygu trefniadau a systemau all fod o gymorth i fesur effaith ac ymateb.

5.6. Mae gan Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd 2014-17 rôl i chwarae drwy ychwanegu at a chryfhau'r sail tystiolaeth, gan hefyd weithredu'n arloesol trwy weithio gyda chynllunwyr, cymunedau a datblygwyr i broffilio cymunedau targed yn fanwl iawn o ran yr iaith a gweithgareddau diwylliannol a chymunedol, ac yna helpu i ddatblygu ymatebion fydd yn hyrwyddo'r Gymraeg

5.7. Mae Cynllun Busnes Tair Blynedd Cyngor Gwynedd 2011-14 yn nodi gweithio tuag at “cyflenwad o dai addas yn y Sir” Mae'r dogfennau yn nodi yn glir y cysylltiad rhwng tai ac adfywio economaidd, pwysigrwydd tai fforddiadwy a tai gwag a'r gallu i wella ansawdd bywyd ac i alluogi pobl i aros yn eu cymunedau. Nid yw'r ddogfen yn benodol yn cyfeirio at rôl gall cynllunio a'r economi chwarae mewn hyrwyddo'r Gymraeg , helpu i oresgyn dirywiad y Gymraeg mewn rhai cymunedau a gweithredu'n rhagweithiol i atal dirywiad pellach. Mae gan y Strategaeth Iaith rôl allweddol drwy gydweithio'n uniongyrchol gyda'r drefn cynllunio a thai.

5.8. Mae... o dai cymdeithasol yng Ngwynedd o dan oruchwyliaeth nifer o Gymdeithasau Tai megis Cymdeithas Tai Eryri, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, Cymdeithas Tai Clwyd a Chartrefi Cymunedol Gwynedd. Mae gan y Cymdeithasau Tai ddylanwad bwysig ar datblygiadau tai cymdeithasol ac ar gynlluniau datblygu cymunedol o'u cwmpas. Mae'n bwysig i Hunaniaith weithio law yn llaw gyda'r

cymdeithasau tai a chefnogi datblygiadau hyrwyddo'r iath, datblygiadau ieuenctid a'r berthynas gyda'r cynlluniau ieithyddol cymunedol

Yn ystod mis Hydref a Tachwedd 2013, cynhaliwyd arolwg tai gan Cyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Gwnaethpwyd yr arolwg trwy holiadur preswylwyr gyda'r bwriad o gael gwybodaeth fanwl am dai yr ardal ac ar y Gymraeg gan ystyried effaith posib datblygiadau newydd ar yr iaith Gymraeg a chymunedau Cymreig. Bydd dadansoddiad o'r wybodaeth yma ar gael yn gynnar yn 2014 ac ar gael i lywio rhaglenni gwaith prethnasol hefyd.

6. Ymgynghori

6.1. Hyd yma, mae'r Strategaeth ddrafft wedi ei seilio ar fanylion Cyfrifiad 2011, data ehangach, ymchwil, adolygiadau rhaglenni presennol, trafodaethau gyda cynrychiolwyr cymunedau swyddogion proffesiynol, aelodau Hunaniaith a cynrychiolwyr cyrff a mudiadau allweddol.

Isod gweler crynodeb o brif negesuon a ganfyddwyd o'r wahanol sectorau.

Bydd y Strategaeth ddrafft yn mynd allan yn eang ar draws Wunedd er mwyn derbyn barn a gwybodaeth. Ar sail hyn oll cwblheir Strategaeth gyflawn erbyn diwedd Mawrth 2014.

6.2. Barn Sectorau

Sector / Rhwydwaith	Prif Negesuon
Cyn Ysgol	<ul style="list-style-type: none"> • Yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth iaith ymysg rhieni • Marchnata budd y Gymraeg • Hyfforddiant staff • Cefnogaeth rhwyddach i rieni gael hyfforddiant iaith ac ar amseroedd addas • Mewn rhai ardaloedd, mae rhieni yn dewis anfon plant i feithrinfeydd di-Gymraeg
Addysg	<ul style="list-style-type: none"> • Yr angen i weithio gyda rhieni i godi ymwybyddiaeth am werth y Gymraeg i'w plant a Cymraeg i'r teulu • Cymaeg i Oedolion perthnasol i rieni • Ymwybyddiaeth iaith ymysg staff ag hyfforddiant iddynt ar hyrwyddo'r Gymraeg o fewn a tu allan i'r cwricwlwm ac yn gymdeithasol • Defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth a gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg • Datblygu ymhellach ar gemau buarth
Addysg Bellach	<ul style="list-style-type: none"> • Diffyg ymwybyddiaeth iaith a dim digon o farchnata a hyrwyddo manteision sgiliau dwyieithog ar draws y

	<p>sector hefo dysgwyr, rhieni a cyflogwyr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angen cydweithio rhwng gwahanol sectorau â'u gilydd i sicrhau dilyniant i'r dysgwyr dwyieithog • Yr angen am fwy o ymarferwyr dysgu dwyieithog gyda digon o hyder i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog • Dim digon o alw gan cyflogwyr am sgiliau dwyieithog, dealltwriaeth o'r angen i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cwsmer /cleient a'r neges hon ddim yn treiddio'n ddigonol i'r dysgwr galwedigaethol. • Angen adnoddau dysgu mwy amrywiol, difyr a chyfoes yn y maes yn ogystal ac adnodd i hyfforddi a recriwtio staff dwyieithog • Yr angen i ddatblygu ethos mwy Cymraeg ar draws sefydliadau a dim digon o Gymraeg yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol o fewn y cwricwlwm (gwahanol bynciau) • Yr angen i ddatblygu mwy o Gymraeg mewn gweithgareddau hamdden, cymdeithasol ac ati • Mae'n ymddangos bod dysgwyr yn methu "dewis" parhau hefo'r Gymraeg am ni welir gwerth yn y sgil
Sector Gwirfoddol	<ul style="list-style-type: none"> • Angen gwasanaethau cyfieithu rhad ar gael i'r sector wirfoddol ac i gynghorau cymuned • Datblygu hyder ymysg pobl o'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg gan ganolbwyntio ar beidio cae pobl allan oherwydd bod eu Cymraegyn ymweld "ddim digon da" • Defnyddio Cymraeg syml, clir a dealladwy • Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac ymfalchio yn y ffaith bod pobl yn eu defnyddio • Sicrhau bod cylchoedd meithrin yn cael cefnogaeth i ddarparu yn y Gymraeg • Datblygu arweinwyr mewn gwasanaethau fel arwyr yr iaith o fewn sefydliadau megis sector iechyd • Datblygu cynlluniau sylwebu a gweithgareddau dysgwyr mwy hyblyg a lleol
Sector Tai	<ul style="list-style-type: none"> • Angen mentrau cymunedol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn gynaliadwy • Grantiau cymunedol i gefnogi grwpiau cynhenid • Angen mesurau lliniaru i integreiddio iaith gyda datblygu cymunedol • Datblygu ymgyrchoedd marchnata ar y cyd ar gyfer sgiliau prin , sgiliau lefel uwch a marchnata swyddi prinder sgiliau Cymraeg/dwyieithog yn lleol (megis technoleg, rheoli prosiect) • Broceriaeth adeiladu/ cynllunio i sicrhau ffocws ac

	<p>ymateb ieithyddol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arweiniad i gymdeithasau tai am y rôl gymdeithasol a'r Gymraeg (pecyn croesi i denantiaid newydd) • Angen buddsoddi mewn gwerthuso cynlluniau er mwyn gweld pa wahaniaeth mae cynlluniau yn ei wneud
Busnes	<ul style="list-style-type: none"> • Cost Dwyieithrwydd
Iechyd a Gofal	<ul style="list-style-type: none"> • Gallu i ddenu siaradwyr Cymraeg/ sgiliau staff • Hyfforddiant staff
Cymunedol Democratiaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Angen cefnogi gweithrediad a gweithgareddau cymunedol • Cefnogi a defnydd o bapurau bro,dulliau cyfathrebu a rhwydweithau technoleg gwybodaeth lleol • Hyrwyddo adloniant a clybiau chwaraeon Cymraeg • Paratoi darpariaeth cyfieithu rhad ar gyfer cymunedau • Cynllunio tai yn ofodol ofalus er mwyn hyrwyddo cymunedau hyfyw • Gwell linc gyda darpariaethau adfywio er mwyn sicrhau ffocws ar y Gymraeg mewn cynlluniau a hybu marchnad lafur Cymraeg • Cefnogi cymunedau i gynnal proffiliau iaith lleol • Canolbwyntio ar ddarpariaeth pobl ifanc a gweithio ar ddatblygu meddylfryd Cymraeg gyda cyrff eraill e.e. hamdden a chwaraeon • Cefnogi Cymreigio a chymhathu er mwyn diogelu'r Gymraeg gyda cefnogaeth i'r ardaloedd cryfa fel rôl arweiniol ar gyfer eraill • Ffocws ar ymyrraeth gynnar, plant a phobl ifanc ac ymwybyddiaeth rhieni • Ail ymweld gyda darpariaeth addysg oedolion-dysgwyr sydd ddim pob amser yn ddigon hybyg • Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth o fewn siopa lleol a busnesau • Gwersi Cymraeg uwch i fusnesau • Datblygu rhwydweithiau lleol i bobl ifanc gyda pobl ifanc yn arwain, cefnogi aelwydydd yr Urdd ac aelwydydd yn yr ysgolion uwchradd • Prif gyrff i weithio gyda'u gilydd i farchnata yn weledol rôl a pwysigrwydd y Gymraeg iddynt a'i fod yn sgil allweddol • Datblygu balchder cymunedol yn yr iaith Gymraeg a sefydlu pencampwyr lleol • Broceriaeth tai / cynllunio a iaith

6.3. Barn Aelodau Etholedig

Ym mis Mawrth 2013, cynhaliwyd seminar i aelodau etholedig Cyngor Gwynedd i ystyried canlyniadau'r Cyfrifiad 2011. Cafwyd trafodaethau am y sefyllfa yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd ar sail data lefel cenedlaethol, sirol a dosbarth. Adnabwyd 5 prif factor bosib ar gyfer y newid (positif a negyddol):

- Mudo
- Yr Economi
- Polisi Addysg
- Polisi Cynllunio
- Dewisiadau defnydd o'r iaith

Gofynwyd dau gwestiwn:

"Beth sydd wedi newid neu beidio ers 2001?" a

"Beth sydd i gyfrif am hyn?".

Gwelwyd o'r trafodaethau, fod yr un themau yn codi ar draws pob grwp:

- Defnydd o'r iaith a'r hyder i'w ddefnyddio
- Patrymau mudo ac allfudo
- Rôl ysgolion ac addysg i hyrwyddo'r iaith
- Materion Tai a Chynllunio
- Codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg
- Dylanwadu ar gyrff eraill

EITEM 8

CYFARFOD	PWYLLGOR IAITH Y CYNGOR
DYDDIAD	15 Ionawr 2014
TEITL	Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2014-17
PWRPAS	I ystyried cynnwys y Cynllun drafft a chynnig sylwadau
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad
AWDUR	Dewi R Jones, Pennaeth Addysg
AELOD CABINET	Cynghorydd Sian Gwenllian

Rhagarweiniad a chyd-destun

Yn Rhagfyr 1996 cyhoeddodd Cyngor Gwynedd Gynllun Iaith Gymraeg yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ac ynddo nodir sut y mae'r Cyngor, wrth ymdrin â'r cyhoedd, yn trin yr Iaith Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

O dan Rhan 1 a Rhan 2 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod Addysg Lleol ddarparu Cynllun Iaith Gymraeg sy'n delio'n benodol ag Addysg [Cynllun Addysg Gymraeg]. Cymeradwywyd Cynllun Addysg Gymraeg cyntaf Cyngor Gwynedd yn Nhachwedd 1998. Yn dilyn cyfnod gweithredu tair blynedd y Cynllun Addysg Gymraeg lluniwyd ail Gynllun a gymeradwywyd yn Awst 2004. Adolygwyd y Cynllun yn 2010 a chymeradwywyd y Cynllun Addysg Gymraeg yma gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 30 Mehefin 2011. Yn dilyn hyn, lluniwyd a chymeradwywyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2013-14.

Eleni, daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** i Lywodraeth Cymru. Bydd y cynlluniau cyntaf o dan y trefniadau statudol hyn yn cael eu gweithredu o Ebrill 1 2014 am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2017. Bydd y cynlluniau hyn yn amlinellu sut bydd awdurdodau lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg.

Dehonglir y Strategaeth yng nghyd-destun Polisi Iaith Cyngor Gwynedd a thrwy hynny wireddu'r deilliannau. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y prif elfennau yn cael eu hadlewyrchu ac yn cael sylw priodol yn y Cynllun Strategol.

Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Bydd y Cynlluniau yn fodd i Lywodraeth Cymru allu monitro'r ffordd y bydd awdurdodau lleol yn ymateb i'r angen i weithredu nodau'r Strategaeth a chyfrannu tuag atynt trwy:

- sicrhau bod pob cam o brosesau addysg yr awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth lawn i addysg cyfrwng Gymraeg;
- ehangu addysg cyfrwng Gymraeg, lle bo galw, ar sail cynllunio gwell;
- sicrhau fod gwasanaethau cefnogi addysg cyfrwng Gymraeg yn cael eu cyflwyno ar sail consortia;

- wella safonau ac ehangu defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc; a
- dangos cynnydd yn erbyn targedau penodol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Bwriad y Cynllun Strategol yw:

- disgwyl i awdurdodau lleol fod yn atebol i Lywodraeth Cymru am gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a iaith Gymraeg;
- adlewyrchu nodau'r Strategaeth;
- darlunio'r sefyllfa bresennol, amlinellu'r gweithgareddau priodol a dangos cynnydd;
- bod yn hwylus ac yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol; a
- dangos cynnydd clir **dros dair blynedd** ym mhob awdurdod lleol ac ardal consortiwm tuag at gyflawni targedau'r Strategaeth.

Canolbwynt y Cynlluniau yw'r targedau a geir yn y Strategaeth a disgwylir i'r Awdurdod adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd yn erbyn y targedau hyn:

- mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o garfan Blwyddyn 2;
- mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- mwy o fyfyrwyr 16-19 yn astudio Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg.

Argymhelliad

Atodir copi drafft o'r 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2014-17' ar gyfer sylw aelodau'r Pwyllgor Iaith gan ofyn am eu sylwadau fel rhan o'r ymgynghori cyn cyflwyno'r fersiwn drafft i'r Llywodraeth erbyn 20 Ionawr 2014.

Y Rhestr Gynnwys

1. Cyflwyniad i Gynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg
2. Adran 1: Gweledigaeth a nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg
3. Adran 2: Y Cynllun Gweithredu
4. Adran 3: Sylwebaeth a nodiadau pellach (Atodiadau 1 i 6)

DRAFFET

1. Cyflwyniad i Gynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg

Yn Rhagfyr 1996 cyhoeddodd Cyngor Gwynedd Gynllun Iaith Gymraeg yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ac ynddo nodir sut y mae'r Cyngor, wrth ymdrin â'r cyhoedd, yn trin yr Iaith Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

O dan Rhan 1 a Rhan 2 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod Addysg Lleol ddarparu Cynllun Iaith Gymraeg sy'n delio'n benodol ag Addysg [Cynllun Addysg Gymraeg]. Cymeradwywyd Cynllun Addysg Gymraeg cyntaf Cyngor Gwynedd yn Nhachwedd 1998. Yn dilyn cyfnod gweithredu tair blynedd y Cynllun Addysg Gymraeg lluniwyd ail Gynllun a gymeradwywyd yn Awst 2004. Adolygwyd y Cynllun yn 2010 a chymeradwywyd y Cynllun Addysg Gymraeg yma gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 30 Mehefin 2011. Yn dilyn hyn, lluniwyd a chymeradwywyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2013-14.

Eleni, daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** i Lywodraeth Cymru. Bydd y cynlluniau cyntaf o dan y trefniadau statudol hyn yn cael eu gweithredu o Ebrill 1 2014 am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2017. Bydd y cynlluniau hyn yn amlinellu sut bydd awdurdodau lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg.

Dehonglir y Strategaeth yng nghyd-destun Polisi Iaith Cyngor Gwynedd a thrwy hynny wireddu'r deilliannau. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y prif elfennau yn cael eu hadlewyrchu ac yn cael sylw priodol yn y Cynllun Strategol.

Nôd y Polisi Iaith [1996] yw sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Wrth ddwyieithrwydd oed berthnasol golygir bod disgyblion yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ogystal â datblygu hyfedredd disgyblion yn y ddwy iaith, disgwylir i holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Er mai nôd cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y cyfnodau allweddol eraill, disgwylir i ysgolion gynllunio'n fwiadus er mwyn datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg.

Cydwedda hyn yn dda gyda phrif nodau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sef sicrhau datblygiad y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen.

Bydd unrhyw ddiffyg gweithredu mewn perthynas â'r Gymraeg a sicrhau dilyniant o un cyfnod allweddol i'r nesaf yn ddarostyngedig i'r trefniadau a nodir yn y **Cytundeb Partneriaeth** rhwng yr Awdurdod a'r ysgolion a'r cylchoedd meithrin. Yn y cyd-destun hwn dygir sylw'r aelodau etholedig lleol ynghyd â Chadeirydd y Llywodraethwyr at unrhyw faterion o bryder sydd yn berthnasol i ddiffyg gweithredu ar gynnwys y Polisi Iaith neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Ceir gwybodaeth bellach ynghylch y "Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17" oddi wrth - Dewi R. Jones, Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH. Ffôn 01766 771 000. Ffacs 01286 677 347. dewirjones@gwynedd.gov.uk

ADRAN 1: Ein gweledigaeth a'n nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Mae Polisi Iaith yr Adran Addysg yn gosod y nod uchelgeisiol o sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Cydwedda hyn yn dda gyda phrif nod Cynllun Strategol y Gymraeg sef sicrhau datblygiad y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd a wna ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol.

Er mwyn gwireddu'r rhaglen uchelgeisiol hon, disgwylir i bob sefydliad roi sylw i'r materion a ganlyn.

- Gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar, gan sicrhau bod disgyblion o gefndir Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl.
- Yn y Cyfnod Sylfaen, adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg fel pwnc yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, gan roi sylw i ddatblygu sgiliau darllen, siarad ac ysgrifennu yn yr iaith honno. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Yn CA2, parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.
- Yn CA3, sicrhau bod pob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 yn parhau i ddilyn Cymraeg iaith Gyntaf er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol.
- Yn CA4, sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn cael asesiad yn y Gymraeg ar ddiwedd CA4.
- Yn CA3 a CA4, defnyddio'r wybodaeth am gyflawniad blaenorol i sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu.
- Sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2 a CA3 yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl ac yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu.
- Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o nodweddion diwyllianol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.
- Datblygu'r disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol fel eu bod yn cyfrannu'n anwyddocaol i'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni.

Yn dilyn adolygiad trylwyr o Gynllun Strategol 2013-14, cytunwyd y byddai'r **Cynllun Strategol (2014-17) Statudol** hwn yn canolbwyntio ar yr agweddau a ganlyn o safbwynt Y Gymraeg fel iaith ac fel cyfrwng gan eu gosod fel nodau clir i'n rhaglen waith tair blynedd.

- Gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg yn ystod addysg feithrin a'r blynyddoedd cynnar. (98.6% o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.)
- Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o CA2 i CA3. (100% o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd.)
- Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o CA3 i CA4.
- Cryfhau'r gweithredu yn yr ardaloedd/sefydliadau/ysgolion lle mae data yn dangos yr angen gan atfogi ein penaethiaid a hyfforddi ein gweithlu i ymgyrraedd yn llawn at nod y Cynllun.
- Cryfhau'r defnydd o'r carfanau iaith fel offeryn cynllunio dilyniant mewn ysgolion uwchradd.
- Datblygu Bagloriaeth Cymru ar lefelau 1, 2 a 3 yn yr ysgolion uwchradd.
- Cadarnhau gweithrediad Y Siarter Iaith ymhob un o'n hysgolion cynradd, gan roi sylw amliwg i hyfforddi'r gweithlu gan ddatblygu'r elfennau cyfrwng a methodoleg.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol pobl ifanc yn ein hysgolion uwchradd trwy sefydlu a datblygu cynllun tebyg i Siarter Iaith yr ysgolion cynradd.

O wneud hyn yn llwyddiannus yn ystod y tair blynedd nesaf rhagwelir y gall y gyfundrefn addysg gyflawn gyfrannu at ddatblygiad Y Gymraeg (iaith a chyfrwng) ac anawdd addysg a phrofiadau ein plant a'n pobl ifanc.

ADRAN 2: Y Cynllun Gweithredu

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg <i>Dylid hefyd llenwi Atodiad 2</i>		C. Targedau	Ch. Cynnydd																																																																																																			
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)																																																																																																					
Cynyddu nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	<p>Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion cynradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un Polisi Iaith ar waith ymhob ysgol. Yr un yw'r pwyslais ar ddwyieithrwydd, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyderus ddwyieithog.</p> <p>Dangosir isod nifer disgyblion yng ngharfan CA1 (Y Cyfnod Sylfaen o 2012) a'r nifer asesir yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> <th>2013</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>CA1</td> <td>1193/1218</td> <td>1124/1145</td> <td>1152/1156</td> <td>1108/1126</td> <td>1181/1200</td> <td>1290/1325</td> </tr> </tbody> </table>		2008	2009	2010	2011	2012	2013	CA1	1193/1218	1124/1145	1152/1156	1108/1126	1181/1200	1290/1325	Sicrhau bod pob disgybl yn cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd CA1 a CA2.																																																																																						
	2008	2009	2010	2011	2012	2013																																																																																																
CA1	1193/1218	1124/1145	1152/1156	1108/1126	1181/1200	1290/1325																																																																																																
	<p>Mae'r niferoedd uchod yn cymharu'n ffafriol iawn gyda gweddill awdurdodau Cymru.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th colspan="11">Canran a asesir yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen</th> </tr> <tr> <th></th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> <th>2013</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>1</td> <td>98.3</td> <td>97.9</td> <td>98.2</td> <td>99.7</td> <td>98.4</td> <td>98.4</td> <td>97.4</td> </tr> <tr> <td>2</td> <td>76.3</td> <td>78.9</td> <td>76.4</td> <td>76.1</td> <td>73.1</td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>3</td> <td>75.6</td> <td>74.5</td> <td>72.8</td> <td>70.2</td> <td>68.8</td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>4</td> <td>52.5</td> <td>55.1</td> <td>53.7</td> <td>55.0</td> <td>55.6</td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>5</td> <td>22.4</td> <td>23.0</td> <td>23.3</td> <td>25.0</td> <td>26.1</td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>6</td> <td>20.5</td> <td>21.8</td> <td>23.1</td> <td>23.2</td> <td>25.0</td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>7</td> <td>20.3</td> <td>21.0</td> <td>21.0</td> <td>21.9</td> <td>21.9</td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>8</td> <td>19.7</td> <td>20.6</td> <td>20.1</td> <td>21.8</td> <td>21.2</td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>9</td> <td>19.6</td> <td>20.6</td> <td>19.9</td> <td>20.3</td> <td>20.8</td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>10</td> <td>13.9</td> <td>15.9</td> <td>17.6</td> <td>16.9</td> <td>17.3</td> <td></td> <td></td> </tr> </tbody> </table>	Canran a asesir yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen												2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	1	98.3	97.9	98.2	99.7	98.4	98.4	97.4	2	76.3	78.9	76.4	76.1	73.1			3	75.6	74.5	72.8	70.2	68.8			4	52.5	55.1	53.7	55.0	55.6			5	22.4	23.0	23.3	25.0	26.1			6	20.5	21.8	23.1	23.2	25.0			7	20.3	21.0	21.0	21.9	21.9			8	19.7	20.6	20.1	21.8	21.2			9	19.6	20.6	19.9	20.3	20.8			10	13.9	15.9	17.6	16.9	17.3				
Canran a asesir yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen																																																																																																						
	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013																																																																																															
1	98.3	97.9	98.2	99.7	98.4	98.4	97.4																																																																																															
2	76.3	78.9	76.4	76.1	73.1																																																																																																	
3	75.6	74.5	72.8	70.2	68.8																																																																																																	
4	52.5	55.1	53.7	55.0	55.6																																																																																																	
5	22.4	23.0	23.3	25.0	26.1																																																																																																	
6	20.5	21.8	23.1	23.2	25.0																																																																																																	
7	20.3	21.0	21.0	21.9	21.9																																																																																																	
8	19.7	20.6	20.1	21.8	21.2																																																																																																	
9	19.6	20.6	19.9	20.3	20.8																																																																																																	
10	13.9	15.9	17.6	16.9	17.3																																																																																																	

11	13.3	15.5	15.9	15.2	16.8
12	13.3	13.0	13.8	14.9	15.9
13	12.5	11.8	13.8	13.5	15.3
14	11.3	11.6	11.8	13.4	13.7
15	11.1	11.3	10.5	13.1	12.8
16	11.0	11.0	9.8	11.2	12.6
17	8.4	9.1	8.6	10.2	11.7
18	8.2	8.2	8.4	9.4	9.4
19	6.8	7.5	7.1	9.0	8.9
20	5.5	5.9	5.8	6.7	5.7
21	4.4	5.7	5.1	5.5	4.7
22	3.3	3.6	4.3	4.6	4.4
23	2.9	2.5	2.8	4.0	3.9



(*aros am ddata Stats Wales)

Darperir cefnogaeth ychwanegol i'r ysgolion yn yr ardaloedd lle bo angen datblygiadau pellach - trwy ymweliadau ychwanegol, cyrsiau penodol ar gyfer Datblygu'r Gymraeg yn yr ardaloedd lle bo angen datblygiadau pellach, a thrwy ddarparu adnoddau addas.

Mabwysiadu dulliau cadarn o fesur y galw am ddarpariaeth gofal plant ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Gweithredu'n brydlon ar gasgliadau arolygon rhieni.

Yn Nhachwedd 2011, iluniwyd asesiad digonolrwydd cynhwysfawr o ddarpariaeth gofal plant yng Ngwynedd. Roedd yr asesiad yn dangos bod y gyfran helaethaf o ddarpariaethau gofal plant yn wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, neu Gymraeg yn bennaf gyda rhywfaint o ddefnydd o'r Saesneg (90%). Dim ond 1% o'r darparwyr oedd yn nodi eu bod yn cyflwyno eu darpariaeth trwy gyfrwng y Saesneg yn unig, gyda rhywfaint yn fwy (9%) yn nodi eu bod yn cyflwyno eu gwasanaeth yn bennaf trwy'r Saesneg gyda rhywfaint o ddefnydd o'r Gymraeg. 2008 Yn ogystal, nododd 4% o'r rhieni a'r gofaiwyr a ymatebodd i'r holiadur eu dymuniad i weld cynnydd yn y ddarpariaeth a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg. *Bydd gwybodaeth am yr asesiad digonolrwydd diweddaraf ar gael ym mis Ionawr 2014.*

Sicrhau bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg.
Yn flynyddol

Pob plentyn yn cael asesiad sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg

	<p>Polisi'r Awdurdod yw cynnig lle meithrin rhan amser i blant yn eu hysgol dalgylch o'r Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Gweithredir hyn ymhob ysgol ar draws y sir ac eithrio dwy [Llanbedr a Dyffryn Ardudwy]; yn achos yr ysgolion hyn nid oes adnoddau addas ar gael ar gyfer gallu cynnig darpariaeth meithrin (cyflwynwyd cais i'r Cynulliad i newid y trefniant hwn). Yn y manau hyn mae'r Awdurdod, trwy'r Uned Blynyddoedd Cynnar, yn cydweithio â'r mudiadau gwirfoddol, Mudiad Ysgolion Meithrin a Chymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru i sicrhau lleoedd meithrin di-dâl i'r plant. Nodir yn atodiad 3 rhestr o Gylchoedd Meithrin sydd yn darparu Addysg Feithrin ar draws y Sir.</p> <p>Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn cynllunio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r gofyn statudol o sicrhau lle meithrin i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed. O Fedi 2013 mae'r ddarpariaeth addysg feithrin yn cael ei gynnig mewn 69 lleoliad ar draws y sir. Rhydd yr Awdurdod grant i'r darpariaethau hyn yn dymhorol. Ceir 32 lleoliad yn Arfon, 16 yn Nwyfor a 21 ym Meirionnydd sef lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod i ymateb i'r gofynion o gynnig addysg Feithrin i'r plant. Mae'r holl leoliadau, gan gynnwys y rhai gan y mudiadau gwirfoddol, yn cael eu monitro'n rheolaidd. Rhan o'r monitro hwnnw yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Polisi Iaith y Sir.</p> <p>Rhydd yr Awdurdod grant craidd i'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn flynyddol. Defnyddir y grant hwn fel cymorth i gynnal swyddi'r tri swyddog datblygu a'r tri swyddog iaith. Ceir cydweithio hefyd er mwyn cynnal y rhaglen hyfforddi arweinyddion. Rhydd yr Awdurdod grant craidd hefyd i Gymdeithas Cylchoedd Chwarae Cymru tuag at gyflogi swyddog.</p> <p>Rhodddwyd cyfle hefyd i arweinwyr cylchoedd nas cynhelir, sydd ddim yn siarad Cymraeg neu sydd yn ddihyder yn yr iaith, i fynychu cwrs er mwyn iddynt gael hyrwyddo dwyieithrwydd yn y cylchoedd.</p> <p>Erbyn hyn mae maint y tîm cefnogi cyfnod sylfaen/meithrin wedi cynyddu i un uwch athrawes Cyfnod Sylfaen, 3 athrawes llawn amser a 2 athrawes rhan amser. Golyga hyn bod mwy o gefnogaeth i arweinwyr y cylchoedd nas</p>	<p>feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Ionawr 2014</p>
--	---	---

cynhelir a hyfforddiant tymhorol. O fewn Dechrau'n Deg ceir un uwch-athrawes Dechrau'n Deg, un athrawes rhan amser a bydd un athrawes llawn amser yn dechrau yn Ionawr 2014. Yn y sesiynau hyfforddiant ac yn ystod ymweliadau safle pwysleisiwyd yr angen i osod sylfaen gadarn i'r Gymraeg yn ystod y Blynyddoedd Cynnar. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr asesiad sylfaen yn rhoi gwybodaeth gychwynnol i ysgol ar sefyllfa ieithyddol pob plentyn. Dyma gam pwysig o safbwynt cynllunio diilyniant.

O ran ffigyrau 'Gwynedd Ni' Tachwedd 2013 ceir 54 o Gylchoedd Ti a Fi ar draws y Sir. Yn Arfon mae 26 Cylch, 8 yn Nwyfor a 20 ym Meirionnydd.

Mae'r ddwy ganolfan integredig sy'n cefnogi'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar o fewn y sir, un dan ofalaeth yr Adran Addysg, sef Plas Pawb yng Nghaernarfon a'r llall dan ofalaeth Barnardos, sef Caban Bach Blaenau Ffestiniog yn gwbl ddwyieithog. Mae nifer uchel o staff gofal plant wedi derbyn achrediad ELKLAN i hywryddo dealltwriaeth a defnyddo o iaith gyda phlant ifanc. Ceir mewnbwn sylweddol gan therapydd iaith Dechrau'n Deg i hybu datblygad iaith.

Yn sgil mewnbwn y Cynllun Dechrau'n Deg, mae'r lleoliadau gofal plant ar y safleoedd hyn wedi derbyn achrediad ansawdd ac yn cynnig gofal plant am ddim i blant o 2 i 3 oed o fewn ffiniau'r Cynllun. Mae 5 o'r darpariaethau newydd(1- ers Medi 2011) (4 Hydref 2013) angen ymrwymo i weithio ar dderbyn achrediad, mae 2 leoliad angen adnewyddu'r achrediad ac un lleoliad wedi derbyn achrediad ansawdd am yr ail waith. Bydd darariaethau newydd yn y dyfodol yn ymrwymo i'r achrediad ansawdd. Mae'r holl asiantaethau sy'n ynghlwm â Dechrau'n Deg yn hybu'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn eu gwaith wrth weithio gyda'r plant a'u teuluoedd e.e. Tim Cefnogi Teulu, Gweithwyr Allweddol, Tîm Iechyd, Therapydd iaith Dechrau'n Deg.

Mae 4 Swyddog iaith a Chwarae ac maent erbyn hyn wedi bwrw gwreiddiau drwy Wynedd gan hoelio cryn dipyn o sylw ar gynnal grwpiau yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Gwynedd. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r swyddogion wedi gweithio gydag artistiaid lleol drwy efelychu gwaith 'Engage Cymru' mewn sawl lleoliad cyn-ysgol ym Mhwlheli, Caernarfon, Bangor a

	<p>Chaernarfon. Cynorthwyodd y gweithdai hyn i ddatblygu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu plant gan eu hannog i siarad a gwrandawr drwy gynnig profiadau cyffrous a chyfrannol i gyfeirio atynt ac i archwilio i eirfa newydd.</p> <p>Ers 2012, mae Gweithwyr Allweddol llawn amser ym mhob un o ddalgylchoedd Dechrau'n Deg. Maent wedi datblygu o'u rolau fel swyddogion Sgiliau Sylfaenol sy'n cynnig amrywiaeth o sesiynau Cymraeg i rieni a phlant Dechrau'n Deg. Cynigir sesiynau iaith a Chwarae, sesiynau stori, sesiynau canu hwiangerddi, sachau stori a sesiynau symud 'Jabadao' sesiynau loga yn dilyn hyfforddiant achrededig a sesiynau tylino. Bydd y swyddogion hyn yn dosbarthu pecyn o lyfrau dwyieithog i blant 3 oed Dechrau'n Deg. Mae'r pecyn llyfrau hwn yn ychwanegol i blant Dechrau'n Deg. Yn ogystal mae Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yn rhan o gynllun Dechrau Da. Gyda'r cynllun mae pob baban yn derbyn pecyn Dechrau Da am ddim ar ei asesiad iechyd rhwng 8 - 12 mis oed gan ei ymwelydd iechyd a phecyn Blynyddoedd Cynnar ar ei asesiad iechyd 24 mis. O fewn y pecyn llyfrau bydd gwahoddiad i rieni/gofalwyr ymaelodi eu plentyn â'r llyfrgell (wrth i'r plentyn ymaelodi bydd yn derbyn llyfr arall am ddim gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd). Mae'r staff wedi eu hyfforddi i weithredu ELKLAN i hybu dealltwriaeth a'r defnydd o iaith</p> <p>Ceir tystiolaeth fod y tимоedd amlddisgyblaethol hyn gan gynnwys yr Ymwelwyr Iechyd a swyddogion Twf yn gwneud dipyn o waith led-led y Sir i weithio gyda rhieni i gyflwyno pwysigrwydd yr iaith Gymraeg gan arddangos y dulliau posibl o drosglwyddo'r iaith Gymraeg yn gynnar i fywyd plentyn.</p> <p>Gan fod y Polisi Iaith yn rhoi pwyslais ar ddwyieithrwydd a'r angen i osod sylfeini cadarn ar gyfer y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar a datblygu ar hyn yn y cyfnodau allweddol sy'n dilyn, nid oes angen cyfeirio at fesur y galw.</p>	
<p>Sicrhau bod cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig ystyriaeth lawn o ddarpariaeth cyfrwng</p>	<p>Fel y nodir uchod, yr un yw'r disgyliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyderus ddwyieithog. Yn sgil hyn, mae unrhyw gynlluniau newydd a gyflwynir, megis cynigion ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn ddarostyngedig i ofynion y Polisi Iaith.</p>	

Cymraeg.	<p>Mae fframwaith a sylfaen strategol a fabwysiadwyd ar gyfer ad-drefnu Ysgolion o fewn Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn gosod yr laith Gymraeg fel un o'r prif egwyddorion ac ystyriaethau wrth lunio cynigion.</p> <p>Wrth ad-drefnu ysgolion mewn ardaloedd ble mae'r laith Gymraeg yn dal ei thir mae sicrhau darpariaeth addysg gadarn a chynaliadwy i'r dyfodol o fewn yr ardaloedd hynny yn fodd o gyfrannu tuag at sefydlogi a chadarnhau sefyllfa'r iaith.</p>		
Gwella gweithio cydweithredol drwy gonsortia.	<p>Mae cynnwys y Cynllun hwn ynghyd â'r Polisi Iaith Addysg yn ystyriaeth greiddiol wrth sefydlu unrhyw ddarpariaeth o'r newydd neu unrhyw drefniant cydweithredol a sefydlir.</p> <p>Yng Nghynllun Busnes Amlinellol y Gwasanaeth Gwella Ysgolion ar gyfer awdurdodau'r Gogledd, fe nodir y canlynol fel sylfaen i swyddogaethau allweddol yr endid newydd sef GwE: <i>'Bydd swyddogaethau allweddol yr endid newydd yn seiliedig ar yr egwyddor greiddiol o ddarparu strategaethau ar gyfer yr iaith Gymraeg yn lleol a chenedlaethol ac i gynyddu'r rhagoriaeth mewn addysgeg ac addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn cymunedau led-led Gogledd Cymru.'</i> Bydd comisiwn Awdurdod Gwynedd i'r Gwasanaeth yn cyfleu'r disgwyliad hwn yn gwbl eglur ymhob agwedd o ymwneud gweithlu GwE â'n hysgolion i gyd.</p> <p>Fe arweinir grŵp strategol trawsawdurdod gan y Pennaeth Addysg sydd yn canolbwyntio ar y Gymraeg, cyfrwng Gymraeg ac adeiladu cynhwysedd ymhob Awdurdod. Hyderir y gall y grŵp hwn fod yn ddylanwadol o safbwynt y drafodaeth ar gontinwrm iaith gan ddylanwadu'n sylweddol ar statws Y Gymraeg ymhob ysgol ac ansawdd ei haddysgu fel iaith a'r defnydd pellach ohoni fel cyfrwng dysgu.</p>		
Cynyddu'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynlluniau trochi a	<p>Nôd y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol.</p>	Sicrhau parhad y ddarpariaeth bresennol a bod trefn bendant ar gyfer monitro	

<p>chanolfannau i hwyrddyfodiad.</p>	<p>Erbyn hyn mae pedair canolfan gynradd ac un canolfan uwchradd, sy'n gwbl unigryw yng Nghymru. Lleolir y canolfannau cynradd yng Nghaernarfon, Dolgellau, Llangybi a Phenrhyndeudraeth, a'r ganolfan uwchradd ym Morthmadog.</p> <p>Rhwng 2005 a Hydref 2013 mae cyfanswm o 1188 o ddisgyblion cynradd a 424 o ddisgyblion uwchradd wedi elwa o gael mynychu'r canolfannau iaith.</p> <p>Datblygiad cyffrous diweddar yw'r Project ar gyfer Cymathu Rhieni, dan nawdd Y Llywodraeth. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r ddarpariaeth a chafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y rhieni.</p> <p>Er mwyn sicrhau dilyniant priodol yn yr ysgolion bydd athrawon y ganolfan yn cynnig ôl-ofal i bob disgybl wedi iddynt ddychwelyd i'w hysgolion.</p> <p>Sefydlwyd Cynllun Trochi yn Ysgol Tryfan. Mae hwn yn cynnig cyfnod blasu i ddisgyblion B5 yr ysgolion cynradd gyda dilyniant o sylw dwys ar ddechrau'r ysgol uwchradd i ddisgyblion prin eu Cymraeg. Mae hyn yn profi'n llwyddiannus ac yn caniatáu i ddisgyblion na fyddent efallai wedi dewis cyfrwng Cymraeg yn yr uwchradd i barhau â'u hadydg trwy gyfrwng y Gymraeg / dwyieithog.</p> <p>Nifer y disgyblion fynychodd y cwrs trochi rhwng 2007-2013:</p> <table border="1" data-bbox="970 712 1043 1715"> <tr> <td>2007</td> <td>2008</td> <td>2009</td> <td>2010</td> <td>2011</td> <td>2012</td> <td>2013</td> </tr> <tr> <td>o 17</td> <td>o 24</td> <td>o 20</td> <td>o 17</td> <td>o 35</td> <td>o 39</td> <td>o 25</td> </tr> </table>	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	o 17	o 24	o 20	o 17	o 35	o 39	o 25	<p>dilyniant yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd.</p>
2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013										
o 17	o 24	o 20	o 17	o 35	o 39	o 25										
<p>Sefydlu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg a sefydlu cyswllt â Chynllun Plant a Phobl Ifanc. Sicrhau ystyriaethau ar gyfer adnoddau ac ariannu darpariaeth</p>	<p>Fel y nodir uchod, mae gofynion y Polisi Iaith Addysg a Chynllun Iaith y Cyngor yn gyrru holl waith y Cyngor a'r Adran Addysg. Yn y cyd-destun hwn, mae holl weithgareddau ac ystyriaethau'r Cyngor ac yn benodol Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ac Ynys Môn yn rhoi blaenoriaeth i ofynion y Gymraeg.</p> <p>Sefydlwyd gweithgor sydd yn cynnwys cynrychiolaeth o biith swyddogion, GwE, penaethiaid, cyd-gysylltwyr iaith cynradd, cydlynwyr iaith uwchradd yn ogystal â'r Aelod Cabinet Addysg i lywio datblygiad Y Cynllun Strategol. Bydd</p>															

<p>cyfrwng Cymraeg o fewn blynyddoedd cynnar.</p>	<p>y grŵp hwn hefyd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun.</p> <p>Yn yr un modd, bydd cyfraniad Pwyllgor Iaith y Cyngor yn allweddol yn y broses o fonitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau.</p>	
<p>Darparu gwybodaeth i rieni/ofalwyr.</p>	<p>Bydd yr Awdurdod yn paratoui gwybodaeth gyffredinol yn ddwyieithog i rieni ynghylch y ddarpariaeth sirol. Caiff ei ddsbarthu i'r rhieni cynradd ym mis Ionawr ac i'r rhieni uwchradd ym mis Tachwedd. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am y polisi mynediad. Mae'r ysgolion yn paratoui prospectws eu hunain.</p> <p>Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y gwasanaeth Iles addysg ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan fod gallu defnyddio'r ddwy iaith yn ofyn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn .</p> <p>Mae gwasanaeth cymodi annibynnol, ym maes anghenion addysgol arbennig, ar gael ar hyn o bryd trwy drefniant gyda SNAP Cymru, sydd eto yn darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg.</p>	

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Dylid hefyd Ilenwi Atodiadau 2/3

A. Amcan

Cynyddu canran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (laith Gyntaf)


B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)

Dangosir isod nifer disgyblion yng nghohort CA3 ynghyd â'r nifer a'r % asesir yn y Gymraeg fel laith Gyntaf.

	2008	2009	2010	2011	2012	2013
CA3	1150/1441	1135/1426	1054/1290	1185/1427	1154/1341	1095/1328
Gwynedd	80%	80%	82%	83%	86.1%	82.5%
Cymru	5800/3626	5594/3522	5550/3471	5862/3590	5787/3452	
	6 (16%)	1 (15.9%)	7 (16%)	3 (16.3%)	0 (16.8%)	

*nifer yn y garfan/nifer a asesir

Cymharu % a asesir yn CA3 yn erbyn yr un cohort yn CA2, ar nifer yn unig.



Mae'r % a asesir yn y Gymraeg fel laith Gyntaf ar ddiwedd CA3, mewn cymharfaeth ag awdurdodau eraill, yn dda. Fodd bynnag, mae'n ddymuniad i gynyddu'r % trwy ddylanwadu ar arferion mewn un ysgol sydd yn cyfrannu'n sylweddol at nifer y disgyblion nad ydynt yn cael eu hasesu yn y Gymraeg laith Gyntaf ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Mae trafodaethau ynglŷn â sut orau i ddylanwadu ar yr arferion hyn wedi'u cynnal eisoes gyda chyd-gysylltydd iaith dalgylich yr ysgol hon; bwriedir ehangu'r drafodaeth i gylch o benaethiaid cynradd y dalgylich yn Ionawr 2014.

C. Targedau

Pob disgybl sydd wedi ennill lefel 3+ ar ddiwedd CA2 yn parhau gyda'r Gymraeg fel laith Gyntaf yn B7 ac yn cael asesiad Cymraeg laith Gyntaf ar ddiwedd CA3.

Ch. Cynnydd

Canran a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3

	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013
1	83.0	79.8	79.6	81.7	83.0	86.1	82.5
2	71.6	71.4	65.9	66.3	63.3	64.9	
3	59.4	59.8	63.8	63.8	61.2	70.7	
4	30.2	33.1	36.9	35.5	35.4	36.5	
5	19.8	20.5	18.7	20.1	20.7	18.8	
6	16.7	17.8	18.0	17.0	17.0	18.7	
7	15.3	16.0	15.9	16.4	16.4	17.2	
8	14.0	14.1	15.7	16.0	16.3	16.8	
9	11.5	13.1	12.7	13.7	12.7	13.8	
10	10.8	11.1	11.9	11.2	12.2	13.7	
11	10.7	10.6	9.9	10.6	11.5	11.0	
12	10.2	10.1	9.2	10.6	10.7	11.0	
13	8.8	9.9	9.2	10.1	9.6	10.6	
14	8.7	9.5	9.1	9.6	9.4	10.4	
15	8.6	9.3	9.1	9.1	9.0	10.3	
16	8.4	9.0	8.1	8.7	8.9	9.7	
17	7.2	8.8	7.8	8.4	7.5	8.4	
18	4.9	5.0	5.3	4.6	6.9	5.9	
19	6.0	4.6	
20	
21	
22	
23	

Gwynedd
Cymru

(Data Stats Wales heb ei gyhoeddi)

Hyrwyddo trosglwyddo mwy effeithiol rhwng y cyfnod cyn ysgol i

Mae'r Polisi Iaith yn rhoi pwyslais ar ddwyieithrwydd a'r angen i osod sylfeini cadarn ar gyfer y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar ac adeiladu ar hyn yn y

<p>ddarpariaeth statudol, rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 a Chyfnodau Allweddol 3 a 4.</p>	<p>cyfnodau allweddol sy'n dilyn.</p> <p>Gweler Atodiad 2 o ran nifer a chanran y disgyblion sy'n mynychu lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir sy'n darparu'r cyfnod syfaen sy'n trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.</p> <p>Dangosir isod nifer disgyblion yng nghanfan CA1 (a'r cyfnod syfaen) a CA2 a'r nifer a asesir yn y Gymraeg fel laith Gyntaf.</p> <table border="1" data-bbox="507 667 627 1709"> <thead> <tr> <th></th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> <th>2013</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>CA1/CS</td> <td>1193/1218</td> <td>1124/1145</td> <td>1152/1156</td> <td>1108/1126</td> <td>1182/1200</td> <td>1290/1325</td> </tr> <tr> <td>CA2</td> <td>1384/1387</td> <td>1313/1313</td> <td>1272/1277</td> <td>1264/1269</td> <td>1227/1238</td> <td>1128/1139</td> </tr> <tr> <td>CA3</td> <td>1150/1441</td> <td>1135/1426</td> <td>1054/1290</td> <td>1185/1427</td> <td>1154/1341</td> <td>1095/1328</td> </tr> </tbody> </table> <p>*nifer yn y garfan/hifer a asesir</p> <p>Mae'r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion sydd wedi sefyll arholiad Cymraeg laith Gyntaf yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf ynghyd â'r % a lwyddodd i ennill gradd A*-C.</p> <table border="1" data-bbox="831 786 1002 1722"> <thead> <tr> <th></th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> <th>2013</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Nifer yn y garfan</td> <td>1419</td> <td>1425</td> <td>1420</td> <td>1422</td> <td>1394</td> </tr> <tr> <td>Nifer/% yn sefyll</td> <td>1119 (78.9%)</td> <td>1120 (78.6%)</td> <td>1122 (79%)</td> <td>1125 (79.1%)</td> <td>1126 (80.8%)</td> </tr> <tr> <td>% llwyddo A*-C</td> <td>813 (72.7%)</td> <td>813 (72.6%)</td> <td>814 (72.5%)</td> <td>818 (72.7%)</td> <td>817 (72.6%)</td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae'r % sydd yn sefyll arholiad Cymraeg laith Gyntaf wedi cyrraedd 80% ers 2009, sydd yn ffigwr cadarnhaol iawn. Mae'r % sydd yn llwyddo i ennill gradd A*-C hefyd yn dda. Rhagwelir fodd bynnag bydd gwella dilyniant yn CA3 yn cael dylanwad cadarnhaol ar y % sydd yn symud ymlaen i sefyll arholiad TGAU yn y Gymraeg laith Gyntaf. Disgwylir i ffrwyth y trafodaethau yn y dalgylch y cyfeirir ato uchod ddylanwadu yn gadarnhaol ar hynny.</p>		2008	2009	2010	2011	2012	2013	CA1/CS	1193/1218	1124/1145	1152/1156	1108/1126	1182/1200	1290/1325	CA2	1384/1387	1313/1313	1272/1277	1264/1269	1227/1238	1128/1139	CA3	1150/1441	1135/1426	1054/1290	1185/1427	1154/1341	1095/1328		2009	2010	2011	2012	2013	Nifer yn y garfan	1419	1425	1420	1422	1394	Nifer/% yn sefyll	1119 (78.9%)	1120 (78.6%)	1122 (79%)	1125 (79.1%)	1126 (80.8%)	% llwyddo A*-C	813 (72.7%)	813 (72.6%)	814 (72.5%)	818 (72.7%)	817 (72.6%)	<p>Pob disgybl sydd wedi ennill lefel 3+ ar ddiwedd CA2 yn cael asesiad yn y Gymraeg laith Gyntaf ar ddiwedd CA4. Aneilir at sicrhau'r dilyniant hwn.</p> <p>Yn flynyddol</p> <p>Sicrhau nad oes yr un disgybl yn gadael yr un o'r ysgolion yn 16 oed heb gymhwyster cydnabyddedig yn y Gymraeg.</p> <p>Yn flynyddol</p>	
	2008	2009	2010	2011	2012	2013																																																	
CA1/CS	1193/1218	1124/1145	1152/1156	1108/1126	1182/1200	1290/1325																																																	
CA2	1384/1387	1313/1313	1272/1277	1264/1269	1227/1238	1128/1139																																																	
CA3	1150/1441	1135/1426	1054/1290	1185/1427	1154/1341	1095/1328																																																	
	2009	2010	2011	2012	2013																																																		
Nifer yn y garfan	1419	1425	1420	1422	1394																																																		
Nifer/% yn sefyll	1119 (78.9%)	1120 (78.6%)	1122 (79%)	1125 (79.1%)	1126 (80.8%)																																																		
% llwyddo A*-C	813 (72.7%)	813 (72.6%)	814 (72.5%)	818 (72.7%)	817 (72.6%)																																																		
<p>Hyrwyddo cyfran uwch o ddarpariaeth</p>	<p>Dengys y tabl isod y cynnydd yn nifer a % disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 dros y 5 mlynedd diwethaf.</p>																																																						

cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion dwyieithog.

	2008	2009	2010	2011	2012	2013
Lefel 3+	1295/1378 (94%)	1255/1307 (96.0%)	1208/1272 (95%)	1201/1264 (95%)	1168/1228 (95.1%)	1094/1130 (96.8%)

Nid yw'r sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgygliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y sir fod yn hyderus ddwyieithog. Ceir un eithriad i hyn ym Mangor gan fod dwy ysgol uwchradd, Ysgol Tryfan ac Ysgol Friars yn rhannu'r un dalgylch. Mae disgygliad cyffredin ar y ddwy ysgol i gynnig dilyniant Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 i'r disgyblion hynny enillodd lefel 3+ [lefel 3 neu uwch] ar ddiwedd CA2. Yr hyn sy'n amrywio rhwng y ddwy ysgol yw'r ddarpariaeth drawsbynciol; cynigir yr holl bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Tryfan tra mai'r disgygliad tymor hir ar gyfer Ysgol Friars yw sicrhau bod rhannau o'r cwricwlwm ar gael yn ddwyieithog.

Mae'r tabl isod yn dangos % disgyblion enillodd **lefel 3+ neu uwch** yn CA2 a gafodd asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3.

% disgyblion enillodd lefel 3+ neu uwch yn CA2 a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3						
	2008	2009	2010	2011	2012	2013
Gwynedd	1066/1222 (87.2%)	1066/1213 (87.9%)	985/1111 (88.7%)	1113/1238 (89.9%)	1104/1205 (91.6%)	1047/1163 (90.0%)

Mae'r % sydd yn parhau â'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac yn cael eu hasesu ar ddiwedd CA3 yn dda. Mae hyn i'w ganmol ond nid yw'r ffigurau cystal mewn un ysgol uwchradd lle nad yw'r disgyblion yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf os nad ydynt wedi derbyn lefel 4 neu well ar ddiwedd CA2. Bydd annog yr ysgol i symud fwy-fwy tuag at y targed yn un o flaenoriaethau'r Cynllun Strategol ac yn brif faes ar gyfer y trafodaethau yn nalgylch Ysgol Tryfan / Ysgol Friars ynglŷn â sut orau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar hynny.

O safbwynt dilyniant yn y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng, bydd angen cadarnhau'r disgygliad i bob ysgol roi sylw i ddefnyddio'r carfanau iaith fel sail i dracio datblygiad ieithyddol yn ystod oes y Cynllun hwn. Cryfheir y gweithredu

Cryfhau'r gweithredu yn nalgylch Bangor.

Pob ysgol i ddefnyddio'r carfanau iaith i gynllunio'n ieithyddol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu er mwyn sicrhau parhad neu welliant yng ngharfan ieithyddol ar lefel disgyblion unigol.

Pob ysgol yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu a dysgu er mwyn cynyddu'r % arnodir yng ngharfanau iaith A neu B.

hwn yn awr trwy gyfrwng gwaith y cyd-gysylltwyr iaith dalgylchol a'r cydlynwyr iaith uwchradd a dyma faes a gaiff sylw penodol yn y dalgylch y cyfeiriwyd ati eisoes.

Caiff yr ysgolion uwchradd wybodaeth am **garfanau iaith** pob disgybl gan Gyd-gysylltydd iaith y dalgylch, a hynny wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd. Bydd hyn o gymorth wrth iddynt benderfynu ar y ddarpariaeth fwyaf priodol ar eu cyfer o ran iaith a chyfrwng pynciau, ac er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad.

Cynhaliwyd awdit yn 2010 i ganfod gwybodaeth am gyfrwng y cwricwlwm ac arholiadau yn yr ysgolion uwchradd. Deil y sefyllfa yr un fath.

Cyfrwng y cwricwlwm

Cymraeg	Saesneg	Dwyieithog ffurfiol	Defnydd o'r ddwy iaith
6	1	2	5

Cyfrwng arholiadau

Cymraeg	Saesneg	Defnydd o'r ddwy iaith
3	2	9

Yn yr addysgu a'r dysgu ei hun fe gyfeiria **dwyieithog ffurfiol** at drefn fydliol ble gofeir bod yr addysgu, y deunyddiau, y tasgau a'r trafod yn digwydd yn yr iaith a briodolir ar gyfer uned. Yr athro sydd yn rheoli'r sefyllfa hon.

Yn yr ysgolion ble cyfeirir at y **defnydd o'r ddwy iaith**, er nad yr un mor strwythuredig â'r uchod, defnyddir y ddwy iaith i atgyfnerthu'r dysgu, a rhoddir pwyslais ar dasgau trawsieithu, sef delio efo adnodd mewn un iaith ac ymateb iddo yn yr iaith arall.

Dymunir tanlinellu mai cynnwys, cyfrwng a holl drefniadaeth cyflwyno'r cwricwlwm sy'n derbyn blaenoriaeth yn hytrach na chyfrwng papurau arholiad.

Mae angen parhau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i ehangu'r ddarpariaeth ar

	<p>gyfer pynciau trwy gyfwrng y Gymraeg ac i ffurfioli'r sefyllfaoedd lle gwneir defnydd o'r ddwy iaith. Bydd hyn yn cael sylw trwy waith y Cyd-gysylltwyr Iaith Dalgylchoi a'r Cydlynwyr Iaith ysgolion Uwchradd sydd yn cyfarfod yn rheolaidd.</p>		
--	--	--	--

LEFAPRO

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.																											
Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith																											
Gweler Atodiad 4																											
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Targedau	Ch. Cynnydd																								
Cynyddu canran y myfyrwyr 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.	<p>Mae'r tabl isod yn dangos % disgyblion B11 sy'n astudio ar gyfer 2 neu fwy o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg:</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> <th>2013</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>1074/1454 (73.9%)</td> <td>1121/1361 (82.4%)</td> <td>1090/1395 (78.1%)</td> <td>1083/1375 (78.8%)</td> <td>988/1249 (79.1%)</td> <td>1141/1392 (82.0%)</td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae'r tabl isod yn dangos % disgyblion B11 sy'n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg :</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> <th>2013</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>870/1454 (59.8%)</td> <td>870/1361 (63.9%)</td> <td>848/1395 (60.8%)</td> <td>890/1375 (64.7%)</td> <td>837/1249 (67%)</td> <td>993/1392 (71.3%)</td> </tr> </tbody> </table>	2008	2009	2010	2011	2012	2013	1074/1454 (73.9%)	1121/1361 (82.4%)	1090/1395 (78.1%)	1083/1375 (78.8%)	988/1249 (79.1%)	1141/1392 (82.0%)	2008	2009	2010	2011	2012	2013	870/1454 (59.8%)	870/1361 (63.9%)	848/1395 (60.8%)	890/1375 (64.7%)	837/1249 (67%)	993/1392 (71.3%)		
2008	2009	2010	2011	2012	2013																						
1074/1454 (73.9%)	1121/1361 (82.4%)	1090/1395 (78.1%)	1083/1375 (78.8%)	988/1249 (79.1%)	1141/1392 (82.0%)																						
2008	2009	2010	2011	2012	2013																						
870/1454 (59.8%)	870/1361 (63.9%)	848/1395 (60.8%)	890/1375 (64.7%)	837/1249 (67%)	993/1392 (71.3%)																						
Sicrhau bod darpariaeth i ddysgwyr 14-16 oed yn cydymffurfio â'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009	<p>Mae holl ysgolion yn ymateb i ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau ac wedi manteisio ar bartneriaethau cydweithredol.</p> <p>Ar draws yr ysgolion uwchradd darperir 153 o gymwysterau gwahanol trwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog ar gyfer 10,883 (59%) o ymgeiswyr yn y B11 gyfredol. Darperir 22 o'r cymwysterau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig ar gyfer 2542 o ymgeiswyr.</p> <p>Parheir i hyrwyddo datblygiad addysg ddwyieithog fel un o brif flaenoriaethau strategol y Rhwydwaith 14-19 a sicrhair dilyniant iethyddol</p>	<p>Yn flynyddol :</p> <ul style="list-style-type: none"> o Gweithio gyda'r prif randdeiliaid i sicrhau bod yr arlwy yn caniatáu mynediad i ddarpariaeth ddwyieithog ar draws y pynciau galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru 																									

<p>Cynyddu canran y myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn</p>	<p>priodol fel rhan greiddiol o gylch gorchwyl grwpiau gweithredol y Rhwydwaith.</p> <p>Disgwylir i bob cwrs 14-16 gaiff ei gyllido trwy'r grant fod ar gael yn ddwyieithog [mewn eithriadau prin yn unig y rhoddir ystyriaeth i gefnogi cyrsiau fydd ar gael mewn un iaith yn unig].</p> <p>Mae 4 o'r 6 cwrs galwedigaethol cydweithredol ôl 16 a ddarperir gan Goleg Menai ar gyfer ysgolion ardal Arfon yn cael eu darparu yn ddwyieithog ac am 39 o fyfyrwr yn eu dilyn. Darperir nifer o'r cyrsiau cydweithredol rhwng ysgolion hefyd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog Mae'r cyrsiau cydweithredol yn cynnwys y ddarpariaeth gydweithredol gydag ysgolion Ynys Môn, lle cyfngir i uchafswm o 15 dysgwr y cwrs ar draws y ddwy ardal.</p> <p>Yn y tymor byr byddir yn parhau i ddatblygu adnoddau e-ddysgu rhyngweithiol dwyieithog trwy waith Canolfan e-ddysgu'r Rhwydwaith 14-19 (Y GRE) a gyllidir trwy arian grant 14-19.. Hyrwyddir y defnydd o'r adnoddau hyn trwy Grŵp Defnyddwyr sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob ysgol a thrwy raglen hyfforddiant flynyddol. Trwy gydweithrediad rhanbarthol darperir hyfforddiant dwyieithog ar y defnydd o'r adnoddau hyn.</p> <p>Mae pob ysgol yn sicrhau bod pob disgybl CA4 yn gwneud defnydd o'r Cynllun Llwybr Dysgu unigol sydd ar gael yn ddwyieithog i gofnodi ei lwybr dysgu (yn cynnwys y cyrsiau astudio mae ganddo'r hawl i'w hastudio a'r cymorth personol sydd ar gael).</p>	<p>yn CA4</p> <ul style="list-style-type: none"> o Sicrhau bod y Grwpiau Partneriaeth ac Is-grŵp Ansawdd Rhwydwaith 14-19 yn monitro dilyniant ieithyddol yn y cyrsiau a ddarperir. o Sicrhau bod cyrsiau galwedigaethol a cydweithredol ariennir trwy grant Llwybrau Dysgu ar gael yn y Gymraeg/dwyieithog [gan gynnwys unrhyw gyrsiau a ddarperir gan y Colegau] 									
<p>Cynyddu canran y myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn</p>	<p>Mae'r tabl isod yn dangos % myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <table border="1" data-bbox="1276 784 1372 1713"> <thead> <tr> <th>% myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Nifer 16-19</td> <td>717</td> <td>729</td> <td>748</td> </tr> </tbody> </table>	% myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion	2010	2011	2012	Nifer 16-19	717	729	748	<p>Yn flynyddol :</p> <ul style="list-style-type: none"> o Gweithio gyda'r prif randdeiliaid i sicrhau bod yr arlwy 16+ yn caniatáu mynediad i ddarpariaeth 	
% myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion	2010	2011	2012								
Nifer 16-19	717	729	748								

ysgolion.

C=Cymraeg	254 (35.4%)	274 (37.6%)	290 (38.8%)
P=Dwyieithog	374 (52.2%)	368 (50.5%)	424 (56.7%)
R=Dwy iaith yn yr un dosbarth	275 (38.4%)	297 (40.7%)	248 (33.2%)
E=Saesneg	398 (55.5%)	421 (57.8%)	408 (54.5%)

	2013
Nifer 16-19	698
C=Cymraeg	293 (42.0%)
P=Dwyieithog	431 (61.7%)
R=Dwy iaith yn yr un dosbarth	212 (30.4%)
E=Saesneg	356 (51.0%)

Mae rhai cyfngiadau ar y data. Mae pedwar cod ar gyfer Welsh Medium Learning Activity, sef [C] (Cymraeg), [E] (English), [P] (Dwyieithog) ac [R] (grwpiau iaith gwahanol yn yr un dosbarth). Mae [C] a [P] wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad uchod ond nid [R] gan na ellir gwahaniaethu rhwng y rhai cyfrwng Cymraeg/Saesneg yn yr un grwp. Noder bod pob pwnc UG/A [gan gynnwys BAC a SHC] wedi'u cynnwys.

Gwna'r Rhwydwaith 14-19 ddefnydd o grant refereniw 14-19 i hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog ôl 16. Sicrhair dilyniant ieithyddol ar gyfer y darpariaethau cydweithredol galwedigaethol CA4 [ac eithrio mewn Cyfryngau Creadigol Gemau Cyfrifiadurol].

Hyrwyddir y defnydd o'r ystod o adnoddau e-ddysgu rhyngweithiol dwyieithog o ansawdd uchel iawn sydd wedi'u datblygu trwy waith Canolfan e-ddysgu'r Rhwydwaith 14-19 (Y GRE) a chefnogi agweddau ar addysgeg hyblyg trwy ddatblygiadau'r 'Moodle'.

Arweinir y gwaith cynllunio strategol yng nghyd-destun gofynion agenda Trawsnewid gan y Bartneriaeth Ddysgu 16+. Un o'r prif ffrydiau gwaith fydd adnabod effaith tebygol model cydweithredol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Rhoddir sylw hefyd i adnabod y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis cyfrwng dysgu 16+.

O fis Ionawr 2013 bu'r Bartneriaeth Ddysgu 16+ yn adnabod anghenion

ddwyieithog ar draws y pynciau

- o Gweithio gyda'r partneriaid allweddol i gynyddu'r ganran sy'n dewis dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog

	<p>ar gyfer Bwrdd Arweiniol Consortïwm Dysgu 16-19 Gwynedd ac Ynys Môn (Cam 1) gan roi ystyriaeth i ddata am gyfrwng iaith wrth lunio blaenoriaethau strategol ar gyfer Cam 2 (Gosod disgwyliad a chyfeiriad).</p> <p>Adnabuwyd yr angen i gysoni prosesau derbyn dysgwyr ar gyrsgiau ôl-16 yr ardal i sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth a cyfrwng iaith mae cwrs yn cael ei ddysgu. Yn ogystal, mae angen sefydlu fframwaith o fesurau ar gyfer dwyieithrwydd fel bo darpariaeth ôl-16 gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol yn cael ei fonitro ac i adnabod bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd trefn holiaduron yn cael ei ddarparu gan y Consortïwm ar gyfer Llais y Dysgwr er mwyn adnabod sut mae dysgwyr yn dewis cyfrwng iaith ar gyrsgiau ôl- 16.</p> <p>Elfen arall o waith y Consortïwm fydd adnabod cyfleon yn yr economi ble mae defnydd o'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer gwaith.</p> <table border="1" data-bbox="735 1162 876 1727"> <thead> <tr> <th>Blwyd dyn</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>n2+</td> <td>461</td> <td>439</td> <td>442</td> <td>506</td> </tr> <tr> <td>n</td> <td>722</td> <td>717</td> <td>729</td> <td>748</td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae angen rhoi sylw pellach i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • canran dysgwyr 16-19 sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg / yn ddwyieithog e.e. elfennau o gymwysterau/modiwliau • barn am y ganran hon ac a oes angen unrhyw weithredu penodol mewn partneriaeth gydag ysgolion i'w chynnal neu ei chynyddu. <p>Bydd hyn yn cael ei ddatblygu fel mesur perfformiad yn rhan o Cam 1 Cylch Cynllunio a Gweithredu y Consortïwm sef y Data a Tystiolaeth er mwyn adnabod bylchau yn y ddarpariaeth.</p>	Blwyd dyn	2009	2010	2011	2012	n2+	461	439	442	506	n	722	717	729	748		
Blwyd dyn	2009	2010	2011	2012														
n2+	461	439	442	506														
n	722	717	729	748														
<p>Gweithio drwy rwydweithiau ardal 14-19 a Fforymau 14-19</p>	<p>Trwy gydweithio cynyddol gyda Rhwydwaith 14-19 Ynys Môn darperir cyfres o gyrsgiau galwedigaethol dwyieithog ar gyfer disgyblion CA4 a myfyrwyr 16+.</p>																	

<p>er mwyn cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Ar lefel ranbarthol cefnogir gwaith Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg y Gogledd a thwy hynny hynwyddir gwaith Ffora Cymru. Trwy ddefnydd bwriadol o arian Liwybrau Dysgu llwyddwyd i ehangu'r cyd-weithio traws-ffiniol ac chefnogwyd nifer o bartneriaid lleol i ddarparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i sefydliad tu hwnt i ardal. Mae'r cydweithio hwn yn cynnwys darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg a datblygu adnoddau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p>	
<p>Casglu a defnyddio data ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19</p> <p>Cynllunio ar gyfer darpariaeth ôl-16 o fewn partneriaethau.</p>	<p>Mae'r Rhwydwaith 14-19 trwy ei grwpiau partneriaeth yn cynllunio ar gyfer darpariaeth ôl 16 cyfrwng Cymraeg yn unol â phrotocolau cytunedig.</p> <p>Mae'r Bartneriaeth Ddysgu 16+ yn rhoi sylw wrth gynllunio i effaith tebygol model cydweithredol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog ac i adnabod y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis cyfrwng dysgu 16+.</p> <p>Fel rhan o'r paratodau tuag at sefydlu Consortiwm Dysgu 16-19 Gwynedd ac Ynys Môn rhoddir sylw i greu cyfundrefnau casglu data lleol mwy effeithiol fydd wedyn yn gallu dylanwadu ar gynllunio dapraiaethau cydweithredol ôl 16.</p> <p>Fel cyfeiriwyd ato yn flaenorol mae'r uchod yn rhan greiddiol o waith y Consortiwm. Mae'r Cylch Gweithredu a Monitro y Consortiwm wedi cychwyn yn Tachwedd 2013 ac mae angen datblygu fframwaith o fesurau cyson ar gyfer holl darparwyr sydd yn cynnig amrediad o gyrsiau ar sut ddefnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu.</p> <p>Yn y ddarpariaeth gydweithredol gydag ysgolion Ynys Môn, mae'r nifer sydd yn gallu dilyn cyrsiau ar y cyd yn gyfyngedig i uchafswm o 15 dysgwr y cwrs.</p> <p>Mae darpariaeth gydweithredol rhwng ysgolion Arfon yn cynnig mynediad i gyrsiau academaidd trwy gyfrwng y Gymraeg : Addysg Gorfforol, Cymdeithaseg, Drama, Daearyddiaeth, Hanes, Seicoleg. Mewn rhai</p>	

achosion mae'r ddarpariaeth hon yn weithredol ar draws ardal Môn/Menai.

Mae sicrhau dilyniant ieithyddol priodol yn rhan greiddiol o gylich gorchwyl y Grŵp Partneriaeth ac Is-grŵp Cynllunio'r Rhwydwaith 14-19 a bydd data parthed nifer cyrsiau/nifer dysgwyr yn cael ei drafod yn ystod y flwyddyn i wirio cydymffuriad ac i fesur cynnydd.

Dengys y tabl y nifer a'r ganran myfyrwyr sy'n astudio'r BAC drwy gyfrwng y Gymraeg (C), Dwyieithog (P), mewn dosbarth iaith gymysg (R) a Saesneg (E)

	2009	2010	2011	2012	2013
N	722	717	729	748	
C	38 (5.3%)	73 (10.2%)	84 (11.5%)	91 (12.2%)	
P	154 (21.3%)	158 (22%)	134 (18.4%)	205 (27.4%)	
R	62 (8.6%)	64 (8.9%)	86 (11.8%)	127 (17%)	
E	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)	

Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Dylid hefyd Ilenwi Atodiad 4

A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Targedau	Ch. Cynnydd																																												
Gwella gwaith sgiliau llythrennedd Cymraeg.	<p>Mae'r awdurdod yn rhoi sylw i wella safonau llythrennedd Cymraeg drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Herio perfformiad [a thueddiadau mewn perfformiad] CS/CA2/CA3/CA4/CA5 fel rhan o ymweliad monitro tymhorol [Ymweliad 1] • Herio perfformiad [a thueddiadau mewn perfformiad] yn y profion darllen fel rhan o ymweliad monitro tymhorol [Ymweliad 1] • Herio ansawdd cyflawniad/adborth staff fel rhan o ymweliad monitro tymhorol [Ymweliad 2] • Adnabod a chrisialu'r prif faterion sydd angen sylw pellach gan ysgolion a chomisiynau cefnogaeth bellach ar gyfer achosion/sefyllfaoedd penodol • Cyflwyno rhaglen hyfforddiant flynyddol ar gyfer rhaglenni ymyrraeth ee Dyfal Donc • Adnabod arferion rhagorol/da ar lefel ranbarthol a sicrhau bod yr arferion hynny yn cael eu rhaeadru'n briodol • Hwyluso gwaith y Partneriaid Cynorthwyl parthed targedu cynhaliath ac arweiniad ym maes llythrennedd y Gymraeg • Cefnogi'r rhaglen gymorth genedlaethol [CFBT] a monitro ymateb ysgolion 																																														
Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf.	<table border="1" data-bbox="1037 604 1173 1825"> <thead> <tr> <th colspan="5">% disgyblion Y Cyfnod Sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg</th> </tr> <tr> <th></th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> <th>2013</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Lefel 2+/Deilliant 5+</td> <td>1076/1222 (88.1%)</td> <td>1044/1121 (93.1%)</td> <td>1044/1148 (90.9%)</td> <td>1023/1106 (92.5%)</td> <td>1035/1182 (87.6%)</td> <td>1120/1290 (86.8%)</td> </tr> </tbody> </table> <table border="1" data-bbox="1204 638 1332 1814"> <thead> <tr> <th colspan="5">% disgyblion CA2 enillodd lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg</th> </tr> <tr> <th></th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> <th>2013</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>% lefel 4+</td> <td>909/1255 (72.4%)</td> <td>1084/1378 (78.7%)</td> <td>1076/1307 (82.3%)</td> <td>1066/1272 (83.8%)</td> <td>1046/1264 (84.2%)</td> <td>1034/1228 (84.2%)</td> <td>983/1130 (87%)</td> </tr> </tbody> </table> <table border="1" data-bbox="1364 750 1396 1803"> <thead> <tr> <th colspan="2">% disgyblion CA3 enillodd lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td></td> <td></td> </tr> </tbody> </table>	% disgyblion Y Cyfnod Sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg						2008	2009	2010	2011	2012	2013	Lefel 2+/Deilliant 5+	1076/1222 (88.1%)	1044/1121 (93.1%)	1044/1148 (90.9%)	1023/1106 (92.5%)	1035/1182 (87.6%)	1120/1290 (86.8%)	% disgyblion CA2 enillodd lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg						2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	% lefel 4+	909/1255 (72.4%)	1084/1378 (78.7%)	1076/1307 (82.3%)	1066/1272 (83.8%)	1046/1264 (84.2%)	1034/1228 (84.2%)	983/1130 (87%)	% disgyblion CA3 enillodd lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg					
% disgyblion Y Cyfnod Sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg																																															
	2008	2009	2010	2011	2012	2013																																									
Lefel 2+/Deilliant 5+	1076/1222 (88.1%)	1044/1121 (93.1%)	1044/1148 (90.9%)	1023/1106 (92.5%)	1035/1182 (87.6%)	1120/1290 (86.8%)																																									
% disgyblion CA2 enillodd lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg																																															
	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013																																								
% lefel 4+	909/1255 (72.4%)	1084/1378 (78.7%)	1076/1307 (82.3%)	1066/1272 (83.8%)	1046/1264 (84.2%)	1034/1228 (84.2%)	983/1130 (87%)																																								
% disgyblion CA3 enillodd lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg																																															

	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013
% Iefel 5+	890/1159 (76.8%)	857/1150 (74.5%)	885/1135 (78.0%)	808/1054 (76.7%)	984/1185 (83.0%)	996/1154 (86.3%)	987/1095 (90.1%)
% disgyblion CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg							
	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013
% A*-C	798/1107 (72.1%)	829/1117 (74.2%)	803/1119 (71.8%)	777/1147 (67.7%)	808/1117 (72.3%)	752/1017 (73.9%)	817/1136 (71.9%)

<p>Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr bob oedran ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.</p>	<p>Fel y nodir uchod mae'r % sy'n cael asesiad Cymraeg iaith Gyntaf ar ddiwedd y cyfnodau allweddol a'r % sy'n cyrraedd y lefelau/graddau digwyliedig yn dda. Serch hynny, mae angen parhau i geisio gwella a chodi safonau yn y Gymraeg ac yn y cyd-destun hwn bydd disgwyl i bob ysgol uwchradd ddefnyddio'r carfanau iaith i gynllunio'n ieithyddol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu. Rhagwelir hefyd bydd cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd o ran sicrhau cyd-ddealltwriaeth o lefelau /asesiadau a pharatoi proffiliau ar gyfer eu hachredu yn gymorth i'r cyfeiriad hwn.</p>		
<p>Cynyddu i ddysgwyr bob oedran ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.</p>	<p>Sefydlwyd gweithgor 'Hyryddo'r Gymraeg yng Ngwynedd' dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Addysg yn dilyn canfyddiadau ardrwiad iaith yn rhai o ysgolion cynradd Gwynedd. Mae hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o'r ysgolion cynradd, y Cyngor, yr Adran Addysg ac eraill. Trafodwyd dulliau o geisio hyrwyddo'r Gymraeg tu allan i furiau'r dosbarth. Cynhaliwyd cynhadledd Ffactor C ym Mehefin 2011 ac fe lanswyd Siarter Iaith ar gyfer ysgolion yn y gynhadledd.</p> <p>Trwy gyfrwng y Siarter Iaith sicrheir fod pob haen o gymuned yr ysgol h.y. disgyblion, rhieni, llywodraethwyr – yn atebol/weithredol wrth hyrwyddo agwedd iach/cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Gosodir targedau bendant ar gyfer gofynion y wobwr efydd o'r Siarter sy'n sicrhau bod arweiniad a strategaeth pendant yn cael ei llunio ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhob ysgol a hynny'n unol â sefyllfa ieithyddol/gweledigaeth pob gymuned unigol. Sicrheir, trwy gyfrwng y targedau a osodir, fod gweithdrefnau gwobrwyo/annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y dosbarth ac ar y buarth, wedi'u sefydlu e.e. targedau gweledol 'Camau tua'r Copa' sy'n gosod camau clir ar sut i gynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg a.y.y.b.</p> <p>Mae un targed ar gyfer y wobwr arian wedi'u gosod ymhob adran, ac mae'n ofynnol i bob ysgol</p>	<p>Cydweithio gyda Hunaniaith ac asiantaethau eraill er mwyn atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.</p>	

ymgyrraedd at y targedau hynny. Mae pob ysgol wedi derbyn arweiniad a disg sy'n cynnwys adnoddau pwrpasol i weithredu'r targedau yma. Ymhellach na hynny, mae pob ysgol yn gosod eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer gofynion y wobwr arian.

Yn sgil hynny:

- Mae Cymunedau Dysgu Proffesiynol Siarter Iaith wedi'u ffurfio er mwyn cyd-weithio ar brosiectau i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r Gymraeg yn ddalgyrchol
- Mae llais y plentyn yn gryf yn y broses o hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg e.e. aelodau'r Cyngor Ysgol yn gweithredu ar syniadau i ddylanwadu ar y gymuned ehangach i ddefnyddio'r Gymraeg
- Cynhelir gweithgareddau sy'n rhoi ffocws ar godi proffil a gwerth y Gymraeg mewn ysgolion
- Anelir at newid agweddau/ cynnal agweddau iach tuag at yr iaith gyda phob ysgol yn gyfrifol am gyflwyno pamffled a chyflwyniad sy'n trosglwyddo'r neges pa mor werthfawr ydy siarad Cymraeg a'r fantais sydd yna o fod yn ddwyieithog. Mae pob ysgol wedi derbyn pamffled, cyflwyniad ac arweiniad ar sut i annerch rhieni ar fanteision addysgol, economaidd, diwylliannol sydd yna o fod yn hyfedr ddwyieithog.
- Rhannu arferion da.Sicrhau hyfforddiant gemau buarth i bob ysgol yng Ngwynedd.

O ran y sector uwchradd, sefydlwyd Gweithgor Cynyddu'r Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg yn y Sector Uwchradd ym mis Medi 2013. Mae'r gweithgor yn canolbwyntio ar ddatblygu a sefydlu dilyniant i Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd yn y sector uwchradd. Bydd y bobl ifanc eu hunain yn chwarae rhan ganolog yn natblygiad y cynllun. Prif nôd y prosiect yw darganfod neu lunio datrysiadau ymarferol i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc ysgolion uwchradd Gwynedd.

Gellir rhagdybio hefyd y bydd rhwydweithiau cefnogol a chymunedau dysgu proffesiynol yn cael eu ffurfio a'u defnyddio yn yr un modd a chyda'r Siarter Iaith Gynradd er mwyn cyd-weithio ar brosiectau i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r Gymraeg yn ddalgyrchol.

Gellir hefyd rhagdybio y bydd unrhyw gynllun yn anelu tuag at newid agweddau/ cynnal agweddau iach tuag at yr iaith a dwyieithrwydd. Mae'n bosib y bydd bob ysgol (fel ag yn achos y Siarter Gynradd) yn gyfrifol am gyflwyno pamffled a chyflwyniad sy'n trosglwyddo'r neges pa mor werthfawr ydy siarad Cymraeg a'r fantais sydd o fod yn ddwyieithog i blant a

	<p>rhieni. Cyflwyno/ annerch rhieni ar fanteision addysgol, economaidd, diwylliannol sydd i'w plant o fod yn hyfedr dwyieithog.</p> <p>O ran cefnogi ysgolion i gynllunio ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ac i fesur effaith eu cynlluniau bydd yr Awdurdod yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi arweiniad / rhannu adnoddau sy'n cefnogi targedau'r Siarter laith trwy gyfrwng cynadleddau, e-byst, disgiau Cd a.y.y.b. • Cyfathrebu, rhoi arweiniad a gosod disgwyliadau clir o'r targedau sydd angen eu gosod ar gyfer y Siarter trwy fformat 'rhaglen weithredu'. Rhannu arferion da sy'n bodoli o 'ysgol i ysgol'. Sicrhau cyfathrebu rheolaidd trwy e-bost/ Trydar/Gweplyfr a.y.y.b. • Enghreifftio'r dystiolaeth a'r ffyrdd o fesur effaith sydd angen i bob ysgol gyflwyno trwy ffurfio a rhannu llyfr gwybodaeth (Mesur deilliannau) • Cyd-weithio/cyd gynllunio efo'r ysgolion ar syniadau/ gweithgareddau sy'n rhoi ffocws ar godi profil a gwerth y Gymraeg e.e. gwahodd 'enwogion' i'r ysgolion er mwyn cynnwys diddordeb ac ysbrydoli plant. Cynnal ffair Gymreig, wythnosau 'Cymru Cwl' a.y.y.b. • Arfogi ysgolion i siarad gyda rhieni am fanteision y Gymraeg trwy lunio taflenni a chyflwyniadau parod ar eu cyfer. • Cyd weithio'n agos efo Cymraeg i Oedolion er mwyn sicrhau cefnogaeth ac annog rhieni i fynychu gwersi ac i ddysgu'r Gymraeg yn yr ysgolion. Strwythuro gweithgareddau fel bo'r 'dysgwyr' a'r disgyblion yn cael ymarfer defnyddio'r Gymraeg efo'i gilydd. Rhannu'r broses a'r templeddau a ddefnyddir ymysg yr ysgolion peilot efo gweddill ysgolion Gwynedd. • Rhannu adnoddau sy'n cefnogi targedau'r Siarter laith trwy gyfrwng cynadleddau, e-byst, disgiau Cd a.y.y.b. • Cyfathrebu, rhoi arweiniad a gosod disgwyliadau clir o'r nodau sy'n ddisgwyliedig. Rhannu arferion da, enghreifftio'r dystiolaeth sydd angen trwy lythyr a fformat 'rhaglen weithredu'. Enghreifftio'r math o dystiolaeth sy'n mesur effaith/cynnydd e.e. holiaduron cyn/ar ôl gweithgaredd, cofnod o gynnydd ar dargedau gweledol, cofnod o weledigaeth y Cyngor Ysgol a.y.y.b. • Arfogi ysgolion i siarad gyda rhieni am fanteision y Gymraeg trwy lunio taflenni a chyflwyniadau parod ar eu cyfer. • Cyd weithio'n agos efo Cymraeg i Oedolion er mwyn sicrhau cefnogaeth ac annog 	
--	---	--

	<p>rhieni i fynychu gwersi ac i ddyngu'r Gymraeg yn yr ysgolion. Strwythuro gweithgareddau fel bo'r 'dysgwyr' a'r disgyblion yn cael ymarfer defnyddio'r Gymraeg efo'i gilydd. (Cynllun peilot)</p> <p>O ran sicrhau bod ysgolion yn mabwysiadu agwedd ysgol gyfan i gynllunio ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gofynion y wobr efydd a'r arian o'r Siarter Iaith yn sicrhau bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn weithredol ac yn atebol i'r nod o gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. • Mae pob ysgol yn gyfrifol am lunio 'rhaglen weithredu' yn seiliedig ar eu cefndir ieithyddol a'u gweledigaeth unigol. Mae yna dargedau ymhob adran o'r Siarter Iaith hefyd sydd yn ofynnol i bawb ymgyrhaedd atynt. Bydd pob ysgol yn cael eu hachredu gan ddilyswyr allanol. • Bydd Canllaw'r Llywodraeth ar gyfer Datblygu Cymraeg Anffurfiol yn y Sector Uwchradd yn bwydo i mewn i gynllun Gwynedd 																																																		
<p>Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith.</p>	<p>Dengys y tablau isod niferoedd disgyblion aseswyd yn y Gymraeg fel Ail Iaith ar ddiwedd CA2 a CA3.</p> <table border="1" data-bbox="815 640 879 1821"> <thead> <tr> <th>CA2</th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> <th>2013</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>L4+</td> <td>0/0</td> <td>0/0</td> <td>0/0</td> <td>0/0</td> <td>0/4</td> <td>0/3</td> <td>0/1</td> </tr> </tbody> </table> <table border="1" data-bbox="903 640 991 1821"> <thead> <tr> <th>CA3</th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> <th>2013</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>L5+</td> <td>72/213 (33.8%)</td> <td>160/295 (54.2%)</td> <td>187/293 (63.8%)</td> <td>136/238 (57.1%)</td> <td>139/246 (56.5%)</td> <td>127/191 (66.5%)</td> <td>180/236 (76.3%)</td> </tr> </tbody> </table> <p>Ni weithredwyd peilot ail iaith yn ysgolion Gwynedd.</p> <p>Mae'r tabl isod yn nodi % disgyblion diwedd CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith (cwrs llawn).</p> <table border="1" data-bbox="1193 640 1281 1821"> <thead> <tr> <th>A*-C</th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> <th>2013</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>A*-C</td> <td>163/208 (78.4%)</td> <td>213/268 (79.5%)</td> <td>179/215 (83.3%)</td> <td>200/255 (78.4%)</td> <td>195/237 (82.3%)</td> <td>159/195 (81.5%)</td> <td>183/210 (87.1%)</td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae'r nifer yn fach ac mae % llwyddiant yn dda yn ei gyd-destun ei hun. Continuiwrm iaith.</p>	CA2	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	L4+	0/0	0/0	0/0	0/0	0/4	0/3	0/1	CA3	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	L5+	72/213 (33.8%)	160/295 (54.2%)	187/293 (63.8%)	136/238 (57.1%)	139/246 (56.5%)	127/191 (66.5%)	180/236 (76.3%)	A*-C	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	A*-C	163/208 (78.4%)	213/268 (79.5%)	179/215 (83.3%)	200/255 (78.4%)	195/237 (82.3%)	159/195 (81.5%)	183/210 (87.1%)		
CA2	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013																																												
L4+	0/0	0/0	0/0	0/0	0/4	0/3	0/1																																												
CA3	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013																																												
L5+	72/213 (33.8%)	160/295 (54.2%)	187/293 (63.8%)	136/238 (57.1%)	139/246 (56.5%)	127/191 (66.5%)	180/236 (76.3%)																																												
A*-C	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013																																												
A*-C	163/208 (78.4%)	213/268 (79.5%)	179/215 (83.3%)	200/255 (78.4%)	195/237 (82.3%)	159/195 (81.5%)	183/210 (87.1%)																																												

Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran i ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.	Nid yw ysgolion Gwynedd yn cynnig y cwrs Cymraeg Ail Iaith (cwrs byr).																				
Cynyddu cofrestrïadau Cymraeg Safon Uwch Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith fel canran o gofrestrïadau TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith.	<p>Dengys y tabl isod nifer ymgeiswyr TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith sy'n mynd ymlaen i astudio Safon Uwch. Nid oes cyfeiriad yn y data hwn at y disgyblion a aiff i Goleg Meirion Dwyfor.</p> <table border="1" data-bbox="703 1081 863 1821"> <thead> <tr> <th></th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> <th>2013</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Iaith Gyntaf</td> <td>67/259 (25.9%)</td> <td>63/269 (23.4%)</td> <td>52/279 (18.6%)</td> <td>41/255 (16.1%)</td> <td></td> </tr> <tr> <td>Ail Iaith</td> <td>2/39 (5.1%)</td> <td>6/46 (13%)</td> <td>1/58 (1.7%)</td> <td>3/61 (4.9%)</td> <td></td> </tr> </tbody> </table> <p>Parhau i weithio gydag adrannau Cymraeg i geisio annog disgyblion i barhau gyda'r Gymraeg hyd Safon Uwch wedi iddynt lwyddo yn TGAU. Ceisio pwysleisio manteision y Gymraeg fel pwnc Safon Uwch ac yn bwnc i'w astudio ymhellach, yn ogystal â cheisio gwneud y pwnc yn apelgar a pherthnasol i ddisgyblion – hyn drwy ddulliau dysgu ac addysgu amrywiol a defnydd effeithiol o adnoddau perthnasol.</p>		2009	2010	2011	2012	2013	Iaith Gyntaf	67/259 (25.9%)	63/269 (23.4%)	52/279 (18.6%)	41/255 (16.1%)		Ail Iaith	2/39 (5.1%)	6/46 (13%)	1/58 (1.7%)	3/61 (4.9%)			
	2009	2010	2011	2012	2013																
Iaith Gyntaf	67/259 (25.9%)	63/269 (23.4%)	52/279 (18.6%)	41/255 (16.1%)																	
Ail Iaith	2/39 (5.1%)	6/46 (13%)	1/58 (1.7%)	3/61 (4.9%)																	

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg			
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Targedau	Ch. Cynnydd
Gwella darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Cyfrwng Cymraeg.	<p>Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad at wasanaethau Cyfrwng Cymraeg</p> <p>Mae effaith ail strwythuro gwasanaethau mewn meysydd penodol (Gwybyddiaeth a Dysgu, Anhwylderau laith) yn sicrhau fod y plant ag ADY yn cyrraedd eu targedu ac yn cael mynediad llawn i wasanaethau Cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Mae'r Awdurdod yn y broses o gynllunio ysgol newydd bwrpasol ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Bydd yr ysgol newydd yn sicrhau addysg arbennig o'r ansawdd gorau gyda'r potensial o ddatblygu'n ganolfan o ragoriaeth ddwyieithog ar gyfer ymateb i anghenion disgyblion yn draws yr awdurdod a thu hwnt.</p> <p>Mae trafodaethau wedi cychwyn rhwng yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â chyflwyno polisi / protocol i'r Panel Rhiant Corfforaethol er mwyn sicrhau gwell mynediad i addysg Cyfrwng Cymraeg i blant mewn gofal sydd wedi eu lleoli tu allan i Wynedd.</p> <p>Darperir gwasanaethau AAA y Sir yn bennaf trwy'r Cydbwylgor Anghenion Addysgol Arbennig [CBAAA], sef trefniant ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn. Mae staff y CBAAA yn cynnwys athrawon arbenigol, seicolegwyr addysg, cydlynnydd datganiadau a staff gweinyddol/clerigol. Yn sgil hyn, mae gan ddisgyblion a'u rhieni fynediad i wasanaeth sydd yn gwbl ddwyieithog ac mae'r holl broses o lunio Datganiad AAA, gan gynnwys y ddogfennaeth, yn cael ei chynnig i rieni/gwarchodwyr yn Gymraeg neu yn Saesneg.</p>	Pob disgybl gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg. 100%	

	<p>Cydymffurfir yn llwyr â Chôd Ymarfer AAA Cymru. Sicrheir cydraddoldeb o ran darpariaeth iaith ym mhob gwasanaeth a chanfyddir beth yw dewis iaith rhieni yn gynnar yn y broses o ddelio â phlentyn sydd ag AAA. Cynhelir asesiadau yn newis iaith y rhieni a chymerir camau i sicrhau bod pawb sydd a wnelont â'r broses yn cael gwybod am anghenion iaith y plentyn. Cydymffurfir â'r gofynion hefyd o safbwynt darparu cynlluniau addysg unigol yn ddwyieithog a darperir pob gohebiaeth a deunydd ysgrifenedig naill ai'n ddwyieithog neu'n y Gymraeg. Darperir adnoddau cyfrwng Gymraeg neu ddwyieithog ar gyfer disgyblion.</p> <p>Mae darpariaeth cyfrwng Gymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o AAA. Darperir gwasanaeth seicoleg addysg dwyieithog i Ysgolion Arbennig a phrif-ffrwd. Un anhawster sydd yn codi yw sicrhau cyflenwad digonol o seicolegwyr addysg dwyieithog.</p> <p>Mae'n ddisgwyliad i gynorthwyyr cynnal dysgu fod yn ddwyieithog. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant ar eu cyfer hefyd yn ddwyieithog.</p> <p>Mae gan yr Awdurdod gytundeb lefel gwasanaeth gyda SNAP. Sicrheir mewn cyfarfodydd cyswllt â hwynt eu bod yn ymwybodol o'r gofynion arnynt o safbwynt yr iaith Gymraeg.</p>		
--	--	--	--

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus			
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Targedau	Ch. Cynnydd
Sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.	<p>Er nad oes ffigur penodol ar gael, nid yw'r Adran Addysg yn ymwybodol o unrhyw swyddi</p> <ul style="list-style-type: none"> - cynradd sy'n gofyn am y gallu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg - uwchradd sy'n gofyn am y gallu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg - swyddi uwchradd i ddysgu Cymraeg Ail Iaith - swyddi cynorthwyyr dosbarth/dysgu ar gyfer gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg <p>oedd yn wag ar ddechrau Medi 2013.</p> <p>Mae trefniadau hyfforddiant dwyieithog o ansawdd ar gael i staff yr Awdurdod ac mae'r gwasanaethau a ddarperir yn hollol ddwyieithog.</p> <p>Wrth hysbysebu swyddi mae'r Awdurdod yn datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd.</p> <p>Anogir staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ac fe'u rhyddheir, os bydd angen, i ddysgu neu i loywi eu sgiliau. Mae'r Cyngor yn darparu ar gyfer hyfforddi staff ar sawl lefel.</p> <p>Mae Swyddogion yr Adran Addysg yn cynnig cyngor a chynhaliadaeth reolaethol a phersonél i gyrrff llywodraethu ysgolion. Mae rhaglen hyfforddi Llywodraethwyr yn rhoi sylw i faterion staffio yn ogystal â rôl a chyfrifoldebau cyffredinol llywodraethwyr.</p>		
Gwella sgiliau ymarferwyr.	Penodwyd Swyddog Gwella Ansawdd Addysg (Rheoli a Monitro Grantiau) er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod a'r ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o Grant y Gymraeg mewn Addysg i gefnogi		

<p>Gwella methodoleg ymarferwyr</p> <p>sgiliau</p>	<p>gweithgareddau sy'n cyfrannu at amcanion y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Cynhaliwyd archwiliad o sgiliau iaith Gymraeg staff addysgu yn ystod 2013. Bwriad yr arolwg oedd casglu gwybodaeth er mwyn gwella cynllunio a thargedu rhaglenni hyfforddiant a chefnogaeth i'r dyfodol. Drwy'r grŵp strategol trawsawdurdod sy'n cael ei arwain y Pennaeth Addysg, bwriedir dadansoddi canlyniadau yr arolwg yma er mwyn adnabod anghenion hyfforddi a chynllunio rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (hyfforddiant a mentora, codi safonau llythrennedd, cyrsiau Cynllun Sabothol iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru).</p> <p>Ar hyn o bryd, mae hyfforddiant iaith ar gael i'r holl athrawon / cymorthyddion a chynigir y dewis o gyrsiau iaith mwy dwys yn flynyddol yn ogystal. Rhagwelir y bydd hyn yn digwydd ar ffurf Cymunedau Dysgu Proffesiynol ac yn faes ar gyfer cydweithio fel rhan o'r cynllun cymorth 'Ysgol i Ysgol' yn y dyfodol.</p> <p>Targedir athrawon ysgolion yr ardaloedd lle mae angen datblygiad pellach drwy gydweithio fel rhan o'r cynllun cymorth 'Ysgol i Ysgol' a thrwy gynnal cymunedau dysgu proffesiynol er mwyn hyrwyddo datblygiad y Gymraeg, sy'n rhoi sylw i ddatblygu sgiliau addysgu / methodoleg, a chanolbwyntio yn ogystal ar agweddau o bynciau ar draws y cwricwlwm.</p> <p>Yn ogystal, gwneir pob ymdrech i annog mwy o athrawon a chynorthwyrwyr dosbarth i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i loywi sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg e.e. Cynllun Sabothol: Canolfan Bedwyr a Chanolfan Addysg Oedolion Prifysgol Bangor.</p> <p>Dechreuwyd ar y gwaith o sefydlu rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant i'r gweithlu cynradd i gyd er mwyn cynorthwyo ysgolion i fedru gweithredu gofynion y Siarter iaith. Mae cynlluniau peilot llwyddiannus wedi'u cynnal, a bydd y gwaith yn mynd rhagddo eleni ym mhob pob</p>
--	---

<p>Integreiddio ystyriaethau cyfrwng Cymraeg ym mhob agwedd ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion</p>	<p>ysgol gynradd yng Ngwynedd. Mae gweithgor wedi'i greu i gychwyn y gwaith o sefydlu'r un egwyddorion yn y sector uwchradd.</p> <p>Mae Cymunedau Dysgu Proffesiynol, ynghyd â chydweithio fel rhan o'r cynllun cymorth 'Ysgol i Ysgol' ar waith yn yr ysgolion ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.</p> <p>Mae pob Arweinydd System a'r Uwch Arweinydd System sydd yn weithredol yng Ngwynedd yn cyflawni eu dyletswyddau yn ddwyieithog ac yn gwbl rugl yn Y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd (yn ysgrifenedig ac ar lafar).</p>		
--	--	--	--

ADRAN 3: Sylwebaeth a nodiadau pellach

Atodiad 1: Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach

Pwrpas yr Atodiad hwn yw cyflwyno rhai cynigion ar gyfer ymateb i un o brif flaenoriaethau'r Cyngor, sef hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae Strategaeth Iaith Gwynedd yn cynnabod dylanwad addysg ynghyd â chyfluoedd anffurfiol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol fel bod modd iddynt ddatblygu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg a meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith y tu hwnt i sefyllfaoedd adcyng ffurfiol.

Cyflwynir y cynigion isod a bwriedir eu trafod ymhellach gyda Hunaniaith ac ysgolion y sir gyda'r nod o ddatblygu a gweithredu cynlluniau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar agweddau a defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc yn ystod cyfnod gweithredu'r Cynllun Strategol hwn.

Cyffredinol

Taflen yn hyrwyddo manteision addysg Gymraeg/ddwyieithog.

Llunio Siarter iaith i bob ysgol yng Ngwynedd.

Cyfnod Sylfaen

Datblygu a gweithredu cynllun i wobnwo defnydd o'r Gymraeg fel rhan o agenda ehangach i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol

Cydweithio gyda'r Canolfannau Gymraeg i Oedolion i hyrwyddo cyrsiau Hwyl i'r Teulu/Cymraeg i'r Teulu sydd yn targedu rhieni plant y Cyfnod Sylfaen.

Cynradd

Dynodi cyfrifoldeb i bob Cyngor Ysgol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Sefydlu Pencampwyr Iaith neu gynllun cyffelyb i'r 'buddy' buarth.

Datblygu rhaglen o siaradwyr gwadd Gymraeg a Chymreig i ymweld â disgyblion ysgolion cynradd er mwyn cynyddu statws, bri a balcher i'r Gymraeg a'r hunaniaeth Gymreig ymysg plant a phobl ifanc.

Uwchradd

Dynodi cyfrifoldeb i bob Cyngor Ysgol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Sefydlu Pencampwyr Iaith.

Datblygu rhaglen o siaradwyr gwadd Cymraeg a Chymreig i ymweld â disgyblion ysgolion uwchradd er mwyn cynyddu statws, bri a balcher i'r Gymraeg a'r hunaniaeth Gymreig ymysg plant a phobl ifanc.

Gweithlu

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith.

Hyfforddiant i wella sgiliau iaith staff ategol ysgolion.

Cynnal hyfforddiant i'r gweithlu er mwyn sicrhau eu dealltwriaeth o fuddiannau caffael iaith a dulliau addas a sensitif o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc.

Llywodraethwyr

Annog Llywodraethwyr i ddynodi aelod i fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol.

Atodiad 2: Nifer a chanran y disgyblion sy'n mynychu lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir sy'n trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (nodwch os nad yw'r wybodaeth ar gael)

Enw'r Cylch Meithrin/Ileoliad Cymraeg nas cynhelir	Enw'r lleoliad cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir (Cylch Meithrin)	Nifer o lefydd ar gael	Nifer o blant sy'n mynychu	Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion Cymraeg a dwyieithog
	Penrhosgarnedd	24		88%
Cylch Cae Top		46		95%
	Bethel	19		100%
	Cefnfaes	20		100%
	Bontnewydd	24		100%
	Caban Cegin	24		100%
	Carmel	12		100%
	Coed Mawr	24		100%
	Deiniolen	20		100%
	Gerlan	12		100%
	Hirael	16		100%
	Llanberis a Nant Peris	17		100%
	Llanllechid	16		100%
	Llanllyfni	16		100%

Llanrug	20			100%
Dinas, Llanwnda	12			100%
Maesincla	52			100%
Mynydd Llandygai	12			100%
Penygroes	18			100%
Rhostryfan	26			100%
Y Gelli	24			100%
Seiont a Pheblig	52			100%
Talybont a Llandygai	18			100%
Talysarn	12			100%
Tregarth	24			100%
Twthill	20			100%
Waunfawr	18			100%
Y Felinheli	20			100%
Y Garnedd	40			100%
Y Groeslon	24			100%
Aberdaron	15			100%

	Abererch	16			100%
	Beddgelert	10			100%
	Brynaerau	12			100%
Bryncroes		20			100%
	Chwilog	24			100%
	Criccieth	16			100%
Edern		12			100%
	Garndolbenmaen	16			100%
	Llanbedrog	16			100%
	Llanengan	16			100%
Llanysumdwy		12			100%
	Morfa Nefyn	20			100%
	Nefyn	16			100%
	Pentreuchaf	15			100%
	Porthmadog	16			100%
	Pwllheli	16			100%
	Y Ffor	24			100%

	Gorlan Fach	16			100%
	Yr Eifl	20			100%
	Blaenau Ffestiniog	20			100%
	Craig Y Deryn				100%
	Corris	18			100%
	Dolybont	20			100%
	Dolgellau	26			100%
	Ffestiniog	16			100%
	Gellilydan	12			100%
	Harlech	24			100%
	Llanbedr	20			100%
	Llanuwchllyn	24			100%
	Maesywaen	25			100%
	Penrhyndeudraeth				100%
	Sarnau a Llandderfel	24			100%
	Talsarnau	16			100%
	Trawsfynydd	20			100%

	Tywyn	26			100%
	Y Bala	28			100%
	Y Bermo	16			100%
	Y Gromlech	24			100%

Atodiad 3: Nifer a chanran y disgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg a dwyieithog sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd Cymraeg

Cyfanswm y disgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg a dwyieithog	Cyfanswm y disgyblion mewn ysgolion uwchradd Cymraeg	Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd Cymraeg a dwyieithog

Fel nodir yn y cynllun bod pob disgybl yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd dwyieithog.

Atodiad 4: Cyrhaeddiad a pherfformiad mewn Cymraeg Ail Iaith

Blwyddyn: 2013

Cyfnod Allweddol 2

	Nifer y disgyblion		Canran disgyblion	Canran cyrraedd Lefel 4 sy'n
	2011	2012	2013	
Asesiadau athro mewn Cymraeg Ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2	0/4 (0%)	0/3 (0%)	0/1 (0%)	

%Lefel 4+	0/4 (0%)	0/3 (0%)	0/1 (0%)
-----------	----------	----------	----------

Cyfnod Allweddol 3

	Nifer y disgyblion		Canran disgyblion	Canran cyrraedd Lefel 5 sy'n
	2009	2010	2011	
Disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael asesiad athro mewn Cymraeg Ail iaith	187/293 (63.8%)	136/238 (57.1%)	139/246 (56.5%)	180/236 (76.3%)

%Lefel 5+	187/293 (63.8%)	136/238 (57.1%)	139/246 (56.5%)	180/236 (76.3%)
-----------	-----------------	-----------------	-----------------	-----------------

Atodiad 5: Nid oes rhaid cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn atodiad neu dabl ar wahân ond dylech ei gynnwys i gefnogi'r testun yn Neilliant 5:

- canlyniadau asesiadau a/neu arholiadau allanol disgyblion yn dilyn rhaglenni astudio Cymraeg yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4
- canlyniadau asesiadau a/neu arholiadau allanol disgyblion yn dilyn rhaglenni astudio Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4
- niferoedd a chanrannau disgyblion:
 - a gofrestrir ar gyfer arholiad allanol mewn Cymraeg Ail Iaith, yn ôl y math o gwrs, a
 - na chofrestrwyd ar gyfer arholiad allanol mewn Cymraeg Ail Iaith.

Atodiad 6: CANLLAWIAU GWEITHREDU'R POLISI IAITH

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno crynodeb o'r disgwyliadau a osodir ar bennaethiaid a'u hysgolion mewn perthynas â gweithredu'r Polisi Iaith.

Disgwyllir i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff a'r Corff Llywodraethu, adolygu Polisi Iaith yr ysgol yn rheolaidd.

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith yn ei ysgol/hysgol; mae disgwyllir i'r Pennaeth ddarparu arweiniad pendant er mwyn sefydlu dealltwriaeth drwyadl o nôd y polisi ac i sicrhau bod ymdrechion athrawon dosbarth yn cael eu hatgyfnerthu drwy sicrhau bod ethos Gymraeg a Chymreig priodol yn yr ysgol.

Diffinia'r Polisi Iaith ddatblygiad ieithyddol disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth iddynt weithio tuag at y nôd o ddwyieithrwydd.

CARFAN	Diffiniad o'r math o ddisgybl yn ôl ei allu ieithyddol.
A	Disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg.
B	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Gymraeg ond sydd ag angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg.
C1	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg.

C2	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd heb y sgiliau oed-berthnasol priodol yn y Gymraeg.
CH	Disgyblion heb sgiliau oed-berthnasol priodol yn y naill iaith na'r llall.

Disgwyllir i bob ysgol ddarparu'n ofalus ar gyfer datblygu dwyieithrwydd pob disgybl trwy gynllunio ieithyddol bwriadus.

AMCANION CYFFREDINOL

Nôd y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o'r ysgolion.

Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, mae angen parhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Gymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyt.

Disgwyllir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Er mai nôd cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir yn y blynyddoedd cynnar er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y Cyfnodau Allweddol eraill, mae angen strategaeth bendant er mwyn datblygu gafael y disgybl ar y Gymraeg.

AMCANION PENODOL

YSGOLION CYNRADD

Yn y Blynyddoedd Cynnar, mae angen gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg gan sicrhau bod disgyblion yn yr ardaloedd Seisnigedig yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl. Yn y cyd-destun hwn, mae angen gweithredu ar gynnwys y dogfennau 'Gosod Sylfeini Dwyieithrwydd yn y Blynyddoedd Cynnar' a 'Cynllunio Datblygiad Iaith yn yr ardaloedd Seisnigedig'.

Yn CA1, dylid adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol yn y tymor olaf ar ddiwedd CA1. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Yn CA2, dylid parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Dylai pob ysgol sefydlu trefn ar gyfer tracio a mesur datblygiad ieithyddol y disgyblion yn ôl y Carfanau Iaith gyda'r nôd o sicrhau bod pob un yn symud tuag at Garfan A.

Yn ychwanegol, disgwylir i ysgolion sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2, yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, naill ai trwy fynychu Canolfan Iaith, neu trwy ddarpariaeth ddwys yn yr ysgol, er mwyn iddynt allu dilyn y cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg / ddwyieithog.

YSGOLION UWCHRADD

Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob ysgol uwchradd.

Disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Yn ychwanegol, mae angen sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn cael asesiad yn y Gymraeg ar ddiwedd CA3 ac yn sefyll arholiadau allanol priodol ar ddiwedd CA4.

Rhaid adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau. Yn y cyd-destun hwn, mae angen defnyddio'r wybodaeth a drosglwyddir am garfanau ieithyddol pob disgybl gan y Cyd-gysylltwyr Iaith Dalgylchol ar gyfer cynllunio ieithyddol bwriadus. Yn ymarferol, bydd angen gweithredu yn y modd a ganilyn.

Yn achos disgyblion carfanau A a B bydd cyfran helaeth o'u cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ymarferol bydd o leiaf 70% o'u profiadau cwricwlaidd yn y Gymraeg.

Yn achos dysgwyr sydd angen datblygu ac atgyfnerthu eu sgiliau yn y Gymraeg [carfan C-1] cynllunir y cwricwlwm mewn modd fydd yn caniatáu iddynt ymarfer a datblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Yn ymarferol bydd o leiaf 50% o'u profiadau cwricwlaidd yn y Gymraeg.

Yn achos lleiafrif y disgyblion sydd â sgiliau priodol yn y Saesneg ond sydd heb y sgiliau priodol yn y Gymraeg [carfan C2], rhoddir pwyslais ar gynllunio cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddatblygu eu sgiliau llafar yn y Gymraeg. Mewn achosion o'r fath bydd o leiaf 30% o'u profiadau cwricwlaidd yn y Gymraeg.

Dylai pob ysgol sefydlu trefn ar gyfer tracio a mesur datblygiad ieithyddol y disgyblion yn ôl y Carfanau Iaith gyda'r nôd o sicrhau bod pob un yn symud tuag at Garfan A.

Yn ychwanegol, disgwylir i ysgolion sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg ym mlynnyddoedd cynnar CA3 yn dysgu'r iaith gynted â phosibl, naill ai trwy fynychu'r Ganolfan Iaith neu trwy ddarpariaeth ddwys yn yr ysgol, er mwyn iddynt allu dilyn eifennau o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg / ddwyieithog.

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	IONAWR 15 2014
TEITL:	CWYNION IAITH
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR.

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Hydref 2013	Cwyn ynglŷn â gohebiaeth cofrestru etholwyr, gyda'r fersiwn Saesneg fwyaf amlwg wrth ei dynnu o'r amlen	Yr Uned wedi ymateb i'r gwyn ac yn cysylltu â'r cwynydd
Tachwedd 2013	Cwyn ynglŷn â ffurflenni trwydded tafarn ond ar gael yn y Saesneg- cais gan y Comisiynydd Iaith am esboniad o'r sefyllfa	Cysylltu â'r Uned berthnasol, a derbyn esboniad nad oes fersiwn Cymraeg cyfredol ar gael. Yr Uned eisoes wedi codi hyn gyda'r Llywodraeth. Cyfeiriwyd y mater yn ol at y Comisiynydd Iaith am arweiniad pellach.
Tachwedd 2013	Derbyn sylwadau gan Fenter Iaith Dyffryn Ogwen yn datgan pryder ynglŷn â materion cynllunio a'r iaith Gymraeg ac yn gofyn i'r Cyngor gasglu gwybodaeth a llunio strategaethau cynllunio cymunedol ar gyfer wardiau'r sir	Yr Adran Reoleiddio'n ymateb gydag amlinelliad o'r fframwaith statudol (noder; cafwyd cyflwyniad ar hyn ym Mhwyllgor Iaith mis Hydref). Gwahodd sylwadau ffurfiol gan y Fenter Iaith fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer Cynllun Drafft Adneuo fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
Tachwedd 2013	Cwyn ynglŷn â'r defnydd o 'Gaol Street' mewn Adroddiad Archwilio Llifogydd	Atgoffa'r Adran berthnasol mai fersiynau Cymraeg enwau strydoedd a ddefnyddir gan y Cyngor

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Tachwedd 2013	Cwyn ynglŷn â'r gwersi celf a ddarparir drwy ysgolion- nad yw safon Cymraeg rhai tiwtoriaid yn ddigonol i sicrhau gwersi drwy gyfrwng yr iaith	Yr Adran yn ymateb, gan gydnabod ei bod yn anodd recriwtio arbenigwyr cerdd cwbl rugl, ond yn pwysleisio'r gefnogaeth iaith a gynigir, ynghyd a hyfforddiant ar dermau cerddorol.